# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mehefin 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:30-10:00)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:00-10:05

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5)556 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 1 - 50)

**CLA(5)-19-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-19-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-19-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-19-20 - Papur 4** - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, 8 Mehefin 2020

## 3 Papur(au) i'w nodi

10:05-10:10

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 51 - 53)

**CLA(5)-19-20 – Papur 5** – Llythyr gan Brif Weinidog Cymru, 15 Mehefin 2020

**CLA(5)-19-20 – Papur 6** – Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru

**3.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Rheoliadau drafft mewn perthynas â Chofrestr Etholiadol 2020**

(Tudalennau 54 - 56)

**CLA(5)-19-20 – Papur 7** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 16 Mehefin 2020

**CLA(5)-19-20 – Papur 8** – Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru

**3.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaeth**

(Tudalennau 57 - 91)

**CLA(5)-19-20 – Papur 9 –** Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 17 Mehefin 2020

**CLA(5)-19-20 – Papur 10 –** Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019: Canllawiau ar baratoi deddfwriaeth

**CLA(5)-19-20 – Papur 11 –** Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020: Canllawiau ar oblygiadau drafftio deddfwriaethol Rhan 2

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

10:10

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd – trafod yr adroddiad drafft

10:10-10:40 (Tudalennau 92 - 141)

**CLA(5)-19-20 – Papur 12** – Adroddiad drafft

**CLA(5)-19-20 – Papur 13** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 14 Mai 2020 (Diwygiedig)

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth

10:40-10:50 (Tudalennau 142 - 147)

**CLA(5)-19-20 - Papur 14** - Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## Dyddiad y cyfarfod nesaf - 29 Mehefin 2020

# SL(5)556 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar gategorïau penodol o bobl sy'n cyrraedd Cymru:

- i ddarparu gwybodaeth am ble y byddant yn preswylio yng Nghymru a materion perthnasol eraill;
- i ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Yn ddarostyngedig i rai eithriadau, mae rheoliad 4 yn gorfodi personau sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren i ddarparu gwybodaeth ar ffurf electronig i'r Ysgrifennydd Gwladol. Pan fo person yn cyrraedd yng nghwmni plentyn y bydd y maent yn gyfrifol amdano, mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth am y plentyn yn ogystal.

Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn ei gwneud yn ofynnol, yn ddarostyngedig i rai eithriadau, bod y categorïau isod o bersonau yn ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau wedi cyrraedd Cymru:

- person sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin;
- person sy'n cyrraedd Cymru o Weriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, ac sydd wedi cyrraedd o'r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n gorffen ar y diwrnod y mae'r person yn cyrraedd Cymru.
- person sy'n cyrraedd Cymru o fan arall yn y Deyrnas Unedig sydd, wedi cyrraedd o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn y 14 diwrnod blaenorol.

Mae Rheoliad 19 yn darparu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu rheidrwydd a chymesuroldeb y Rheoliadau yma bob 21 diwrnod. Felly mae'n rhaid i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal erbyn 29 Mehefin 2020, gan i'r Rheoliadau ddod i rym ar 8 Mehefin 2020.

Mae Rheoliad 20 yn darparu y daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 9 yn nodi nad yw rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i berson a ddisgrifir ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2, cyhyd â bod yr amodau ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno wedi'u bodloni. Yn hytrach, dylai'r cyfeiriad at baragraff 2 o Atodlen 2 mewn perthynas â 9(a) gyfeirio at baragraff 1(2) o Atodlen 2.

**2) Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 17(10) yn nodi bod gan "data personol" a "deddfwriaeth diogelu data", fel y'u defnyddir yn rheoliad 17(8), yr un ystyron ag yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018. Fodd bynnag, ymddengys mai gwall croesgyfeirio yw hwn, gan fod y termau hyn yn cael eu defnyddio mewn gwirionedd yn rheoliad 17(9) o'r Rheoliadau, yn hytrach na 17(8). Er mwyn cyflawnrwydd, dylid nodi bod y cyfeiriad at adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn gywir.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym am 12:01am ar 8 Mehefin 2020. Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd am 11:00am ar 8 Mehefin 2020. Mae hyn yn golygu bod y Rheoliadau wedi'u gosod gerbron y Senedd ar ôl iddynt ddod i rym, ac mae hefyd yn golygu na chadwyd at y confensiwn i offerynnau statudol beidio dod i rym yn gynt na 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno ar yr un llinell amser sy'n gosod y gofynion cyfatebol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull gweithredu ledled y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn egluro yn y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn ei bod, mewn ymateb i bandemig COVID-19, yn ystyried bod *"angen gweithredu ar frys i gyfyngu ar nifer yr achosion o COVID-19 a ddygir i mewn i'r DU a sicrhau na fydd yr achosion hyn yn cael effaith berthnasol ar fynychder domestig y feirws."* Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyn yn arbennig o bwysig wrth i gyfradd heintiau domestig arafu.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru yn egluro, *"Pe bai oedi o ran y ddeddfwriaeth, ni fydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru yn y byrdymor hunanynysu am 14 o ddiwrnodau, ac felly ni fydd yn ofynnol iddynt leihau eu cysylltiadau cymdeithasol yn sylweddol [...]. O ganlyniad, mae'r risg y byddant yn trosglwyddo'r feirws i'r boblogaeth ddomestig yn cynyddu, os ydynt wedi dal y feirws neu os ydynt yn heintus. Bydd unrhyw oedi hefyd yn golygu na fydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru ddarparu eu manylion cyswllt sydd eu hangen i gynorthwyo olrhain cysylltiadau a thrwy hynny leihau trosglwyddiad y feirws. Nod y ddau fesur yw lleihau mynychder COVID-19 yn y DU. Gall oedi o ran gweithredu'r rheoliadau arwain at gynnydd perthnasol ym mynychder y clefyd yn y DU ar yr union adeg y mae nifer yr achosion domestig yn lleihau."*

**2) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod hyn oherwydd y bygythiad difrifol ac agos sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys ac, o'r herwydd, yr angen i roi'r Rheoliadau hyn ar waith ar frys.

**3) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae paragraff 17(2)(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn diffinio *"Trwyddedai carthffosiaeth"* fel yr ystyr a roddir yn adran 17BA(6) a 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Fodd bynnag, nodir na ellir dod o hyd i'r diffiniad yn adran 17BA o Ddeddf 1991, gan nad yw adran 4(1) o Ddeddf Dŵr 2014, sy'n mewnosod adran 17BA yn Neddf 1991, ond mewn grym yn rhannol. Gan hynny, nid yw adran 17BA(6) wedi'i mewnosod yn Neddf 1991 eto. Mae hyn yn gadael y darllenydd yn ddibynnol iawn ar y troednodyn yn y Rheoliadau, sy'n eu cyfeirio at Ddeddf Dŵr 2014.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru ddarparu ymateb ynghylch a yw'n gwybod pryd y bydd adran 17BA(6) yn cael ei mewnosod yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991 gan Ddeddf Dŵr 2014 ac, yn absenoldeb hyn, a roddwyd ystyriaeth i gynnwys y diffiniad llawn ar wyneb y Rheoliadau.

**4) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Trwy ei gwneud yn ofynnol i rai categorïau o bobl sy'n cyrraedd Cymru ynysu mewn cyfeiriad penodol am 14 o ddiwrnodau, a darparu gwybodaeth am ble y byddant yn preswylio yng Nghymru a materion perthnasol eraill, mae'r Rheoliadau yn rhoi'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn.

Mae Erthygl 8 yn hawl gymwysedig a chaniateir ymyrryd â'r hawl hon, lle mae hynny'n angenrheidiol, mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu i ddiogelu iechyd.

Anghenraid y sefyllfa sydd wedi arwain at y Rheoliadau hyn yw'r sail debygol y dibynnir arni i gyfiawnhau'r ymyrraeth â'r hawliau hyn fel ffordd gymesur o gyflawni'r nod cyfreithlon o ddiogelu dinasyddion Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cynnwys cydnabyddiaeth na chyfiawnhad dros ymyrryd â hawliau dynol. Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn nodi ei chyfiawnhad o ran sut mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu ond nad ydynt yn torri hawliau dynol.

Tan ddiwedd y cyfnod pontio, bydd Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn gymwys yn y Deyrnas Unedig. Mae mesurau diogelu cyfatebol i'r rhai uchod wedi eu cynnwys yn Siarter. Yn ddarostyngedig i egwyddor cymesuredd, gellir gwneud cyfyngiadau sy'n effeithio ar yr hawliau o dan y Siarter os ydynt yn angenrheidiol ac yn wirioneddol yn bodloni amcanion o fudd cyffredinol a gydnabyddir gan yr Undeb Ewropeaidd neu'r angen i amddiffyn hawliau a rhyddid eraill.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth:

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i'r pwyntiau technegol ac i'r trydydd a'r pedwerydd pwynt o ran rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**16 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 574 (Cy. 132)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i'r bygythiad difrifol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlu acíwt difrifol 2 (SARSCoV-2) yng Nghymru. Yn unol ag adran 45B Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau at ddibenion (ymysg pethau eraill) atal perygl i iechyd y cyhoedd a ddaw o longau, awyrennau, trenau neu gludiant yn cyrraedd unrhyw fan.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar gategorïau penodol o bobl sy'n cyrraedd Cymru o fan y tu allan i'r ardan deithio gyffredin—

- i ddarparu gwybodaeth am ble y byddant yn preswylio yng Nghymru a materion perthnasol eraill, ac
- i ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Mae rheoliad 4 yn gorfodi personau sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren i ddarparu gwybodaeth ar ffurf electronig i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn ymarferol gwneir hyn drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein ar wefan www.gov.uk at y diben hwn. Pan fo person yn cyrraedd yng nghwmni plentyn y bydd y maent yn gyfrifol amdano, mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth am y plentyn yn ogystal.

Mae rheoliad 5 yn darparu ei bod yn ofynnol i berson hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol o unrhyw newid i'r wybodaeth a ddarparwyd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Gwneir hyn hefyd drwy ddefnyddio'r un cyfleuster ar lein.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Atodlen 1 yn pennu'r mathau o wybodaeth sy'n ofynnol i'w darparu o dan reoliad 4 neu 5. Dyma fydd y wybodaeth y bydd y ofynnol i'w gynnwys wrth gwblhau'r ffurflen ar lein. Mewn ambell achos bydd y wybodaeth sydd yn ofynnol gan Atodlen 1 yn dibynnu ar yr amgylchiadau (er enghraifft, o dan baragraff 1(d) mae'n ofynnol i berson ddarparu manylion pasport neu fanylion dogfen deithio arall os nad oes gan y person basport). Nid yw'n ofynnol i bersonau sydd yn dod o fewn un o'r categorïau a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 2 ddarparu gwybodaeth o dan reoliad 4 a 5. Os nad yw'r wybodaeth ym meddiant y person nid yw'n ofynnol iddynt ei ddarparu (rheoliad 6).

Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod y categorïau isod o bersonau yn ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau wedi cyrraedd Cymru—

(a) person sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, neu

(b) person sy'n cyrraedd Cymru o Weriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, neu Ynys Manaw, ac sydd wedi cyrraedd o'r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n gorffen ar y diwrnod y mae'r person yn cyrraedd Cymru, neu

(c) person sy'n cyrraedd Cymru o fan arall yn y Deyrnas Unedig sydd, wedi cyrraedd o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn yr 14 diwrnod blaenorol.

Ni ddylai'r personau hynny adael y fangre neu fod y tu allan i'r fangre lle y byddant yn ynysu cyn diwedd diwrnod olaf yr ynysiad (ac eithrio am resymau nodir yn rheoliad 10).

Mae rheoliad 8 yn darparu hefyd ei bod yn ofynnol i berson sy'n cyrraedd Cymru o ran arall o'r Deyrnas Unedig sydd wedi cyrraedd o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin yn y 14 diwrnod blaenorol hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol am gyfeiriad y man lle y byddant yn preswylio a bod yn rhaid iddynt wneud hynny cyn cyrraedd Cymru, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyrraedd Cymru (eto drwy ddefnyddio'r ffurflen ar lein).

Mae Atodlen 2 (a gyflwynir gan reoliad 9) yn nodi'r categorïau o bobl sydd wedi'u eithrio rhag y gofyniad i ynysu. Mae rheoliad 10 yn darparu bod y gofyniad i ynysu'n peidio â bod yn gymwys os yw'r person yn teithio er mwyn gadael Cymru (paragraff (3)), yn nodi'r amgylchiadau cyfyngedig y caniateir i berson fod y tu allan i'r man ymaent yn ynysu pan fo hynny dros dro (paragraff (4)), mae'n caniatau i berson newid y man lle maent yn ynysu, os oes angen iddynt wneud hynny am resymau cyfreithiol, neu os yw hi'n amhosib iddynt a ros yn y man gwreiddiol (paragraff (5)) fel arall ac yn darparu nad ydyw'r gofyniad

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ynysu'n gymwys i berson sy'n ddarostyngedig i ofynion penodol o dan y Ddeddf Coronafeirws 2020 neu ddeddfwriaeth mewnfudo.

Mae rheoliad 13 yn rhoi'r pŵer i swyddogion yr heddlu orchymyn neu symud person i fan lle maent yn ynysu os ydynt yn rhesymol gredu fod y person yn torri'r gofyniad i ynysu.

Mae rheoliad 14 yn darparu fod torri gofyniad a geir yn y Rheoliadau yma ac atal person rhag arfer swyddogaethau o dan y rheoliadau yma'n drosedd. Gall person sydd yn cael ei ganfod yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau dderbyn dirwy, ac nid oes uchafswm ar y ddirwy a ellid ei rhoi.

Mae rheoliad 16 yn darparu y gellid rhoi cosb benodedig i berson sydd o dan amheuaeth o gyflawni troseddo dan y Rheoliadau yma yn hytrach na'i erlyn. Pan fo'r drosedd honedig yn deillio o dorri'r ddyletswydd ynysu bydd y gosb yn £1000, mewn achosion eraill bydd y gosb yn £60 (£30 os y'i telir o fewn 14 diwrnod) gan godi bob tro y rhoddir cosb benodedig debyg, hyd at uchafswm o £1920.

Mae rheoliad 17 yn nodi'r amgylchiadau y caiff gwybodaeth a ddarperir o dan y Rheoliadau (a Rheoliadau cyfatebol a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ei datgelu neu ei defnyddio. Mae rheoliad 18 yn atal gwybodaeth a ddarperir o dan y Rheoliadau yma rhag cael ei defnyddio i argyhuddo person mewn achos am unrhyw drosedd ac eithrio achos o dan y Rheoliadau yma, am drosedd o wneud datganiad anwir ac eithrio yn dilyn tyngu llw.

Bydd yn ofynnol adolygu rheidrwydd a chymesuroldeb y Rheoliadau yma bob 21 diwrnod (rheoliad 19).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 574 (Cy. 132)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

*Gwnaed* *5 Mehefin 2020*

*Yn dod i rym* *am 12.01 a.m. ar 8 Mehefin 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 11.00 a.m. ar 8 Mehefin 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a dod i rym**

**1**.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 12.01 a.m. ar 8 Mehefin 2020.

**Dehongli cyffredinol**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-Cov-2);

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "y Deddfau Mewnfudo" yr ystyr a roddir i "the Immigration Acts" yn adran 61 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007(**1**);

mae i "gwybodaeth am deithiwr" ("*passenger information")* yr ystyr a roddir gan reoliad 4(1);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw ardd, iard, tramwyfa, gris, garej, tŷ allan, neu unrhyw atodyn i fangre o'r fath;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person o dan 18 oed ac mae unrhyw gyfeiriad at "oedolyn" i'w ddehongli yn unol â hynny;

ystyr "swyddog mewnfudo" ("*immigration officer*") yw person sydd wedi ei benodi yn swyddog mewnfudo gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Mewnfudo 1971(**2**).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae gan berson gyfrifoldeb am blentyn os oes gan y person—

(a) gwarchodaeth neu ofal am y plentyn, neu

(b) cyfrifoldeb rhiant am y plentyn (o fewn ystyr Deddf Plant 1989)(**3**).

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae i—

"yr ardal deithio gyffredin"(**4**);

"awyren"(**5**);

"llong"(**6**);

"porthladd"(**7**),

yr un ystyr ag a roddir i "the common travel area", "aircraft", "ship" a "port" yn Neddf Mewnfudo 1971.

## RHAN 2

### Gofyniad i ddarparu gwybodaeth

**Personau sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin**

**3.**—(1) Yn y Rhan hon mae cyfeiriadau at "P" yn gyfeiriadau at—

---

(**1**) 2007 p. 30. Diwygiwyd adran 61 gan adran 73(5) o Ddeddf Mewnfudo 2014 (p. 22) ac adran 92(5) o Ddeddf Mewnfudo 2016 (p. 19).

(**2**) 1971 p. 77. Diwygiwyd paragraff 1 gan baragraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf yr Asiantaeth Diogelu Iechyd 2004 (p. 17), a chan O.S. 1993/1813.

(**3**) 1989 p. 41.

(**4**) Gweler adran 1(3). Mae'n darparu y cyfeirir at y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon gyda'i gilydd yn Neddf Mewnfudo 1971 fel "the common travel area".

(**5**) Gweler adran 33(1).

(**6**) Gweler adran 33(1).

(**7**) Gweler adran 33(1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) person sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, neu

(b) person—

(i) sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o Weriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel, neu Ynys Manaw, ac

(ii) sydd wedi bod mewn man y tu allan i'r ardal deithio gyffredin o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar y diwrnod pan fo'r person yn cyrraedd.

(2) Ond nid yw cyfeiriadau at P yn cynnwys person a ddisgrifir yn Rhan 1 o Atodlen 2.

**Gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr**

**4.**—(1) Rhaid i P gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig cyn gynted â bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyrraedd Cymru, gan ddefnyddio cyfleuster a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwn—

(a) gwybodaeth am deithiwr ar gyfer P, a

(b) pan fo P yn cyrraedd Cymru yng nghwmni plentyn y mae gan P gyfrifoldeb amdano, gwybodaeth am deithiwr ar gyfer y plentyn,

(2) Pan fo P yn cyrraedd Cymru drwy borthladd--

(a) rhaid i P gydymffurfio â pharagraff (1) cyn gadael y porthladd, a

(b) rhaid i swyddog mewnfudo yn y porthladd ddarparu P unrhyw gynhorthwy y mae'r swyddog yn ei ystyried yn angenrheidiol i alluogi P i gydymffurfio â pharagraff (1).

(3) Nid yw'n ofynnol i P gydymffurfio â pharagraff (1) os yw'r wybodaeth am deithiwr wedi ei darparu'n electronig i'r Ysgrifennydd Gwladol gan ddefnyddio cyfleuster a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw, cyn i P gyrraedd Cymru.

(4) Ond pan fo paragraff (3) yn gymwys, rhaid i P ddarparu tystiolaeth i swyddog mewnfudo bod y wybodaeth am deithiwr wedi ei ddarparu, os gofynnir iddo wneud hynny gan y swyddog.

(5) Pan fo P yn blentyn y mae gwybodaeth am deithiwr mewn cysylltiad ag ef wedi ei darparu gan berson sydd â chyfrifoldeb am P, yn unol â pharagraff (1)(b), nid yw paragraff (1)(a) yn ei gwneud hi'n ofynnol i P ddarparu gwybodaeth am deithiwr ar gyfer P.

**Gofyniad i hysbysu ynghylch newidiadau i wybodaeth am deithiwr**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) pan fo'n ofynnol gan reoliad 7 neu 8 i P breswylio mewn mangre (ac i beidio â gadael y fangre na bod y tu allan iddi) tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 12), a

(b) pan fo gwybodaeth am deithiwr ar gyfer P yn newid cyn diwedd y diwrnod hwnnw.

(2) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i P ddarparu i'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig wybodaeth am deithiwr sydd wedi ei diweddaru cyn gynted ag y bo'n resymol ymarferol, gan ddefnyddio'r cyfleuster a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.

(3) Pan fo P yn blentyn y mae gan berson arall gyfrifoldeb amdano—

(a) nid yw'n ofynnol i P ddarparu gwybodaeth am deithiwr sydd wedi ei diweddaru o dan baragraff (2), a

(b) mae'n ofynnol i'r person arall, ar ran P, ddarparu'r wybodaeth am deithiwr sydd wedi ei ddiweddaru ar ran P.

**Gwybodaeth am deithiwr nad yw ym meddiant neu o dan reolaeth person**

**6.** Nid oes dim yn rheoliad 4 neu 5 sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson ddarparu gwybodaeth am deithiwr nad yw ym meddiant y person neu o dan ei reolaeth.

## RHAN 3

### Gofyniad i ynysu etc.

**Gofyniad i ynysu: cyrraedd o fan y tu allan i'r Deyrnas Unedig**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i berson ("P")—

(a) sy'n cyrraedd Cymru ar long neu awyren o fan y tu allan i'r ardal deithio gyffredin, neu

(b) sydd —

(i) yn cyrraedd Cymru ar long neu awyren o Weriniaeth Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, a

(ii) sydd, wedi cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(2) Rhaid i P—

(a) teithio'n uniongyrchol i fangre benodol yng Nghymru sy'n addas i P breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) teithio'n uniongyrchol i ran o'r Deyrnas Unedig heblaw Cymru.

(3) Pan fo P yn teithio i fangre benodol yng Nghymru i breswylio ynddi, fel sy'n ofynnol gan baragraff (2)(a), ni chaniateir i P adael na bod y tu allan i'r fangre cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P—

(a) onid yw wedi ei awdurdodi i wneud hynny gan reoliad 10(4) (gadael y fangre dros dro), neu

(b) onid yw'r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â P yn rhinwedd rheoliad 10(3) (gadael Cymru).

(4) At ddibenion paragraffau (2) a (3), y fangre benodol yw—

(a) y fangre a bennir yng ngwybodaeth am deithiwr P fel y fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn (oni bai fo is-baragraff (d) yn gymwys i P);

(b) pan fo P yn berson a ddisgrifir—

(i) ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 nad yw wedi bodloni'r amodau ym mharagraff 1(2) o'r Atodlen honno, neu

(ii) paragraff 1(1)(l) o'r Atodlen honno,

mangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn;

(c) pan na fo gwybodaeth am deithiwr P yn pennu'r fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn, y fangre a drefnwyd gan P o dan baragraff (5);

(d) pan fo P yn ddarostyngedig i ofyniad a osodir o dan neu yn rhinwedd y Deddfau Mewnfudo i breswylio mewn mangre arbennig yng Nghymru, y fangre honno.

(5) Pan na fo gwybodaeth am deithiwr P yn pennu'r fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion y rheoliad hwn, rhaid i P—

(a) wneud trefniadau cyn gynted a bo'n rhesymol ymarferol i breswylio mewn mangre yng Nghymru tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P, a

(b) hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o gyfeiriad y fangre honno gan ddefnyddio cyfleuster a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.

(6) Ond pan fo P wedi cyrraedd Cymru drwy borthladd, rhaid i P gydymffurfio ậ gofynion paragraff (5) cyn i P adael y porthladd.

(7) Pan fo paragraff (5) yn gymwys, rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu'r cynorthwy, neu drefnu darpariaeth o'r cynhorthwy, y maent yn ystyried yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

angenrheidiol (os o gwbl) i sicrhau y gall P wneud y trefniadau a grybwyllir ym mharagraff (5)(a).

**Gofyniad i ynysu: cyrraedd o ran arall o’r Deyrnas Unedig**

**8.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys i berson (“P”)—

(a) sy’n cyrraedd Cymru o rywle arall yn y Deyrnas Unedig, a

(b) sydd o fewn y cyfnod o 14 o diwrnod sy’n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru wedi cyrraedd yr ardal deithio gyffredin o fan y tu allan i‘r ardal honno;

(2) Ond nid yw cyfeiriadau at P yn cynnwys—

(a) person—

(i) sy’n cyrraedd Cymru at ddiben dychwelyd i’r fangre yng Nghymru y mae’r person yn preswylio ynddi at ddibenion rheoliad 7(3));

(ii) person a adawodd Cymru dros dro, am un neu ragor o’r resymau a awdurdodir yn rheoliad 10(4);

(b) person—

(i) y mae’n ofynnol iddo breswylio mewn mangre yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig o dan ddarpariaeth mewn Rheoliadau a wneir mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (yn ôl y digwydd) sy’n cyfateb i’r Rheoliadau hyn,

(ii) y caniateir iddo adael y rhan arall honno o’r Deyrnas Unedig dros dro yn rhinwedd y Rheoliadau hynny, a

(iii) sy’n aros yng Nghymru am ddim hwy nag sy’n angenrheidiol.

(3) O ran P—

(a) rhaid iddo deithio’n uniongyrchol i fangre yng Nghymru sy’n addas i P breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P, a

(b) ni chaiff adael y fangre na bod y tu allan iddi cyn diwedd diwrnod olaf ynysiad P—

(i) onid yw wedi ei awdurdodi gan reoliad 10(4) (bod y tu allan i fangre am gyhyd ag y bo’n angenrheidiol) i wneud hynny, neu

(ii) onid yw’r paragraff hwn yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â P yn rhinwedd rheoliad 10(3) (gadael Cymru).

(4) Rhaid i P hefyd—

(a) cyn cyrraedd Cymru, neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyrraedd Cymru,

hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig am gyfeiriad y fangre y mae P yn bwriadu preswylio ynddi at ddibenion paragraff (3) gan ddefnyddio cyfleuster a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.

**Gofynion ynysu: esemptiadau**

**9.** Nid yw rheoliad 7 ac 8 yn gymwys i berson a ddisgrifir—

(a) ym mharagraff 1(1)(a) i (k) o Atodlen 2 sy'n bodloni'r amodau ym mharagraff 2 o'r Atodlen honno;

(b) ym mharagraffau 2 i 36 o Atodlen 2.

**Gofynion ynysu: eithriadau**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo gofyniad i ynysu yn ei gwneud yn ofynnol i berson ("P") breswylio mewn mangre (a pheidio â gadael y fangre na bod y tu allan iddi) yng Nghymru.

(2) Ystyr "gofyniad i ynysu" mewn perthynas â P yw gofyniad a osodir gan—

(a) rheoliad 7(3);

(b) rheoliad 8(3)(b).

(3) Mae gofyniad i ynysu yn peidio â bod yn gymwys mewn perthynas â P os yw P yn gadael Cymru, onid yw P y tu allan i'r Deyrnas Unedig dros dro at ddiben a awdurdodir gan baragraff (4)(b) i (j).

(4) Caniateir i P adael y fangre a bod y tu allan iddi am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(a) i deithio at ddibenion gadael Cymru yn y modd a ddisgrifir gan baragraff (3);

(b) i gael angenrheidiau sylfaenol (gan gynnwys ar gyfer personau eraill yn y fangre neu unrhyw anifeiliaid anwes yn y fangre), pan na fo'n bosibl neu'n ymarferol—

   (i) i berson arall yn y fangre eu cael ar ran P, neu

   (ii) eu cael drwy ddanfoniad i'r fangre gan drydydd parti;

(c) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(d) i gael gwasanaeth iechyd a ddarperir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, pan fo trefniadau wedi eu gwneud i ddarparu'r gwasanaeth cyn i P gyrraedd y Deyrnas Unedig;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(e) i gynorthwyo person sy'n derbyn gwasanaeth iechyd a ddisgrifir ym mharagraff (d), neu i fod gyda'r person hwnnw os yw P yn blentyn y mae gan y person hwnnw gyfrifoldeb amdano;

(f) i gael gafael ar wasanaethau milfeddygol—

(i) pan fo angen y gwasanaethau hynny ar fyrder ar gyfer anifail anwes yn y fangre, a

(ii) pan na fo'n bosibl i berson arall yn y fangre gael mynediad i'r gwasanaethau hynny;

(g) i wneud gweithgareddau penodedig mewn perthynas â garddwriaeth fwytadwy, ond dim ond os yw P yn preswylio yn y fangre mewn cysylltiad â'r gweithgareddau hynny;

(h) i osgoi salwch neu anaf neu i ddianc rhag risg o niwed;

(i) i fodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu i gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(j) i gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau i ddioddefwyr)—

(i) pan fo cael gafael ar y gwasanaeth yn hanfodol i lesiant P, a

(ii) pan na ellir darparu'r gwasanaeth os yw P yn aros yn y fangre;

(k) am resymau tosturiol, gan gynnwys i fynd i angladd—

(i) aelod o deulu P;

(ii) ffrind agos.

(5) O ran P—

(a) pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol i P newid y fangre y mae'n preswylio ynddi at ddiben gofyniad i ynysu, neu

(b) pan na fo P fel arall yn gallu aros yn y fangre y mae P yn preswylio ynddi at ddiben gofyniad i ynysu,

caiff P deithio'n uniongyrchol i fangre arall yng Nghymru sy'n addas i P breswylio ynddi tan ddiwedd diwrnod olaf ynysiad P; ac mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at fangre, mewn perthynas â gofyniad i ynysu, i'w darllen yn unol â hynny.

(6) Pan fo paragraff (5) yn gymwys, rhaid i P hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol yn electronig am gyfeiriad y fangre arall cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gan ddefnyddio cyfleuster a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(7) Nid yw gofyniad i ynysu yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fo P—

(a) wedi ei symud ymaith i le, wedi ei gyfarwyddo i fynd i le neu wedi ei gyfarwyddo i aros mewn lle gan swyddog mewnfudo, cwnstabl neu swyddog iechyd y cyhoedd o dan Atodlen 21 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**);

(b) wedi ei gadw mewn lle yn rhinwedd gofyniad a osodir o dan y Deddfau Mewnfudo.

(8) At ddibenion y rheoliad hwn—

ystyr "garddwriaeth fwytadwy" ("*edible horticulture*") yw tyfu—

(i) llysiau wedi eu diogelu a dyfir mewn systemau tai gwydr,

(ii) llysiau maes a dyfir yn yr awyr agored, gan gynnwys llysiau, perlysiau, salad deiliog a thatws,

(iii) ffrwythau meddal a dyfir yn yr awyr agored neu o dan orchudd,

(iv) coed sy'n dwyn ffrwyth,

(v) gwinwydd a choesynnau, neu

(vi) madarch;

ystyr "gwasanaeth iechyd" ("*health service*") yw gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol—

(i) atal salwch, gwneud diagnosis o salwch neu ei drin, neu

(ii) hybu neu warchod iechyd y cyhoedd;

ystyr "ymarferydd meddygol cofrestredig" ("*registered medical practitioner*") yw person sydd wedi ei gofrestri'n llawn o fewn yr ystyr a roddir i "fully registered" yn Neddf Meddygol 1983(**2**) sydd yn dal trwydded i ymarfer o dan y Ddeddf honno;

ystyr "gweithgareddau penodedig" ("*specified activities*"), mewn perthynas â garddwriaeth fwytadwy, yw—

(i) cynnal a chadw cnydau,

(ii) cynaeafu cnydau,

(iii) codi twneli a'u datgymalu,

(iv) gosod dulliau dyfrhau a'u cynnal,

(v) hwsmonaeth cnydau,

(vi) pacio a phrosesu cnydau ar fangreoedd cyflogwyr,

(**1**) 2020 p. 7.

(**2**) 1983 p.54. Gweler adran 55(1). Diwgiwyd y diffiniad o "fully registered person" gan O.S. 2006/1914, O.S. 2007/3101 a O.S. 2008/1774

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(vii) paratoi mannau a chyfryngau tyfu a'u datgymalu,

(viii) gwaith cynhyrchu sylfaenol cyffredinol mewn garddwriaeth fwytadwy,

(ix) gweithgareddau sy'n ymwneud â goruchwylio timau o weithwyr garddwriaeth.

**Gofyniad ar bersonau sydd â chyfrifoldeb am blentyn**

**11.** Pan osodir gofyniad ar blentyn o dan reoliad 7, 8 neu 10, rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb am y plentyn gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio â'r gofyniad.

**Diwrnod olaf yr ynysu**

**12.** At ddibenion rheoliadau 7, 8 a 10, diwrnod olaf ynysiad P yw diwrnod olaf y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cyrhaeddodd P yn yr ardal deithio cyffredin o fan y tu allan i'r ardal honno.

## Rhan 4

### Gorfodi a Throseddau

**Gorfodi gofyniad i ynysu**

**13.**—(1) Pan fo gan gwnstabl sail resymol dros amau bod person ("P") yn torri rheoliad 7(3) neu 8(3)(b), caiff y cwnstabl—

(a) cyfarwyddo P i ddychwelyd i'r fangre y mae P yn preswylio ynddi,

(b) symud P ymaith i'r fangre, neu

(c) pan na fo'n ymarferol neu'n briodol cymryd y cam yn is-baragraff (a) neu (b) o dan yr amgylchiadau, symud P ymaith i fangre wedi'i threfnu gan Weinidogion Cymru sy'n addas i P breswylio ynddi at ddibenion rheoliad 7(3) neu 8(3)(b).

(2) Caiff cwnstabl sy'n arfer y pŵer ym mharagraff (1)(b) neu (c) ddefnyddio grym rhesymol, os yw hynny'n angenrheidiol, wrth arfer y pŵer.

(3) Pan fo P yn blentyn yng nghwmni person sydd â chyfrifoldeb am y plentyn—

(a) caiff y cwnstabl gyfarwyddo'r person â'r cyfrifoldeb hwnnw i fynd â'r plentyn i'r fangre y mae'r plentyn yn preswylio ynddi, a

(b) rhaid i'r person, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau bod y plentyn yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gyfarwyddiad a roddir gan y cwnstabl i'r plentyn.

(4) Caiff cwnstabl gymryd unrhyw gamau eraill y mae'r cwnstabl yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur i hwyluso arfer pŵer a roddir i'r cwnstabl gan y rheoliad hwn.

(5) Ni chaiff cwnstabl arfer pŵer a roddir i'r cwnstabl gan y rheoliad hwn oni fo'r cwnstabl yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny.

**Troseddau**

**14.**—(1) Mae oedolyn sy'n torri gofyniad yn rheoliad —

(a) 4(1) neu (4),

(b) 5(2),

(c) 7(2), (3) neu (5),

(d) 8(3) neu (4),

(e) 10(6), neu

(f) 11

yn cyflawni trosedd.

(2) Mae'n drosedd i oedolyn ddarparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i'r Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion rheoliad 4, 5, 7(5), 8(4) neu 10(6)—

(a) pan fo'r person yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol, neu

(b) pan fo'r person yn ddi-hid ynghylch pa un a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.

(3) Mae oedolyn sy'n methu cydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan gwnstabl o dan reoliad 13 yn cyflawni trosedd.

(4) Mae oedolyn sy'n rhwystro yn fwriadol unrhyw berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y rrheoliadau yma yn cyflawni trosedd.

(5) Mae'n amddiffyniad i gyhuddiad o gyflawni trosedd o dan baragraff (1) neu (3) i ddangos bod gan y person esgus rhesymol dros dorri'r gofyniad neu fethu â chydymffurfio â'r gofyniad o dan sylw.

(6) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan y rheoliad hwn yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

(7) Mae adran 24 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984(**1**) yn gymwys mewn perthynas â throsedd o dan y rheoliad hwn fel pe bai'r rhesymau yn is-adran (5) o'r adran honno yn cynnwys—

(a) cynnal iechyd y cyhoedd;

(b) cynnal trefn gyhoeddus.

---

(**1**) 1984 p. 60. Amnewidiwyd adran 24 gan adran 110(1) o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Erlyn**

**15.** Ni chaniateir dwyn achos am drosedd o dan y Rheoliadau hyn ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus neu unrhyw berson sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

**Hysbysiadau cosb benodedig**

**16.**—(1) Caiff swyddog mewnfudo ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw oedolyn y mae'r swyddog yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd—

(a) o dan reoliad 14(1) neu (2)—

(i) mewn perthynas â gofyniad yn rheoliad 4(1) neu (4), 5(2), neu 7(5), neu

(ii) mewn perthynas â thorri gofyniad yn rheoliad 11 sy'n ymwneud â'r gofyniad yn rheoliad 7(5), neu

(b) o dan reoliad 14(4) lle credir bod y person yn fwriadol wedi rhwystro person oedd yn arfer swyddogaeth mewn perthynas ag un o'r gofynion hynny.

(2) Caiff cwnstabl ddyroddi hysbysiad cosb benodedig i unrhyw oedolyn y mae'r cwnstabl yn credu'n rhesymol ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Reoliadau hyn.

(3) Hysbysiad yw hysbysiad cosb benodedig sy'n cynnig i'r person y'i dyroddir iddo y cyfle i gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd am euogfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig i—

(a) Gweinidogion Cymru, neu

(b) person a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion cael taliad o dan y rheoliad hwn.

(4) Pan ddyroddir hysbysiad i berson o dan y rheoliad hwn mewn cysylltiad â throsedd—

(a) ni chaniateir dwyn unrhyw achos am y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y dyddiad y dyroddir yr hysbysiad;

(b) ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(5) Rhaid i hysbysiad cosb benodedig—

(a) disgrifio'r amgylchiadau yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd,

(b) datgan y cyfnod pan (oherwydd paragraff (4)(a)) na ddygir achos am y drosedd,

(c) pennu swm y gosb benodedig,

(d) datgan enw a chyfeiriad y person y caniateir talu'r gosb benodedig iddo, ac

(e) pennu dulliau o dalu a ganiateir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(6) Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd—

(a) o dorri gofyniad a osodir gan reoliad 7(2), neu (3), 8(3) neu 11,

(b) o dan reoliad 14(3), neu

(c) o dan reoliad 14(4) lle credir bod y person yn fwriadol wedi rhwystro person oedd yn arfer swyddogaeth mewn perthynas â rheoliad 7(2) neu (3), 8(3) neu 11,

rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £1000.

(7) Pan ddyroddir yr hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd ("trosedd gwybodaeth neu hysbysu") —

(a) o dorri gofyniad a osodir gan reoliad 4(1) neu (4), 5(2), 7(5), 8(4) neu 10(6), neu

(b) o dan reoliad 14(4) lle credir bod y person yn fwriadol wedi rhwystro person oedd yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag un o'r gofynion hynny,

rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £60 (yn ddarostyngedig i baragraffau (8) a (9)).

(8) Caiff hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir mewn cysylltiad â throsedd gwybodaeth neu hysbysu bennu, os telir £30 cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl dyddiad y dyroddir yr hysbysiad, mai dyna yw swm y gosb benodedig.

(9) Ond os yw'r person y dyroddir iddo hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â throsedd gwybodaeth neu hysbysu eisoes wedi cael hysbysiad cosb benodedig mewn cysylltiad â'r drosedd honno—

(a) nid yw paragraff (8) yn gymwys, a

(b) y swm a bennir fel y gosb benodedig fydd—

(i) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, £120;

(ii) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, £240;

(iii) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, £480;

(iv) yn achos y pumed hysbysiad cosb benodedig a geir, £960;

(v) yn achos y chweched hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, £1920.

(10) Pa bynnag ddull arall a bennir o dan baragraff (5)(e), caniateir talu cosb benodedig drwy ragdalu a phostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb (mewn arian parod neu fel arall) i'r person y nodir ei enw o dan baragraff (5)(d) i'r cyfeiriad a nodir.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(11) Pan fo llythyr yn cael ei anfon fel a grybwyllir ym mharagraff (10), ystyrir bod taliad wedi ei wneud ar yr adeg y byddai'r llythyr hwnnw wedi cael ei ddanfon yn nhrefn arferol y post.

(12) Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n honni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran—

(i) Gweinidogion Cymru, neu

(ii) person sydd wedi ei ddynodi gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (3)(b), a

(b) sy'n datgan bod y taliad am y gosb benodedig wedi dod i law, neu heb ddod i law, erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

# RHAN 5

## Rhannu gwybodaeth

**Defnyddio a datgelu gwybodaeth**

**17.**—(1) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 18, ystyr "gwybodaeth berthnasol" yw—

(a) gwybodaeth am deithiwr o Gymru;

(b) gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) ystyr "gwybodaeth am deithiwr o Gymru" yw—

(i) gwybodaeth am deithiwr a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol at ddiben rheoliad 4 neu 5;

(ii) gwybodaeth a ddarparwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn hysbysiad a wnaed o dan reoliad 7(5)(b), 8(4) neu 10(6);

(b) ystyr "gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig" yw gwybodaeth a roddir i berson o dan ddarpariaeth mewn Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (yn ôl y digwydd) sy'n cyfateb i ddarpariaeth a grybwyllir yn is-baragraff (a).

(3) Yn y rheoliad hwn, mae unrhyw gyfeiriad at ddeiliad gwybodaeth yn gyfeiriad at—

(a) yr Ysgrifennydd Gwladol;

(b) person y datgelwyd yr wybodaeth iddo o dan baragraff (4) neu (5).

(4) Caiff deiliad gwybodaeth am deithiwr o Gymru ddatgelu'r wybodaeth i berson arall (y "derbynnydd")

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

o dan amgylchiadau pan fo'n angenrheidiol i'r derbynnydd gael yr wybodaeth—

(a) at ddiben arfer swyddogaeth y derbynnydd o dan —

(i) y Rheoliadau hyn, neu

(ii) Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon (yn ôl y digwydd) sy'n cyfateb â'r Rheoliadau yma;

(b) at ddiben—

(i) atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws,

(ii) monitro lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws, neu

(iii) rhoi effaith i unrhyw drefniant neu gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws;

(c) at ddiben sy'n gysylltiedig â'r diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu (b), neu sydd fel arall yn gysylltiedig â'r diben hwnnw

(5) Caiff deiliad gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig ei ddatgelu i berson arall ("y derbynnydd") mewn amgylchiadau lle ei bod hi'n angenrheidiol i'r derbynnydd gael y wybodaeth—

(a) at ddiben arfer swyddogaeth y derbynnydd o dan y Rheoliadau yma;

(b) at ddiben—

(i) atal perygl i iechyd y cyhoedd yng Nghymru o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws,

(ii) monitro lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws yng Nghymru, neu

(iii) rhoi effaith yng Nghymru i unrhyw drefniant neu gytundeb rhyngwladol sy'n ymwneud â lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws;

(c) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a) neu (b) neu ddiben sydd fel arall yn gysylltiedig â'r diben hwnnw.

(6) Ni all deiliad gwybodaeth berthnasol ddefnyddio'r wybodaeth ac eithrio—

(a) at ddiben arfer swyddogaeth y deiliad o dan y Rheoliadau hyn;

(b) yn achos gwybodaeth am deithiwr o Gymru, at ddiben a ddisgrifir ym mharagraff (4)(b);

(c) yn achos gwybodaeth am deithiwr o weddill y Deyrnas Unedig, at ddiben a ddisgrifir ym mharagraff (5)(b);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) at ddiben sy'n gysylltiedig â diben a ddisgrifir yn is-baragraff (a), (b) neu (c), neu ddiben sydd fel arall yn gysylltiedig â'r diben hwnnw.

(7) Er gwaethaf paragraffau (4), (5) a (6), nid yw'r rheoliad hwn yn cyfyngu'r amgylchiadau lle y gellir fel arall ddatgelu'r wybodaeth yn gyfreithiol, neu lle y gellir defnyddio'r wybodaeth o dan unrhyw ddeddfiad arall neu reol gyfreithiol arall.

(8) Nid yw datgeliad a awdurdodir gan y rheoliad hwn yn torri—

(a) rhwymedigaeth o safbwynt cyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n gwneud y datgeliad, neu

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (ym mha fodd bynnag y'i gorfodir).

(9) Nid oes unrhyw beth yn y rheoliad hwn yn awdurdodi datgelu data personol pan fo gwneud hynny yn torri'r ddeddfwriaeth diogelu data.

(10) Ym mharagraff (8), mae i "ddeddfwriaeth diogelu data" yr ystyr a roddir i "data protection legislation" ac mae i "data personol" yr ystyr a roddir i "personal data" yn adran 3 o Ddeddf Diogelu Data 2018(**1**).

**Hunanargyhuddo**

**18.**—(1) Caniateir i wybodaeth berthnasol gael ei defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef mewn achos troseddol.

(2) Pan ddefnyddir yr wybodaeth mewn achos ac eithrio ar gyfer trosedd o dan y Rheoliadau hyn neu adran 5 o Ddeddf Anudon 1911(**2**) (datganiadau anwir a wneir ac eithrio ar lw)—

(a) ni chaniateir i unrhyw dystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei rhoi gan yr erlyniad nac ar ei ran, a

(b) ni chaniateir i unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gael ei ofyn gan yr erlyniad nac ar ei ran.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

(a) os rhoddir tystiolaeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person a'i darparodd, neu ar ei ran, yn ystod yr achos, neu

(b) os gofynnir cwestiwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth gan y person hwnnw, neu ar ei ran, yn ystod yr achos.

(**1**) 2018 p. 12.
(**2**) 1911 p. 6. Diwygiwyd adran 5 gan adran 1(2) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1948 (p. 58).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 6

## Adolygu a dod i ben

**Adolygu'r gofynion**

**19.** Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r angen am y gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn, ac a yw'r gofynion hynny'n gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt—

(a) erbyn 29 Mehefin 2020,

(b) o leiaf unwaith yn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw, ac

(c) o leiaf unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 21 o ddiwrnodau.

**Y Rheoliadau'n dod i ben**

**20.**—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y deuant i rym.

(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
5 Mehefin 2020

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 1 Rheoliad 2(1)

## Gwybodaeth am Deithiwr

**1.** Manylion personol—

(a) enw llawn,

(b) rhyw,

(c) dyddiad geni,

(d) rhif pasport, neu gyfeirnod ei ddogfen deithio (fel y bo'n briodol), y dyddiad dyroddi a'r dyddiad y daw'r pasport neu'r ddogfen i ben a'r awdurdod dyroddi,

(e) rhif ffôn,

(f) cyfeiriad cartref,

(g) cyfeiriad e-bost.

**2.** Manylion y daith—

(a) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yng Nghymru y mae'r person yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan reoliad 7(3),

(b) os yn gymwys, cyfeiriad mangre addas yn y Deyrnas Unedig y mae P yn bwriadu preswylio ynddi fel sy'n ofynnol gan ddarpariaeth gyfatebol mewn Rheoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon,

(c) dyddiad y bydd y person yn cyrraedd y cyfeiriad a bennir yn is-baragraff (a) neu (b), neu'r dyddiad y mae'n bwriadu cyrraedd, fel y bo'n briodol,

(d) y gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef, neu wedi teithio gydag ef, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith,

(e) cyfeirnod yr archeb deithio,

(f) rhif yr hediad, rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol),,

(g) enw unrhyw grŵp teithio trefnedig y mae'r person yn teithio neu wedi teithio gydag ef,

(h) y lleoliad yn y Deyrnas Unedig y bydd y person yn ei gyrraedd, neu'r lleoliad yn y Deyrnas Unedig y mae wedi ei gyrraedd,

(i) y wlad y mae'r person yn teithio drwyddi, neu wedi ymadael ohoni,

(j) y dyddiad a'r amser y bydd y person yn cyrraedd y Deyrnas Unedig neu y mae'n bwriadu ei chyrraedd, fel y bo'n briodol,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(k) a yw'r person yn teithio drwy'r Deyrnas Unedig fel rhan o siwrnai gysylltu i gyrchfan y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac, os felly—

(i) lleoliad y man y bydd y person yn ymadael â'r Deyrnas Unedig,

(ii) y wlad sy'n gyrchfan terfynol y person,

(iii) enw'r gweithredwr y mae'r person yn teithio gydag ef ar y daith sy'n dilyn, neu'r gweithredwr a ddefnyddiodd y person i archebu'r daith sy'n dilyn,

(iv) cyfeirnod archeb deithio'r daith sy'n dilyn,

(v) rhif yr hediad, rhif y trên, neu rif y tocyn (fel y bo'n briodol) ar gyfer y daith sy'n dilyn.

**3.** A yw'r person sy'n darparu gwybodaeth am deithiwr yn gwneud hynny ar ran person arall.

**4.** Pan fo'r person yn teithio gyda phlentyn y mae ganddo gyfrifoldeb amdano—

(a) enw llawn a dyddiad geni'r plentyn hwnnw,

(b) perthynas y teithiwr â'r plentyn hwnnw.

**5.** Enw llawn a rhif ffôn cyswllt brys.

## ATODLEN 2 Rheoliadau 3(2), 7(4)(b) a 9

## Personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliadau 3 neu 4

### RHAN 1

### Personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 3 a rheoliad 4

**1.**—(1) Person—

(a) sy'n aelod o genhadaeth ddiplomyddol yn y Deyrnas Unedig;

(b) sy'n aelod o swyddfa gonsylaidd yn y Deyrnas Unedig;

(c) sy'n swyddog neu'n was i sefydliad rhyngwladol;

(d) a gyflogir gan sefydliad rhyngwladol fel arbenigydd neu ar genhadaeth;

(e) sy'n gynrychiolydd i sefydliad rhyngwladol;

(f) sy'n gynrychiolydd mewn cynhadledd ryngwladol neu gynhadledd y Deyrnas Unedig y rhoddir breintiau a breinryddidau iddo yn y Deyrnas Unedig;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(g) sy'n aelod o staff swyddogol cynrychiolydd i sefydliad rhyngwladol, neu berson sy'n dod o fewn paragraff (f);

(h) a ddisgrifir ym mharagraff (a) neu (b) sy'n pasio drwy'r Deyrnas Unedig i gychwyn neu barhau â'i swyddogaethau ar genhadaeth ddiplomyddol neu mewn swydd gonsylaidd mewn gwlad neu diriogaeth arall, neu i ddychwelyd i wlad ei genedligrwydd;

(i) sy'n gynrychiolydd i wlad dramor neu diriogaeth dramor sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig;

(j) sy'n gynrychiolydd llywodraeth i diriogaeth dramor Brydeinig;

(k) sy'n gludwr diplomyddol neu'n gludwr consylaidd;

(l) sy'n aelod o'r teulu sy'n ffurfio rhan o aelwyd person sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (k).

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt yn rheoliad 9(a) (personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 7 a 8) yw —

(a) bod pennaeth perthnasol y genhadaeth, y swyddfa gonsylaidd, y sefydliad rhyngwladol, neu'r gynhadledd, y swyddfa sy'n cynrychioli tiriogaeth dramor yn y Deyrnas Unedig neu Lywodraethwr tiriogaeth dramor Brydeinig (yn ôl y digwydd), neu berson sy'n gweithredu ar eu awdurdod, yn cadarnhau mewn ysgrifen'i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad—

(i) ei bod yn ofynnol i'r person ymgymryd â gwaith sy'n hanfodol i weithrediad y genhadaeth, y swydd gonsylaidd, y sefydliad rhyngwladol neu'r gynhadledd, neu'r swyddfa, neu i ymgymryd â gwaith sy'n hanfodol i'r wlad dramor a gynrychiolir gan y genhadaeth neu'r swyddfa gonsylaidd, y diriogaeth dramor a gynrychiolir gan y swyddfa neu'r diriogaeth dramor Brydeinig a

(ii) na ellir ymgymryd â'r gwaith hwnnw tra bo'r person yn cydymffurfio â rheoliad 7 neu 8, a

(b) cyn i'r person gyrraedd y Deyrnas Unedig, bod y Swyddfa Dramor a Chymanwlad—

(i) wedi rhoi cadarnhad mewn ysgrifen i'r person sy'n rhoi'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (a) ei fod wedi cael y cadarnhad hwnnw, a

(ii) os yw'r person yn gynrychiolydd i wlad neu diriogaeth dramor, bod y Swyddfa

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

wedi rhoi cadarnhad wedyn mewn ysgrifen i'r person sy'n rhoi'r cadarnhad y cyfeirir ato ym mharagraff (a) bod y person yn teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal busnes swyddogol gyda'r Deyrnas Unedig ac nad yw'n ofynnol iddo gydymffurfio â rheoliad 7 neu 8.

(3) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) ystyr "cludydd consylaidd" yw person sydd wedi cael dogfen swyddogol gan y Wladwriaeth y mae'n gweithredu ar ei rhan sy'n cadarnhau ei statws fel cludydd consylaidd yn unol ag Erthygl 35(5) o Gonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Consylaidd 1963,

(b) ystyr "swyddfa gonsylaidd" yw unrhyw gonsyliaeth gyffredinol, consyliaeth, is-gonsyliaeth neu asiantaeth gonsylaidd,

(c) ystyr "cludydd diplomyddol" yw person sydd wedi cael dogfen swyddogol gan y Wladwriaeth y mae'n gweithio ar ei rhan sy'n cadarnhau ei statws fel cludydd diplomyddol yn unol ag Erthygl 27(5) o Gonfensiwn Fienna ar Gysylltiadau Consylaidd 1961,

(d) ystyr "sefydliad rhyngwladol" yw sefydliad rhyngwladol y rhoddwyd breintiau a breinryddidau iddo yn y Deyrnas Unedig,

(e) ystyr "aelod o swyddfa gonsylaidd" yw swyddog consylaidd, gweithiwr consylaidd ac aelod o staff y gwasanaeth yn unol â'r diffiniadau o "consular officer", "consular employee" a "member of the service staff" yn Atodlen 1 i Ddeddf Cysylltiadau Consylaidd 1968(**1**), ac mae i "pennaeth swyddfa gonsylaidd" yr ystyr a roddir i "head of consular post" yn yr Atodlen honno,

(f) ystyr "aelod o genhadaeth ddiplomyddol" yw pennaeth y genhadaeth, aelodau o'r staff diplomyddol, aelodau o'r staff gweinyddol a thechnegol ac aelodau o staff y gwasanaeth yn unol â'r diffiniadau o "head of the mission", "members of the diplomatic staff", "members of the administrative and technical staff" a "members of the service staff" yn Atodlen 1 i Ddeddf Breintiau Diplomyddol 1964(**2**).

(4) Nid yw'r paragraff hwn yn rhagfarnu unrhyw freinryddid rhag awdurdodaeth neu anhydoredd a roddir i unrhyw berson a ddisgrifir yn is-baragraff (1) o dan gyfraith Cymru a Lloegr ar wahân i'r Rheoliadau hyn.

---

(**1**) 1968 p.18. Ceir diwygiadau ond nid yw'r un yn berthnasol.
(**2**) 1964 p. 81. Ceir diwygiadau ond nid yw'r un yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**2.**—(1) Gwas i'r Goron neu gontractwr llywodraeth—

(a) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig o fewn 14 diwrnod o gyrraedd y Deyrnas Unedig, neu ,

(b) sy'n ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig ond—

(i) ei bod yn ofynnol iddo ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig dros dro, a

(ii) y bydd wedyn yn ymadael er mwyn ymgymryd â gwaith llywodraeth hanfodol sy'n gysylltiedig â ffin y Deyrnas Unedig y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) a pharagraff 3—

(a) mae i "gwas i'r Goron" yr ystyr a roddir i "Crown servant" yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989(**1**),

(b) ystyr "gwaith llywodraeth hanfodol" yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan yr Adran berthnasol neu'r cyflogwr perthnasol,

(c) mae i "contractwr llywodraeth" yr ystyr a roddir i "government contractor" yn adran 12(2) o'r Ddeddf honno.

**3.**—(1) Person sy'n was i'r Goron, yn gontractwr llywodraeth neu'n aelod o lu ar ymweliad—

(a) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn i weithgareddau amddiffyn hanfodol gael eu cyflawni, neu

(b) sydd wedi ymgymryd â chyfnod di-dor o 14 o ddiwrnodau o leiaf yn union cyn iddo gyrraedd ar lestr a weithredir gan Wasanaeth Llyngesol ei Mawrhydi ac nad yw'r llestr hwnnw wedi codi unrhyw bersonau nac wedi glanio mewn unrhyw borthladd y tu allan i'r ardal deithio gyffredin am gyfnod o 14 o ddiwrnodau o leiaf cyn iddo gyrraedd y Deyrnas Unedig.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(**1**) 1989 p. 6. Diwygiwyd adran 12 gan baragraff 22 o Atodlen 10 i Ddeddf Lluoedd wrth Gefn 1996 (p. 14), gan baragraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38), gan baragraff 26 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Alban 1998 (p. 46), gan baragraff 9(3) o Atodlen 13 i Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (p. 47), gan baragraff 9 o Atodlen 6 i Ddeddf yr Heddlu (Gogledd Iwerddon) 2000 (p. 32), gan baragraff 6 o Atodlen 14 i Ddeddf Ynni 2004 (p. 20), gan baragraff 58 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005, gan baragraff 34 o Atodlen 10, i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 1 o Atodlen 12 iddi, a chan baragraff 36 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) mae i "amddiffyn" yr ystyr a roddir i "defence" yn adran 2(4) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989(**1**),

(b) ystyr "llu ar ymweliad" yw llu ar ymweliad o fewn yr ystyr a roddir i "visiting force" yn adran 12(1) o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952(**2**), pan fo'r llu hwnnw'n dod o wlad a restrir o dan adran 1(1)(a) neu a ddynodir o dan adran 1(1)(b) neu 1(2) o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952(**3**), neu sy'n aelod-wlad o Sefydliad Cytuniad Gogledd Iwerydd.

**4.** Swyddog i Lywodraeth dramor y mae'n ofynnol iddo deithio i'r Deyrnas Unedig i ymgymryd â dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol, neu gontractwr sy'n cefnogi'r dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol hyn yn uniongyrchol—

(a) pan fo'r swyddog neu'r contractwr yn meddu ar hysbysiad ysgrifenedig a lofnodwyd gan aelod uwch o'r Llywodraeth dramor sy'n cadarnhau ei bod yn ofynnol iddo ymgymryd â dyletswyddau diogelwch ffin hanfodol yn y Deyrnas Unedig o fewn 14 diwrnod ar ôl iddynt gyrraedd ac na ellir ymgymryd â'r gwaith hwnnw tra bo'r person yn cydymffurfio â rheoliad 7 neu 8, neu

(b) pan fo lleoliad y swyddog neu'r contractwr yn unol â chytundeb dwyochrog neu amlochrog sefydlog gyda Llywodraeth Ei Mawrhydi ar weithredu rheolaethau ffin yn y Deyrnas Unedig.

## RHAN 2

### Personau nad yw'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheoliad 4

**5.** Person sydd, ar ôl cyrraedd y Deyrnas Unedig, yn pasio trwodd i wlad neu diriogaeth arall heb ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig.

(**1**) 1989 p. 6.

(**2**) 1952 p. 67. Diwygiwyd y diffiniad o "visiting force" yn adran 12(1) gan baragraff 14(1) o Atodlen 15 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (c. 33).

(**3**) Mae adran 1(a) wedi ei diwygio nifer o weithiau. Dyma'r gwledydd a restrir: Canada, Awstralia, Seland Newydd, De Affrica, India, Pakistan, Ceylon, Ghana, Malaysia, Gweriniaeth Cyprus, Nigeria, Sierra Leone, Tanganyika, Jamaica, Trinidad a Tobago, Uganda, Kenya, Zanzibar, Malawi, Zambia, Malta, Y Gambia, Guyana, Botswana, Lesotho, Singapore, Barbados, Mauritius, Swaziland, Tonga, Fiji, y Bahamas, Bangladesh, Ynysoedd Solomon, Tuvalu, Dominica, St. Lucia, Kiribati, St. Vincent a'r Grenadines, Papua Guinea Newydd, Gorllewin Samoa a Nauru, Zimbabwe, yr Hebrides Newydd, Belize, Antigua a Barbuda, Saint Christopher a Nevis, Brunei, Maldives, Namibia, Cameroon a Mozambique.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**6.**—(1) Gweithiwr cludiant ffyrdd neu weithiwr cludiant teithwyr ffyrdd.

(2) At ddibenion y paragraff hwn—

(a) mae “gyrrwr” yn cynnwys person sy’n teithio mewn cerbyd fel gyrrwr wrth gefn,

(b) mae i “cerbyd nwyddau” yr ystyr a roddir i “goods vehicle” yn adran 192 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988(**1**),

(c) mae i “cerbyd gwasanaeth cyhoeddus” yr ystyr a roddir i “public service vehicle” yn adran 1 o Ddeddf Cerbydau Cyhoeddus i Deithwyr 1981(**2**),ystyr “gweithiwr cludiant ffyrdd” yw—

(i) gyrrwr cerbyd nwyddau sy’n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â chludo nwyddau, ac eithrio nwyddau at ddiben personol anfasnachol y gyrrwr, neu

(ii) person a gyflogir gan ddeiliad trwydded Gymunedol a ddyroddwyd o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1072/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor (**3**), ac sy’n gweithredu yng nghwrs ei gyflogaeth,

(d) ystyr “gweithiwr cludiant teithwyr ffyrdd” yw—

(i) gyrrwr cerbyd gwasanaeth cyhoeddus, neu

(ii) person a gyflogir gan ddeiliad trwydded Gymunedol a ddyroddwyd o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 1073/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor(**4**), ac sy’n gweithredu yng nghwrs ei gyflogaeth.

**7.**—(1) Meistri a morwyr, fel y’u diffinnir yn adran 313(1) o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**5**), pan fônt wedi teithio i’r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith neu wedi eu dychwelyd i’r Deyrnas Unedig yn unol â Chonfensiwn Llafur Morwrol 2006 neu Gonfensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007.

(2) At ddibenion y paragraff hwn a pharagraff 8—

(a) ystyr “Confensiwn Llafur Morol 2006” yw’r Confensiwn a fabwysiadwyd ar 23 Chwefror 2006 gan Gynhadledd Gyffredinol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol(**6**),

(b) ystyr “Confensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007” yw’r Confensiwn a fabwysiadwyd yng

(**1**) 1988 p. 52. Ceir diwygiadau i adran 192 ond nid yw’r un yn berthnasol.
(**2**) 1981 p. 14. Diwygiwyd adran 1 gan adran 139(3) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67).
(**3**) OJ Rhif L300, 14.11.2009, t. 72.
(**4**) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t. 88-105
(**5**) 1995 p. 21. Ceir diwygiadau i adran 313(1) ond nid yw’r un yn berthnasol.
(**6**) Gorch. 7049. ISBN 978 010 1889 766.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ngenefa ar 14 Mehefin 2007 gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol(**1**).

**8.** Peilot, fel y'i diffinnir ym mharagraff 22(1) o Atodlen 3A i Ddeddf Llongau Masnach 1995(**2**), pan fo'r peilot wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu wedi ei ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig yn unol â Chonfensiwn Llafur Morwrol 2006 neu Gonfensiwn Gwaith mewn Pysgota 2007.

**9.** Arolygydd neu syrfëwr llongau a benodwyd o dan adran 256 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**3**), pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

**10.** Person o fewn y diffinad o "crew" ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Orchymyn Llywio Awyr 2016(**4**), pan fo'r person wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

**11.** Arolygwr hedfan sifil, fel y'u diffinnir yn Atodlen 9 i'r Confensiwn ar Hedfan Sifil Rhyngwladol a lofnodwyd yn Chicago ar 7 Rhagfyr 1944(**5**), pan fo'r arolygwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig wrth ymgymryd â dyletswyddau arolygu.

**12.**—(1) Unrhyw un o'r personau a ganlyn sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs eu gwaith—

(a) gyrwyr a chriwiau ar wasanaethau gwennol ac ar wasanaethau ar gyfer cludo teithwyr neu nwyddau drwy gyfrwng system y twnnel,

(b) gweithwyr gweithredol, gweithwyr cynnal a chadw rheilffyrdd, a gweithwyr diogelwch a diogeledd sy'n gweithio ar system y twnnel,

(c) gweithwyr eraill sy'n cyflawni rolau hanfodol ar gyfer rhedeg, mewn modd diogel neu effeithlon, system y twnnel, gwasanaethau gwennol neu wasanaethau ar gyfer cludo teithwyr neu nwyddau drwy gyfrwng system y twnnel, neu sy'n ymwneud â diogelwch system y twnnel neu unrhyw wasanaethau o'r fath.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae i "gwasanaeth gwennol" yr ystyr a roddir i "shuttle service" yn adran 1(9) o Ddeddf Twnnel y Sianel 1987(**6**),

---

(**1**) Gorch. 7375.
(**2**) Mewnosodwyd Atodlen 3A gan Atodlen 1 i Ddeddf Diogelwch Morol 2003 (p. 16).
(**3**) Ceir diwygiadau i adran 256 ond nid yw'r un yn berthnasol.
(**4**) O.S. 2016/765. Ceir diwygiadau i Atodlen 1 ond nid yw'r un yn berthnasol.
(**5**) Argraffiad diweddaraf Atodlen 9, a gyhoeddir gan y Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol, yw'r 15ed argraffiad, sy'n gymwys ers 23 Chwefror 2018 (ISBN 978-92-9258-301-9).
(**6**) 1987 p. 53.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) mae i "system y twnnel" yr ystyr a roddir i "tunnel system" yn adran 1(7) o'r Ddeddf honno.

**13.**—(1) Gwas i'r goron neu gontractwr llywodraeth—

(a) y mae yn ofynnol iddo ymgymryd â gwaith plismona hanfodol neu waith llywodraeth hanfodol yn y Deyrnas Unedig o fewn 14 diwrnod o gyrraedd y Deyrnas Unedig, neu

(b) sy'n ymgymryd â gwaith plismona neu waith llywodraeth hanfodol y tu allan i'r Deyrnas Unedig ond—

(i) y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig dros dro,

(ii) a fydd wedyn yn ymadael i ymgymryd â gwaith plismona neu waith llywodraeth hanfodol y tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu

(c) sy'n cynnal trafodaethau dwyochrog ac amlochrog gyda gwladwriaeth arall neu sefydliad rhyngwladol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae i "gwas i'r Goron" yr ystyr a roddir i "Crown servant" yn adran 12(1)(a) i (e) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989,

(b) ystyr "gwaith llywodraeth hanfodol" yw gwaith sydd wedi ei ddynodi felly gan Weinidogion Cymru neu'r Adran berthnasol, neu'r cyflogwr, ac mae'n cynnwys, yn benodol, gwaith sy'n gysylltiedig â diogelwch gwladol, gwaith yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn unol â'i swyddogaethau statudol, mewnfudo, y coronafeirws ac unrhyw ymateb argyfwng arall, ond nid yw'n cynnwys gwaith o'r math a bennir ym mharagraff 2(1) o Ran 1 o'r Atodlen hon,

(c) ystyr "plismona hanfodol" yw plismona sydd wedi ei ddynodi felly gan y prif swyddog neu'r prif gwnstabl perthnasol,

(d) mae i "contractwr llywodraeth" yr ystyr a roddir i "government contractor" yn adran 12(2) o Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

**14.** Person a ddynodir gan y Gweinidog perthnasol o dan adran 5(3) o Ddeddf Dychwelyd Carcharorion i'w Gwlad eu Hunain 1984(**1**).

**15.** Person sy'n gyfrifol am hebrwng

person a geisir i'w estraddodi yn unol â gwarant a ddyroddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf

(**1**) 1984 p. 47.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Estraddodi 2003(1), neu berson a geisir i'w estraddodi yn unol ag unrhyw drefniadau estraddodi eraill.

**16.** Cynrychiolydd i unrhyw diriogaeth sy'n teithio i'r Deyrnas Unedig er mwyn cymryd i'r ddalfa berson y gorchmynnwyd ei ildio yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Estraddodi 2003.

**17.**—(1) Gweithiwr sy'n ymwneud â gwaith hanfodol neu waith brys—

(a) sy'n gysylltiedig â chyflenwadau dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth, a

(b) a gyflawnir gan ymgymerwr dŵr, ymgymerwr carthffosiaeth, trwyddedai cyflenwi dŵr, trwyddedai carthffosiaeth neu awdurdod lleol, i'r rhain neu ar ran y rhain,

pan fo'r gweithiwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae "gwaith hanfodol neu waith brys" yn cynnwys—

(i) archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio, a gweithgareddau amnewid asedau,

(ii) monitro, samplu a dadansoddi cyflenwadau dŵr o dan Reoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017(2), Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018(3), Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Lloegr) 2016(4) neu Reoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016(5),

(b) mae i "trwyddedai carthffosiaeth" yr ystyr a roddir i "sewerage licensee" yn adran 17BA(6) a 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(6),

(c) mae i "gwasanaethau carthffosiaeth" yr ystyr a roddir i "sewerage services" yn adran 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(7),

---

(1) 2003 p. 41.

(2) O.S. 2017/1041 (Cy. 270); a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/647 (Cy. 121), O.S. 2019/460 (Cy. 110) ac O.S. 2019/463 (Cy. 111).

(3) O.S. 2018/647 (Cy. 121); a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/463 (Cy. 111).

(4) O.S. 2016/618; offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2017/506, O.S. 2018/707 ac O.S. 2019/558.

(5) O.S. 2016/614; offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2017/506, O.S. 2018/706, O.S. 2018/378, O.S. 2019/526 ac O.S. 2019/558.

(6) 1991 p. 56. Mewnosodwyd adran 17BA(6) gan adran 4(1) o Ddeddf Dŵr 2014 (p. 21). Mewnosodwyd y cyfeiriad at "sewerage licensee" yn adran 219(1) gan baragraff 120(2)(f) o Atodlen 7 i Ddeddf Dŵr 2014.

(7) Diwygiwyd y diffiniad o "sewerage services" gan baragraff 120 o Atodlen 7 i Ddeddf Dŵr 2014.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) ystyr "ymgymerwr carffosiaeth" yw cwmni a benodwyd yn ymgymerwr carffosiaeth o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**),

(e) mae i "trwyddedai cyflenwi dŵr" yr ystyr a roddir i "water supply licensee" yn adrannau 17A(7) a 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**2**),

(f) ystyr "ymgymerwr dŵr" yw cwmni a benodwyd yn ymgymerwr dŵr o dan adran 6 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991..

**18.**—(1) Gweithiwr sy'n ymwneud â gwaith hanfodol neu waith brys—

(a) sy'n gysylltiedig—

(i) â gorsaf gynhyrchu,

(ii) â chydgysylltydd trydan,

(iii) â rhwydwaith gwres ardal fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 o Reoliadau Rhwydweithiau Gwres (Mesuryddion a Bilio) 2014(**3**),

(iv) â gwresogi cymunedol fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 o Reoliadau Rhwydweithiau Gwres (Mesuryddion a Bilio) 2014,

(v) â systemau glanhau awtomataidd ar falast a systemau ailosod traciau ar rwydwaith, neu

(vi) â chomisiynu, cynnal a chadw a thrwsio peiriannau diwydiannol i'w defnyddio ar rwydwaith, neu

(b) a gyflawnir gan, ar gyfer, neu ar ran—

(i) gweithredwr y system genedlaethol,

(ii) person sydd â thrwydded drawsyrru,

(iii) person sydd â thrwydded ddosbarthu,

(iv) person sydd â thrwydded o dan adran 7 a 7ZA o Ddeddf Nwy 1986(**4**),

(v) cyfleuster mewnforio neu allforio LNG fel y'i diffinnir yn adran 48 o Ddeddf Nwy 1986(**5**), neu

(vi) person sydd â thrwydded rwydwaith o dan adran 8 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993,

pan fo'r gweithiwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddibenion ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

---

(**1**) Diwygiwyd adran 6 gan adran 36(2) o Ddeddf Dŵr 2003 (p.37) ac Atodlen 8 i'r Ddeddf honno, Atodlen 23 i Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20), ac Atodlen 7 i Deddf Dŵr 2014.

(**2**) Mewnosodwyd adran 17A gan adran 1 o Ddeddf Dŵr 2014.

(**3**) O.S. 2014/3120. Nid oes offerynnau diwygio perthnasol.

(**4**) 1986 p. 44. Mewnosodwyd adran 7ZA gan adran 149(6) o Ddeddf Ynni 2004.

(**5**) Mewnosodwyd y diffiniad gan O.S. 2011/2704.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ystyr “trwydded ddosbarthu” yw trwydded a roddwyd o dan adran 6(1)(c) o Ddeddf Trydan 1989(**1**),

(b) mae “gwaith hanfodol neu waith brys” yn cynnwys comisiynu, archwilio, cynnal a chadw, atgyweirio, a gweithgareddau amnewid asedau,

(c) ystyr “gweithredwr y system genedlaethol” yw’r person sy’n gweithredu system drawsyrru genedlaethol Prydain Fawr,

(d) mae i “rhwydwaith”, , yr ystyr a roddir i “network” yn adran 83(1) o Ddeddf Rheilffyrdd 1993(**2**),

(e) ystyr “trwydded drawsyrru” yw trwydded a roddwyd o dan adran 6(1)(b) o Ddeddf Trydan 1989,

(f) mae i “cydgysylltydd trydan”, “gorsaf gynhyrchu” a “system drawsyrru” yr ystyron a roddir i “electricity interconnector”, “generating station” a “transmission system” yn adran 64(1) o Ddeddf Trydan 1989(**3**).

**19.**—(1) Person sydd—

(a) yn bersonél niwclear, ac sy’n hanfodol i weithrediad saff a diogel safle y rhoddwyd trwydded safle niwclear mewn perthynas ag ef,

(b) yn ymatebydd argyfwng niwclear,

(c) yn arolygydd asiantaeth, neu

(d) yn arolygydd Euratom, ar yr amod ei fod yn cyrraedd y Deyrnas Unedig cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu,

pan fo’r person wedi teithio i’r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae i “arolygydd asiantaeth” yr ystyr a roddir i “agency inspector” yn adran 1(1) o Ddeddf Diogelwch Niwclear 2000(**4**),

(b) ystyr “ymatebydd argyfwng niwclear” yw person sy’n rhoi cymorth i’r Deyrnas Unedig yn unol â’r Confensiwn ar Gymorth yn Achos Damwain Niwclear neu Argyfwng Radiolegol a wnaed yn Fienna ar 26 Medi 1986, sydd wedi ei hysbysu’n briodol i’r Deyrnas Unedig ac wedi ei dderbyn ganddi, pan fo’r Deyrnas

---

(**1**) 1989 p. 29.

(**2**) 1993 p. 43. Ceir diwygiadau i adran 83(1) ond nid yw’r un yn berthnasol.

(**3**) Mewnosodwyd y diffiniad o “electricity interconnector” gan adran 147(7) o Ddeddf Ynni 2004. Amnewidiwyd y diffiniad o “transmission system” gan baragraff 15 o Atodlen 19 i Ddeddf 2004.

(**4**) 2000 p. 5

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Unedig wedi gofyn am gymorth o dan y Confensiwn hwnnw,

(c) ystyr "arolygydd Euratom" yw arolygydd a anfonwyd i'r Deyrnas Unedig gan Gomisiwn yr Undeb Ewropeaidd yn unol ag Erthyglau 81 a 82 o Gytuniad Euratom,

(d) ystyr "personél niwclear" yw—

(i) gweithiwr a gyflogir i gyflawni gwaith ar safle neu mewn perthynas â safle y rhoddwyd trwydded safle niwclear mewn perthynas ag ef, neu

(ii) cyflogai i'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear(**1**),

(e) mae i "trwydded safle niwclear" yr ystyr a roddir i "nuclear site licence" yn adran 1 o Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965(**2**).

**20.** Arolygydd o'r Sefydliad Gwahardd Arfau Cemegol o fewn yr ystyr a roddir i "inspector" yn adran 24(e) o Deddf Arfau Cemegol 1996(**3**) sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddibenion arolygiad.

**21.**—(1) Person sydd—

(a) yn cyflawni swyddogaeth gritigol ar safle gofod,

(b) yn rheolwr llongau gofod sy'n gyfrifol am lywio a rheoli cerbyd lansio neu long ofod ar gyfer gweithrediadau enwol, osgoi gwrthdrawiadau neu anomaleddau, neu

(c) a gyflogir gan berson sy'n gweithredu neu'n cynnal galluoedd ymwybyddiaeth o sefyllfa'r gofod, neu sydd o dan gontract i ddarparu gwasanaethau i'r person hwnnw,

pan fo'r person wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae i "safle gofod" yr ystyr a roddir i "space site" ym mharagraff 5(3) o Atodlen 4 i Ddeddf y Diwydiant Gofod 2018(**4**),

(b) ystyr "galluoedd ymwybyddiaeth o sefyllfa'r gofod" yw'r synwyryddion, y systemau a'r gwasanaethau dadansoddi y mae eu hangen i roi rhybuddion sy'n sensitif o ran amser ynglŷn â digwyddiadau tywydd yn y gofod, gwrthdrawiadau orbitol, drylliadau orbitol neu

(**1**) Sefydlwyd yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear gan adran 1 o Ddeddf Ynni 2004 p. 20.

(**2**) 1965 p. 57. Amnewidiwyd adran 1 gan baragraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Ynni 2013 (p. 32); yn rhinwedd adran 1(2), cyfeirir at drwydded a ddisgrifir yn adran 1(1) fel "nuclear site licence".

(**3**) 1996 p. 6.

(**4**) 2018 p. 5.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ailfynediad gwrthrychau a wnaed gan bobl o'u horbit,

(c) mae i "llong ofod" yr ystyr a roddir i "spacecraft" yn adran 2(6) o Ddeddf y Diwydiant Gofod 2018,

(d) ystyr "rheolwr llong ofod" yw person sy'n gymwys, sydd wedi ei awdurdodi ac sy'n gyfrifol am gynnal gweithrediad saff a diogel llong ofod drwy fonitro statws llong ofod, rhoi gorchmynion llywio neu reoli agweddau eraill ar y llong ofod sy'n dylanwadu ar ei hymddygiad gan gynnwys ei symudiadau yn y gofod.

**22.**—(1) Peiriannydd awyrofod arbenigol, neu weithiwr awyrofod arbenigol, pan fo'r peiriannydd neu'r gweithiwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) ystyr "peiriannydd awyrofod arbenigol" yw person sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen fel arall i ddarparu gwasanaethau peirianyddol er mwyn sicrhau bod gweithgareddau hedfan yn parhau i weithredu (gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, ddarparu gwasanaethau cynnal a chadw ac atgyweirio ar gyfer llinellau cynhyrchu, cydrannau hedfan, awyrennau ar y ddaear ac awyrennau newydd),

(b) ystyr "gweithiwr awyrofod arbenigol" yw person sydd wedi ei gyflogi neu wedi ei gymryd ymlaen fel arall i ddarparu gwasanaethau at ddiben sicrhau bod diogelwch yn cael ei reoli a bod ansawdd yn cael ei sicrhau yn unol â gofynion y safonau, y canllawiau a'r cyhoeddiadau perthnasol ar ddiogelwch hedfan a gynhyrchir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil neu Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd(**1**).

**23.**—(1) Person sy'n ymwneud â gweithgareddau gweithredu, cynnal a chadw neu ddiogelwch cyfleuster

(**1**) Sefydlwyd yr Awdurdod Hedfan Sifil o dan adran 1(1) o Ddeddf Hedfan Sifil 1971 (p. 75). Disodlwyd y Ddeddf honno gan statud cydgrynhoi, Deddf Hedfan Sifil 1982 (p.16), y mae adran 2(1) o'r Ddeddf honno'n darparu ar gyfer parhad yr Awdurdod Hedfan Sifil. Ceir diwygiadau i adran 2 ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol. Sefydlwyd Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd gan Reoliad (EU) 2018/1139 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 4 Gorffennaf 2018 ar reolau cyffredin ym maes hedfan sifil ac yn sefydlu Asiantaeth Diogelwch Hedfan yr Undeb Ewropeaidd, ac yn diwygio Rheoliadau (EC) Rhif 2111/2005, (EC) Rhif 1008/2008, (EU) Rhif 996/2010, (EU) Rhif 376/2014 a Chyfarwyddebau 2014/30/EU a 2014/53/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor, ac yn diddymu Rheoliadau (EC) Rhif 552/2004 ac (EC) Rhif 216/2008 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 3922/91.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

yn y sector olew is sydd â chapasiti o fwy nag 20,000 o dunelli—

(a) pan fo'r cyfleuster yn y sector olew is yn ymwneud â gweithgaredd penodedig a gyflawnir yn y Deyrnas Unedig yng nghwrs busnes, ac yn cyfrannu (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) at gyflenwi tanwyddau sy'n seiliedig ar olew crai i ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig neu bersonau sy'n rhedeg busnes yn y Deyrnas Unedig, a

(b) pan fo angen y gweithgareddau er mwyn sicrhau bod y cyfleuster yn parhau i weithredu'n ddiogel,

pan fo'r person wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) mae gan gyfleuster gapasiti o fwy nag 20,000 o dunelli unrhyw bryd os cafodd ei ddefnyddio yn y flwyddyn galendr flaenorol at ddibenion gweithgareddau'r sector olew is mewn perthynas â mwy na'r nifer hwnnw o dunelli o olew,

(b) "gweithgareddau penodedig" yw—

(i) storio olew,

(ii) trafod olew,

(iii) cludo olew ar y môr neu ddŵr mewndirol,

(iv) cludo olew drwy bibellau,

(v) puro olew neu ei brosesu fel arall.

**24.**—(1) Gweithiwr sy'n ymgymryd â'r canlynol, neu y mae'n ofynnol iddo gychwyn y canlynol—

(a) gweithgareddau ar osodiadau alltraeth neu mewn perthynas â hwy,

(b) gweithgareddau ar seilwaith y sector petrolewm uwch neu mewn perthynas ag ef,

(c) gwaith diogelwch critigol ar osodiadau alltraeth a ffynhonnau sy'n cael eu datgomisiynu neu sy'n cael eu cadw hyd nes y cânt eu dymchwel neu eu hailddefnyddio, neu

(d) gweithgareddau i ddarparu gweithwyr, nwyddau, deunyddiau neu gyfarpar neu wasanaethau hanfodol eraill y mae eu hangen i gefnogi gweithrediad diogel y gweithgareddau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (c).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) mae i "gosodiadau alltraeth" yr ystyr a roddir i "offshore installations" yn adran 44 o Ddeddf Petrolewm 1998(**1**),

(b) mae i "seilwaith y sector petrolewm uwch" yr ystyr a roddir i "upstream petroleum infrastructure" yn adran 9H o Ddeddf Petrolewm 1998(**2**),

(c) mae i "ffynhonnau" yr ystyr a roddir i "wells" yn adran 45A(10) o Ddeddf Petrolewm 1998(**3**).

**25.** Gweithredydd post, yn unol â'r diffiniad o "postal operator" yn adran 27(3) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011(**4**), pan fo'r gweithredydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

**26.** Gweithiwr sydd â sgiliau technegol arbenigol, pan fo angen y sgiliau technegol arbenigol hynny ar gyfer gwaith neu wasanaethau hanfodol neu frys (gan gynnwys comisiynu, cynnal a chadw ac atgyweirio a gwiriadau diogelwch) i sicrhau y parheir i gynhyrchu, cyflenwi, symud, gweithgynhyrchu, storio neu gadw nwyddau, pan fo'r gweithiwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith neu fel arall i ddechrau neu ailddechrau gweithio.

**27.** Gweithiwr sydd â sgiliau technegol arbenigol, pan fo angen y sgiliau technegol arbenigol hynny ar gyfer gwaith hanfodol neu frys (gan gynnwys comisiynu, cynnal a chadw, atgyweirio a gwiriadau diogelwch) neu i gyflawni rhwymedigaethau contract neu fanylebau gwarantiad mewn cyfleusterau rheoli gwastraff a ddefnyddir ar gyfer rheoli, didoli, trin, adfer, neu waredu gwastraff (gan gynnwys ynni o wastraff), neu mewn cysylltiad â hynny, pan fo'r gweithiwr wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

**28.**—(1) Person sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig er mwyn cludo, i ddarparwr gwasanaethau iechyd (o fewn ystyr rheoliad 10(8)) yn y Deyrnas Unedig, ddeunydd a ffurfir o gelloedd neu waed dynol, neu sy'n cynnwys celloedd neu waed dynol, ac sydd i'w ddefnyddio er mwyn darparu gwasanaethau iechyd.

(2) At ddibenion is-baragraff (1) mae "gwaed" yn cynnwys cydrannau gwaed.

**29.** Person sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig—

---

(**1**) 1998 p. 17. Diwygiwyd adran 44 gan baragraff 11 o Atodlen 1 i Ddeddf Ynni 2008 (p. 32).

(**2**) Amnewidiwyd adran 9H gan adran 74(2) o Ddeddf Ynni 2016 (p. 20).

(**3**) Mewnosodwyd adran 45A gan adran 75(1) o Ddeddf Ynni 2008. Ceir diwygiadau i adran 45A(10) ond nid yw'r un yn berthnasol.

(**4**) 2011 p. 5.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) y mae'n ofynnol iddo ymgymryd â gwaith fel gweithiwr iechyd proffesiynol, neu weithiwr gofal proffesiynol yn y Deyrnas Unedig o fewn 14 diwrnod ar ôl cyrraedd, a

(b) sy'n gymwys i ymarfer proffesiwn a reoleiddir gan unrhyw un neu ragor o'r cyrff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**1**).

**30.** Person sy'n arolygydd yn yr ystyr a roddir i "inspector" yn rheoliad 8(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(**2**) sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i ymgymryd â gweithgareddau mewn perthynas â'i rôl fel person o'r fath.

**31.**—(1) Person sydd—

(a) wedi teithio i'r Deyrnas Unedig—

(i) i gynnal treial clinigol o fewn ystyr "conducting a clinical trial" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004(**3**),

(ii) i ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n angenrheidiol neu'n hwylus i baratoi at gynnal treial clinigol, neu

(iii) i gyflawni unrhyw weithgarwch cydymffurfio angenrheidiol mewn perthynas â threial clinigol na ellir ei gynnal o bell,

(b) yn berson cymwys yn yr ystyr a roddir i "qualified person" yn rheoliad 43 o'r Rheoliadau hynny, pan fo wedi teithio i'r Deyrnas Unedig er mwyn ymgymryd â gweithgareddau mewn perthynas â'i rôl fel person o'r fath, neu

(c) yn noddwr yn yr ystyr a roddir i "sponsor" yn rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hynny, neu'n cyflawni swyddogaethau neu ddyletswyddau noddwr, treial clinigol ac wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i ymgymryd â gweithgareddau mewn perthynas â'r treial clinigol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae i "treial clinigol" yr ystyr a roddir i "clinical trial" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004.

---

(**1**) 2002 p. 17. Diwygiwyd adran 25(3) gan baragraff 17(2) a (3) o Atodlen 10 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, gan baragraff 56(b) o Atodlen 15 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, gan baragraff 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017 (p. 16) a chan O.S. 2010/231.

(**2**) O.S. 2012/1916.

(**3**) O.S. 2004/1031, y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**32.** Person sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig i gynnal ymchwiliad clinigol yn yr ystyr a roddir i "clinical investigation" yn Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002(**1**), neu i ymgymryd â gweithgareddau sy'n angenrheidiol neu'n hwylus i baratoi at gynnal ymchwiliad clinigol neu i gyflawni unrhyw weithgarwch cydymffurfio angenrheidiol arall mewn perthynas ag ymchwiliad clinigol na ellir ei gynnal o bell.

**33.**—(1) Person sydd—

(a) yn berson cymwys yn yr ystyr a roddir i "qualified person" yn rheoliad 41(2) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(**2**),

(b) yn berson cyfrifol yn yr ystyr a roddir i "responsible person" yn rheoliad 45(1) o'r Rheoliadau hynny, neu

(c) yn berson â chymwysterau priodol sy'n gyfrifol am wyliadwriaeth ffarmacolegol yn yr ystyr a roddir i "an appropriately qualified person responsible for pharmacovigilance" yn rheoliad 182(2)(a) o'r Rheoliadau hynny,

pan fo'r person wedi teithio i'r Deyrnas Unedig er mwyn ymgymryd â gweithgareddau mewn perthynas â'i rôl fel person o'r fath.

**34.**—(1) Person sydd wedi teithio i'r Deyrnas Unedig at ddibenion ei waith mewn diwydiannau seilwaith hanfodol gan gynnwys—

(a) person sy'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio hanfodol ar seilwaith data y mae ei angen i leihau a datrys diffoddiadau, neu â darparu nwyddau a gwasanaethau i gefnogi'r gweithgareddau hyn, a

(b) gweithiwr proffesiynol technoleg gwybodaeth neu delathrebu (gan gynnwys ymgynghorydd technoleg gwybodaeth, dadansoddwr ansawdd, profwr meddalwedd, profwr systemau, a chynllunydd telathrebu), y mae angen ei arbenigedd er mwyn—

(i) darparu ymateb hanfodol neu frys i fygythiadau a digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch unrhyw system rhwydwaith a gwybodaeth, a

(ii) sicrhau bod unrhyw system rhwydwaith a gwybodaeth yn parhau i weithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae i "system rhwydwaith a gwybodaeth" yr ystyr a roddir i "network and information system" yn rheoliad 1(2) o

(**1**) O.S. 2002/618.
(**2**) O.S. 2012/1916.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018(1).

**35.** Person sy'n ymwneud â gwaith brys neu waith hanfodol—

(a) sy'n angenrheidiol er mwyn parhau i weithredu—

(i) rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig fel y'u diffinnir yn adran 32 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(2), gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â chynnal a chadw ac atgyweirio ceblau tanfor sy'n cysylltu'r Deyrnas Unedig â gwledydd eraill, neu

(ii) rhwydwaith a gwasanaethau trawsyrru darllediadau'r BBC,

(b) mewn cwmnïau yn y gadwyn gyflenwi sy'n cynnal cyfrinachedd, cyflawnder ac argaeledd y rhwydweithiau a'r gwasanaethau cyfathrebu electronig a rhwydwaith a gwasanaethau trawsyrru'r BBC,

pan fo'r person wedi teithio i'r Deyrnas Unedig yng nghwrs ei waith.

**36.** Person—

(a) sy'n dilyn gweithgaredd fel person cyflogedig neu hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig ac sy'n preswylio mewn gwlad arall y mae fel arfer yn dychwelyd iddi o leiaf unwaith yr wythnos, neu

(b) sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig ac sy'n dilyn gweithgaredd fel person cyflogedig neu hunangyflogedig mewn gwlad arall y mae fel arfer yn mynd iddi o leiaf unwaith yr wythnos.

---

(**1**) O.S. 2018/506.
(**2**) 2003 p. 21. Diwygiwyd y diffiniad o "electronic communications network" gan O.S. 2011/1210.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Vaughan Gething,
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**8 Mehefin 2020**

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr (i) sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon); neu (ii) sy'n cyrraedd Cymru o rywle arall yn yr Ardal Deithio Gyffredin pan fu'r teithiwr y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol, i ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith.

1.2 Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr (i) sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin; neu (ii) sy'n cyrraedd Cymru o rywle arall yn yr Ardal Deithio Gyffredin pan fu'r teithiwr y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol, i hunanynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym o fewn cyfnod o lai na 21 o ddiwrnodau ar ôl y dyddiad gosod.

Wrth ymateb i'r pandemig COVID-19, mae angen gweithredu ar frys i gyfyngu ar nifer yr achosion o COVID-19 a ddygir i mewn i'r DU a sicrhau na fydd yr achosion hyn yn cael effaith berthnasol ar fynychder domestig y feirws. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i'r gyfradd heintio ddomestig arafu. Pe bai oedi o ran y ddeddfwriaeth, ni fydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru yn y byrdymor hunanynysu am 14 o ddiwrnodau, ac felly ni fydd yn ofynnol iddynt leihau eu cysylltiadau cymdeithasol yn sylweddol fel y mae'r Rheoliadau hyn yn darparu. O ganlyniad, mae'r risg y byddant yn trosglwyddo'r feirws i'r boblogaeth ddomestig yn cynyddu, os ydynt wedi dal y feirws neu os ydynt yn heintus. Bydd unrhyw oedi hefyd yn golygu na fydd yn ofynnol i bobl sy'n cyrraedd Cymru ddarparu eu manylion cyswllt, sydd eu hangen i gynorthwyo olrhain cysylltiadau a thrwy hynny leihau trosglwyddiad y feirws. Nod y ddau fesur yw lleihau mynychder COVID-19 yn y DU. Gall oedi o ran gweithredu'r rheoliadau arwain at gynnydd perthnasol ym mynychder y clefyd yn y DU ar yr union adeg y mae nifer yr achosion domestig yn lleihau.

Mae Rheoliadau cael eu cyflwyno, gan ddilyn yr un amserlen, i osod gofynion cyfatebol o ran Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel rhan o ddull gweithredu ar draws y DU i atal lledaeniad haint neu halogiad Covid-19 drwy unrhyw heintiau a ddygir i Gymru gan deithwyr.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Mae Rhan 2A o Ddeddf 1984, fel y’i mewnosodwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, yn darparu sail gyfreithiol i ddiogelu’r cyhoedd rhag bygythiadau sy’n deillio o glefydau heintus neu halogi gan gemegau neu ymbelydredd, ac mae’n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bobl, ac mewn perthynas â gwrthrychau a mangreoedd, i’w defnyddio o dan amgylchiadau prin lle ni ellir sicrhau cydweithrediad gwirfoddol. Yn gyffredinol, mae Deddf 1984 fel y’i diwygiwyd yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu iechyd sy’n ei gwneud yn ofynnol i gryn dipyn o’r darpariaethau manwl gael eu gwneud drwy reoliadau.

Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adran 45B, 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i’r Gweinidog priodol wneud rheoliadau i atal perygl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i gerbydau (neu’r personau neu’r gwrthrychau a gludir yn y cerbydau hynny) yn cyrraedd unrhyw fan neu i atal lledaenu haint neu halogiad gan gerbydau sy’n gadael unrhyw fan. Mae hefyd yn darparu pŵer i reoliadau roi effaith i gytundebau rhyngwladol neu drefniadau rhyngwladol, er enghraifft argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae adran 45P(2) o Ddeddf 1984 yn darparu bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ran 2A o Ddeddf 1984 yn cynnwys y pŵer i wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer achosion gwahanol, neu bobl wahanol neu ardaloedd gwahanol, gan gynnwys y pŵer i wneud darpariaeth wahanol ar sail diben yr achos.

Mae adran 45F o Ddeddf 1984 yn cynnwys darpariaeth atodol sy’n ymwneud â rheoliadau a wnaed o dan adran 45B o’r Ddeddf honno. Caiff Rheoliadau a wneir o dan adran 45B alluogi cyflawni amcanion polisi drwy: creu troseddau, i lys orchymyn person sy’n cael euogfarn i gymryd camau adfer neu i dalu am gamau adfer, gweithredu a gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir gan y rheoliadau, apeliadau, codi ffioedd, digolledu, cymelldaliadau, a threuliau.

Yn unol ag adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y “Gweinidog priodol” at ddibenion arfer swyddogaethau o dan yr adrannau hyn, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae’r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) sy’n achosi’r clefyd o’r enw COVID-19 neu “coronafeirws”.

Mewn ymateb i’r bygythiad hwn yng Nghymru, mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi gwneud rheoliadau penodol i leihau lefelau cysylltiadau cymdeithasol yng

Nghymru. Yn benodol, ar 26 Mawrth 2020 gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 ganddynt i gau busnesau a mangreoedd; i osod cyfyngiadau symud; ac i gyfyngu ar gynulliadau am hyd argyfwng y coronafeirws, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984. Diwygiwyd y rheoliadau hyn ar 21 Mawrth, 7 Ebrill, 25 Ebrill, 11 Mai, 22 Mai a 1 Mehefin 2020.

Mewn ymateb i'r un bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf y Coronafeirws 2020, a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 25 Mawrth 2020. Mae Deddf y Coronafeirws yn darparu pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol roi cyfarwyddyd ysgrifenedig i weithredwr porthladd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr atal y gweithrediadau porthladd perthnasol hynny. Mae Deddf y Coronafeirws hefyd yn darparu pwerau penodol i swyddogion iechyd y cyhoedd mewn perthynas â phobl a all fod yn heintus. At ddibenion y Ddeddf honno, mae person yn rhywun "a all fod yn heintus" os yw wedi ei heintio neu ei halogi gan y coronafeirws, a bod risg y gall heintio neu halogi pobl eraill; neu os yw'r person wedi bod mewn ardal heintiedig (fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf) yn ystod y 14 o ddiwrnodau blaenorol. Pan fo person yn rhywun a all fod yn heintus, caiff swyddog iechyd y cyhoedd ei gwneud yn ofynnol iddo fod yn destun sgrinio ac asesu. Pan fo person o'r fath wedi ei sgrinio a'i asesu ar gyfer y feirws (pan un a yw canlyniadau'r sgrinio yn bendant ai peidio) neu wedi ei asesu fel arall gan swyddog iechyd y cyhoedd ac yr amheuir y gall y person fod yn heintus, caiff y swyddog iechyd y cyhoedd osod gofynion pellach a chyfyngiadau pellach. Caiff y rhain gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r person ddarparu gwybodaeth a manylion cyswllt, i fod yn destun sgrinio pellach, i aros mewn man penodol (gan gynnwys ar gyfer hunanynysu) neu i gyfyngiadau eraill gael eu gosod ar symudiadau'r person.

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984 i alluogi mesurau iechyd y cyhoedd ychwanegol penodol i gael eu cymryd at ddiben lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

Mae Rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin ddarparu'r wybodaeth am deithwyr sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu yn cynnwys, (i) manylion personol, megis enw, manylion pasbort a manylion cyswllt; (ii) manylion y daith, megis manylion llety neu gyfeiriad llety (at ddibenion ynysu) a'r dyddiad ac amser cyrraedd; a (iii) manylion cyswllt brys er mwyn cynorthwyo olrhain cysylltiadau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cyrraedd Cymru o'r tu fewn i'r Ardal Deithio Gyffredin sydd wedi bod y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yn ystod yr 14 o ddiwrnodau blaenorol ddarparu'r wybodaeth ragnodedig. Pan fo person yn teithio gyda phlentyn y mae'n gyfrifol amdano, rhaid iddo sicrhau y darperir yr wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r plentyn. Ceir esemptiadau penodedig rhag y gofyniad i ddarparu'r wybodaeth ragnodedig ar gyfer pobl benodol a chategorïau penodol o bersonau, er enghraifft, llysgenhadon a phersonau penodol sy'n cyflawni gweithgareddau amddiffyn hanfodol (fel y nodir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r offeryn). Mae Rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth am deithwyr a ddarparwyd eisoes.

Mae Rheoliadau 7 i 10 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin, ac unrhyw berson sy'n cyrraedd Cymru o rywle arall yn yr Ardal Deithio Gyffredin pan fu'r person y tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yn ystod yr 14 o ddiwrnodau blaenorol, i ynysu mewn mangre addas am gyfnod o 14 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw gyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin, neu hyd nes iddo adael Cymru (pa un bynnag sydd gynharaf). Mae'r rheoliadau yn darparu esemptiadau penodedig rhag y gofyniad i ynysu, gan gynnwys, er enghraifft, gadael y man ynysu i gael angenrheidiau sylfaenol unwaith y dydd, i geisio cynhorthwy meddygol, boed hynny'n gynhorthwy brys neu'n gyngor gan ymarferydd meddygol cofrestredig, neu i gyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol. Pan fo'n ofynnol i blentyn ynysu, rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am y plentyn yn ystod y cyfnod ynysu gymryd mesurau rhesymol i sicrhau bod y plentyn yn ynysu yn unol â'r rheoliadau. Ceir esemptiadau penodedig rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer pobl benodol a chategorïau penodol o bersonau, er enghraifft, pobl sy'n teithio i gynnal cadwyni cyflenwi hanfodol, seilwaith cenedlaethol hanfodol neu i gyfrannu at yr ymateb i'r argyfwng (fel y nodir yn Rhannau 1 a 2 o Atodlen 2 i'r offeryn).

Mae'r Rheoliadau yn darparu bod y canlynol yn drosedd – methu â darparu'r wybodaeth ragnodedig; darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol neu fod yn ddi-hid ynghylch a yw'r wybodaeth a ddarperir yn ffug neu'n gamarweiniol; a rhwystro swyddog mewnfudo sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â darparu gwybodaeth am deithwyr (rheoliad 14). Yn yr un modd, mae'r rheoliadau yn darparu bod methiant i gydymffurfio â'r gofynion mewn perthynas ag ynysu yn drosedd (rheoliad 14). Mae person sy'n cyflawni unrhyw drosedd o'r fath yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

Fel dewis arall yn lle erlyn, mae Rheoliad 16 yn darparu y caniateir i hysbysiad cosb benodedig gael ei gyflwyno gan swyddog yr heddlu neu swyddog mewnfudo i bersonau 18 oed neu'n hŷn y maent yn credu yn rhesymol eu bod wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau. Ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â'r gofyniad i ynysu, swm yr hysbysiad cosb benodedig fydd £1,000 am yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny. Ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth ragnodedig, swm y gosb benodedig fydd £60 (£30 os telir o fewn y cyfnod o 14 diwrnod ar ôl i'r gosb gael ei rhoi), gyda'r swm hwnnw yn dyblu ar gyfer pob hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, hyd at y chweched hysbysiad ac unrhyw hysbysiadau cosb benodedig a geir wedi hynny, a gosbir â dirwy o £1,920.

Mae Rheoliad 17 yn gosod y paramedrau ar gyfer defnyddio a datgelu gwybodaeth a gesglir wrth gydymffurfio â gofynion y rheoliadau hyn. Mae'r dibenion y gellir defnyddio a rhannu gwybodaeth ar eu cyfer yn gyfyngedig i:

(i) atal perygl i iechyd y cyhoedd yng Nghymru o ganlyniad i ledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws;

(ii) monitro lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws yng Nghymru, neu

(iii) rhoi effaith yng Nghymru i unrhyw gytundeb rhyngwladol neu unrhyw drefniadau rhyngwladol sy’n ymwneud â lledaeniad haint neu halogiad y coronafeirws.

Er mwyn hwyluso gweithrediad effeithiol y Rheoliadau a chyflawni amcanion diogelu iechyd y Rheoliadau, mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol. Caiff yr wybodaeth a ddarperir ei defnyddio i ddiogelu iechyd y cyhoedd a lleihau trosglwyddiad COVID-19 yn y DU. Pan geir cadarnhad bod rhywun sydd wedi ei heintio â COVID-19 wedi teithio i Gymru yn ddiweddar, caiff y data ei chwilio yn gyflym er mwyn nodi’r bobl a oedd o’i amgylch wrth iddo deithio, h.y. ei gysylltiadau. Caiff yr wybodaeth ei defnyddio i ei gysylltiadau eu bod wedi dod i gysylltiad â’r person heintiedig, beth y mae hynny’n ei olygu, y camau a fydd yn dilyn, a beth i’w wneud os oes ganddynt symptomau. Bydd y sawl sydd wedi dod i gysylltiad â person heintiedig hefyd yn cael gwybodaeth am atal y clefyd h.y. cadw pellter cymdeithasol, hylendid dwylo ac ati. Os oes ganddo symptomau, caiff y cyswllt ei hysbysu am y gofynion o ran hunanynysu â’r broses brofi. Bydd y data yn parhau i gael ei ddefnyddio i ganiatáu swyddogion iechyd i gymryd camau dilynol i fonitro ar gyfer symptomau. Caiff y manylion eu defnyddio hefyd i orfodi’r gofyniad i deithwyr ynysu am 14 o ddiwrnodau.

Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y gofynion a osodir gan y Rheoliadau yn gymesur i’r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Yn unol â rheoliad 19 mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru barhau i adolygu'r angen am y cyfyngiadau bob 21 o ddiwrnodau, ac mae’r Rheoliadau yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y maent yn dod i rym (rheoliad 20).

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws ar angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i’w rhoi ar waith ar frys i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd/Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Mehefin 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 (fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau i'w cael ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Er mwyn atal lledaeniad haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws, mae'r Rheoliadau yn gosod gofynion ar deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin (hy yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon).

Mae'r Rheoliadau yn gosod dyletswydd ar deithwyr perthnasol i (i) darparu gwybodaeth ragnodedig, gan gynnwys manylion cyswllt a manylion teithio; a (ii) ynysu am gyfnod o 14 diwrnod.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 8 Mehefin 2020. Oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, ystyrir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol. Mae Rheoliadau cyfwerth yn cael eu cyflwyno o fewn yr un amserlen ac yn gosod yr un gofynion mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn rhan o ddull o weithredu sy'n cynnwys y pedair gwlad i osgoi lledaenu haint neu halogiad yn sgil y coronafeirws neu glefyd y coronafeirws yn y DU drwy unrhyw heintiau sydd wedi'u cludo i'r wlad gan deithwyr.

Bydd yr offeryn hwn yn dod i rym cyn y bydd modd ei osod yn y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod modd i'r cyfyngiadau fod mewn grym ar draws y DU ar yr un pryd. Bydd hefyd yn sicrhau eglurder a symylrwydd ar gyfer y cyhoedd. Gan nad yw'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSMFT@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Swyddfa Gyflwyno ar agor dros y penwythnos bydd y cyfle cyntaf i osod yr offeryn yn dilyn ei gofrestru yn digwydd ar ôl iddo ddod i rym.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ystod y broses o ddatblygu a chyflwyno'r Rheoliadau hyn.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Eitem 3.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

15 Mehefin 2020

Annwyl Gadeirydd

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi fod dogfen ymgynghori sy'n ceisio barn ar Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 wedi'i chyhoeddi heddiw ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyn pob un o etholiadau'r Senedd, caiff Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n nodi'r ffordd y bydd yr etholiad ac ymgyrch yr etholiad yn cael eu cynnal ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer her gyfreithiol, ei adolygu a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth ers yr etholiad diwethaf.


Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y diwygiadau arfaethedig i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n codi'n bennaf o ganlyniad i newidiadau i'r trefniadau etholfraint ac anghymhwyso a wnaed gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ogystal â rhai diwygiadau canlyniadol sy'n codi o'r darpariaethau enwi.

Mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn cynnwys diwygiadau mwy sylweddol sy'n adlewyrchu newidiadau a wnaed yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i roi'r dewis i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref mewn etholiad, ynghyd â mater talu ffioedd i swyddogion canlyniadau am wasanaethau a ddarperir. Hefyd, gwneir diweddariadau cyffredinol sy'n adlewyrchu newidiadau ers diwygio'r Gorchymyn ddiwethaf.

Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau ein bod wedi nodi'r materion perthnasol a bod y diwygiadau a luniwyd yn glir ac yn ymarferol. Nid ydym yn ymgynghori ar rinweddau polisïau sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad a dadl.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 8 Medi 2020. Mae manylion sut i ymateb wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori.

Dymuniadau gorau



**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Ymgynghoriad ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020** |
| **DYDDIAD** | **15 Mehefin 2020** |
| **GAN** | **Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru** |

Pe bai angen i rai o'r mesurau sy'n ymwneud â phandemig y coronafeirws barhau mewn grym, mae'n bosibl y byddai angen addasu'r trefniadau ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Grŵp Cynllunio Etholiadau, yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a swyddogion Llywodraeth Cymru, i ystyried yr effaith bosibl ar weinyddu'r etholiadau ac unrhyw effaith ar ddarpariaeth ddeddfwriaethol.

Serch hynny, bydd angen bwrw ymlaen o hyd â gwaith ar y ddeddfwriaeth alluogi i ganiatáu i etholiadau'r Senedd gael eu cynnal. Felly, heddiw mae dogfen ymgynghori sy'n ceisio barn ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
https://llyw.cymru/gorchymyn-drafft-senedd-cymru-cynrychiolaeth-y-bobl-diwygio-2020

Trosglwyddodd adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, bwerau penodol oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd. Cyn pob un o etholiadau'r Senedd, caiff Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n nodi'r ffordd y bydd yr etholiad ac ymgyrch yr etholiad yn cael eu cynnal ac sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer her gyfreithiol, ei adolygu a'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn polisi neu ddeddfwriaeth ers yr etholiad diwethaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y diwygiadau arfaethedig i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n codi'n bennaf o ganlyniad i newidiadau i'r trefniadau etholfraint ac anghymhwyso a wnaed gan Ddeddf y Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn ogystal â rhai diwygiadau canlyniadol sy'n codi o'r darpariaethau enwi.

Mae'r Gorchymyn drafft hefyd yn cynnwys diwygiadau mwy sylweddol sy'n adlewyrchu newidiadau a wnaed yn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig i roi'r dewis i ymgeiswyr beidio â chyhoeddi eu cyfeiriad cartref mewn etholiad, ynghyd â mater talu ffioedd i swyddogion

canlyniadau am wasanaethau a ddarperir. Hefyd, gwneir diweddariadau cyffredinol sy'n adlewyrchu newidiadau ers diwygio'r Gorchymyn ddiwethaf.

Rwy'n awyddus i glywed barn rhanddeiliaid a byddaf yn ystyried eu sylwadau yn ofalus cyn llunio drafft terfynol y Gorchymyn. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynigion hyn ar agor tan 8 Medi 2020. Mae manylion sut i ymateb wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori. Ar ôl ystyried yr ymatebion, bydd y Gorchymyn drafft yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Senedd. Bydd swyddogion hefyd yn ystyried y gwaith o ddatblygu Gorchymyn newydd, wedi'i gydgrynhoi, yn barod ar gyfer yr etholiad yn 2026.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Our ref: MA/JJ/1741/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

16 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

Rwyf am eich hysbysu am fy mwriad i osod rheoliadau drafft i'w cymeradwyo gan y Senedd, a fyddai'n caniatáu hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn perthynas â chyhoeddi cofrestr etholiadol 2020, sy'n codi yn sgil cynnal y canfasiad blynyddol o etholwyr.

Mae cofrestru etholiadol yn broses drwy gydol y flwyddyn ac mae'r canfasiad blynyddol yn cyflwyno'r cyfle i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gysylltu ag aelwydydd a sicrhau bod y cofrestri etholiadol mor gyflawn â phosibl. Gall y canfasiad gymryd hyd at bum mis i'w gwblhau a gall gynnwys ymweliad canfasio â'r aelwyd mewn rhai achosion. Pan fydd gweithgareddau cofrestru'n cael eu cynnal ochr yn ochr â hyn, gall hyn olygu bod angen gwirio hunaniaeth trwy waith papur allweddol, megis gweld pasbortau. Mae'r canfasiad blynyddol yn cychwyn fel arfer ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn, er nad yw hyn wedi ei nodi mewn deddfwriaeth. Mae'r amserlen yn seiliedig ar y gofyniad deddfwriaethol i gyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig, o ganlyniad i gynnal y canfasiad blynyddol, ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn. Mewn amgylchiadau eithriadol, lle cynhelir etholiad rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr yn ystod cyfnod y canfasiad blynyddol, mae'n rhaid cyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn honno ddim hwyrach na 1 Chwefror y flwyddyn ganlynol.

Bwriadaf osod rheoliadau drafft cyn egwyl yr haf a fyddai'n caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael mwy o amser i gyhoeddi'r gofrestr etholiadol 2020 hyd at 1 Chwefror 2021 os oes angen. Byddai'r newid hwn yn berthnasol i gyhoeddiad cofrestr etholiadol 2020 yn unig.

Rwyf o'r farn, yn yr amgylchiadau presennol a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19, y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal y canfasiad mewn ffordd sy'n gymesur â gofynion iechyd y cyhoedd, a gellir cyflawni hyn drwy symud y dyddiad terfynol y mae'n rhaid cyhoeddi cofrestr etholwyr 2020. Nid yw hyn yn golygu na ellir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoeddi cofrestrau ond ar 1 Chwefror 2021. Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddewis cyhoeddi eu cofrestr etholiadol 2020 ar 1 Rhagfyr 2020 fel arfer, neu ar unrhyw ddyddiad arall hyd at, a chan gynnwys, 1 Chwefror 2021.

Bydd y ddeddfwriaeth yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft a byddaf yn ddiolchgar i chi am ei hystyried ac eich adroddiad arni maes o law.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol 2020**

**DYDDIAD** **16 Mehefin 2020**

**GAN** **Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

Rwyf am eich hysbysu am fwriad Llywodraeth Cymru i osod rheoliadau drafft i'w cymeradwyo gan y Senedd, a fyddai'n caniatáu hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru mewn perthynas â chyhoeddi cofrestr etholiadol 2020, sy'n codi yn sgil cynnal y canfasiad blynyddol o etholwyr. Mae hyn fel y gellir gwneud trefniadau priodol i sicrhau y cynhelir y canfasiad yn y ffordd fwyaf diogel posibl.

Cynhelir y canfasiad etholiadol bob blwyddyn ac er bod cofrestru etholwyr yn broses drwy gydol y flwyddyn, mae'r canfasiad yn cyflwyno'r cyfle i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau cywirdeb y gofrestr. Mae'r canfasiad yn dechrau fel arfer ar 1 Gorffennaf bob blwyddyn a gall gymryd hyd at bum mis i'w gwblhau. Mae'r canfasiad yn dod i ben wrth gyhoeddi'r gofrestr etholiadol ddiwygiedig ar 1 Rhagfyr y flwyddyn honno. Mae'r dyddiad ar gyfer cyhoeddi'r gofrestr wedi'i nodi mewn deddfwriaeth a bwriadaf osod rheoliadau drafft, a fyddai'n caniatáu i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi cofrestr etholiadol 2020 yn ddiweddarach os bydd angen, hyd at 1 Chwefror 2021. Byddai'r newid hwn yn berthnasol i gyhoeddiad cofrestr etholiadol 2020 yn unig.

Rwyf o'r farn, yn yr amgylchiadau presennol a ddaeth yn sgil pandemig Covid-19, y dylai fod rhywfaint o hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gynnal y canfasiad mewn ffordd sy'n gymesur â gofynion iechyd y cyhoedd, a gellir cyflawni hyn drwy symud y dyddiad terfynol y mae'n rhaid cyhoeddi cofrestr etholwyr 2020. Nid yw hyn yn golygu na ellir cyhoeddi cofrestrau ond ar 1 Chwefror 2021, gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddewis eu cyhoeddi ar 1 Rhagfyr 2020 fel arfer neu ar unrhyw ddyddiad arall hyd at, a chan gynnwys, 1 Chwefror 2021. Byddai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn rhydd i ddechrau gweithio ar y canfasiad blynyddol ym mis Gorffennaf fel arfer, ond bydd mwy o amser ar gael iddynt i sicrhau y gellir rhoi trefniadau priodol ar waith i gynnal y canfasiad yn ddiogel.

Fy mwriad yw gosod y rheoliadau drafft, a fydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, cyn toriad yr haf ac rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad heddiw i roi gwybod i'r Pwyllgor am fy mwriadau.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/CG/0700/20

Mick Antoniw MS
Cadeirydd, Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

17 Mehefin 2020

Annwyl Mick,

**CANLLAWIAU AR DDRAFFTIO DEDDFWRIAETH**

Mae'n bleser gennyf amgáu copïau o ddwy ddogfen canllaw newydd y mae'r Llywodraeth wedi'u cyhoeddi. Mae'r cyntaf yn cwmpasu'r ymhlygiadau i'r rheini sy'n drafftio deddfwriaeth yng ngoleuni rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 – byddwch yn cofio ein bod wedi ymrwymo i baratoi a chyhoeddi hyn pan oedd y Bil yn cael ei hystyried.

Mae'r ail ddogfen canllaw yn adlewyrchu'r materion y dylai ddrafftwyr deddfwriaeth eu hystyried yn dilyn ran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn dod i rym.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019

## Canllawiau ar baratoi deddfwriaeth Cymru

SWYDDFA'R CWNSLERIAID DEDDFWRIAETHOL
OFFICE OF THE LEGISLATIVE COUNSEL

# Cyflwyniad

## Beth yw'r canllawiau hyn?

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i ddrafftwyr deddfwriaeth Cymru ar oblygiadau Rhan 2 a Rhan 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Deddf 2019). Nid yw'n rhoi esboniad llawn o ddiben nac effaith gyfreithiol darpariaethau Deddf 2019: i gael hynny, gweler Nodiadau Esboniadol y Ddeddf[1]. Nid yw ychwaith yn rhoi disgrifiad llawn o ddull Llywodraeth Cymru o ddrafftio deddfwriaeth: i gael canllawiau ar hynny, gweler *Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw*[2].

## Y derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 2019 ac yn y canllawiau hyn

Mae Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru o 6 Mai 2020 ymlaen. Mae Atodlen 1 i'r Ddeddf honno'n diwygio Deddf 2019 i ddisodli cyfeiriadau at Ddeddfau'r Cynulliad â chyfeiriadau at Ddeddfau Senedd Cymru, ac i fewnosod diffiniad o "Deddf gan Senedd Cymru" sy'n cynnwys Deddfau a basiwyd cyn i enw'r ddeddfwrfa gael ei newid ac ar ôl hynny.

Yr un dull a ddefnyddir yn y canllawiau hyn, sy'n defnyddio'r term "Deddfau Senedd Cymru" lle bynnag y bwriedir cynnwys Deddfau a basiwyd cyn newid yr enw ac ar ôl hynny. Er hynny, "Deddfau'r Cynulliad" a ddefnyddir pan fwriedir cyfeirio at Ddeddfau a basiwyd pan oedd y ddeddfwrfa yn dal i gael ei galw'n Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae canllaw ar wahân ar oblygiadau Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ar ddrafftio deddfwriaeth.

[1] Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2019/4/notes/contents
[2] Ar gael yn: llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/drafftio-deddfau-i-gymru.pdf

# Rhan 2 – Cynnwys


Beth mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn ei wneud? 4

Pwy sydd angen deall Rhan 2? 4

Pryd ddaeth Rhan 2 o'r Ddeddf i rym? 4

Y ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi 4

Ystyr "is-offeryn Cymreig" 5

Parhau i gymhwyso Deddf 1978 6

Ystyried Deddf 1978 wrth ddrafftio deddfwriaeth Cymru 6

Pa ddarpariaethau dehongli sy'n gymwys os yw deddfwriaeth Cymru'n diwygio deddfwriaeth arall? 7

Effaith darpariaethau Rhan 2 8

Diffinio termau a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru 8

Diffiniadau cyffredinol termau; Adran 6 ac Atodlen 1 8

Y berthynas rhwng ystyron termau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth 10

Cymhwyso diffiniadau at dermau cysylltiedig 11

Cyflwyno dogfennau drwy'r post ac yn electronig 11

Arfer pwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Cymru cyn iddi ddod i rym 12

Cyfeirio at ddeddfwriaeth arall a ddiwygir 13

Cymhwyso deddfwriaeth at y Goron 13

Statws cyfartal y testunau Cymraeg a Saesneg 14

Atodiad: Rhan 2 o'i chymharu â Deddf 1978 15


OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG38937 ISBN digidol: 978-1-83933-922-6

# Beth mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn ei wneud?

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn cynnwys darpariaethau diofyn ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru – hynny yw, Deddfau Senedd Cymru ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill Cymru.

Mae'r darpariaethau diofyn yn ymdrin ag amryw o faterion, gan gynnwys ystyr geiriau ac ymadroddion penodol pan gânt eu defnyddio mewn deddfwriaeth, arfer mathau penodol o bŵer statudol, effaith deddfwriaeth sy'n diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth arall, ac a yw deddfwriaeth yn gymwys i'r Goron ai peidio.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn disodli Deddf Ddehongli 1978 (Deddf 1978) o ran deddfwriaeth Cymru. Mae'r mwyafrif o'r darpariaethau diofyn yn Rhan 2 wedi eu seilio ar ddarpariaethau yn Neddf 1978, a oedd gynt yn gymwys i holl ddeddfwriaeth Cymru (ac a fydd yn dal yn gymwys i ddeddfwriaeth Cymru a wnaed cyn i Ran 2 fod mewn grym). Er hynny, mae Deddf 1978 yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli, ac mae nifer o'i darpariaethau yn amherthnasol i Gymru. Gan hynny, mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn wahanol mewn rhai ffyrdd i Ddeddf 1978.

Nid yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn cynnwys yr holl reolau sy'n llywodraethu sut i ddehongli deddfwriaeth Cymru. Ceir rhai o'r rheolau hynny mewn statudau eraill; yn amlwg, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) yn gosod terfynau cyffredinol ar bwerau Senedd Cymru a Gweinidogion Cymru i wneud deddfwriaeth, ac yn gofyn bod deddfwriaeth yn cael ei dehongli yn unol â'r terfynau hynny.

Ymhellach, mae'r llysoedd wedi datblygu amryw o egwyddorion cyfraith gyffredin o ran dehongli statudau wrth ystyried anghydfodau sy'n cynnwys cwestiynau am ystyr deddfwriaeth. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn gwrth-droi rhagdybiaeth y gyfraith gyffredin nad yw deddfwriaeth Cymru yn rhwymo'r Goron, ond nid yw'n newid effaith unrhyw un neu ragor o egwyddorion eraill y gyfraith gyffredin ynglŷn â dehongli.

# Pwy sydd angen deall Rhan 2?

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol yn bennaf i'r canlynol:

- cyfreithwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n drafftio Biliau ac offerynnau statudol i Weinidogion Cymru;
- swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n paratoi is-ddeddfwriaeth;
- cyfreithwyr a swyddogion eraill sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth i'r awdurdodau datganoledig yng Nghymru (megis is-ddeddfau a chynlluniau a wneir gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol).

Byddant yn berthnasol hefyd i'r rhai sy'n ymwneud â chraffu ar Filiau ac offerynnau statudol gan Senedd Cymru, ac i unrhyw un y mae angen iddo ddeall neu gymhwyso deddfwriaeth Cymru.

# Pryd ddaeth Rhan 2 o'r Ddeddf i rym?

Daeth holl ddarpariaethau Rhan 2 o Ddeddf 2019 sy'n gymwys i ddehongli a gweithredu Deddf 2019 ei hun i rym ar 11 Medi 2019. At ddibenion dehongli a gweithredu deddfwriaeth arall, daeth darpariaethau Rhan 2 i rym ar 1 Ionawr 2020 ac maent yn gymwys i ddeddfwriaeth Cymru a ddeddfir ar y dyddiad hwnnw neu wedyn.

# Y ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi

Heblaw am ychydig o fân eithriadau, mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys i'r holl ddeddfwriaeth a wneir yng Nghymru o 1 Ionawr 2020 ymlaen. Mae adran 3(1) yn darparu bod Rhan 2 yn gymwys i Ddeddf 2019 ei hun, Deddfau sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar 1 Ionawr 2020 neu wedyn, ac is-offerynnau Cymru a wneir ar 1 Ionawr 2020 neu wedyn.

Y dyddiad allweddol yw dyddiad gwneud yr offeryn. O ran is-ddeddfwriaeth, dyma'r dyddiad y caiff yr offeryn ei lofnodi gan un o Weinidogion Cymru, nid y dyddiad y caiff ei osod gerbron y Senedd. Y dyddiad allweddol yn achos is-ddeddfau yw'r dyddiad pan fydd awdurdod Cymreig datganoledig yn cymryd y cam olaf yn y broses sy'n ofynnol, yn gyffredinol drwy osod sêl gyffredin yr awdurdod ar y ddogfen ar ôl ei chymeradwyo.

## Ystyr "is-offeryn Cymreig"

Mae adran 3(2) o Ddeddf 2019 yn nodi'r diffiniad o is-offeryn Cymreig, sy'n cynnwys y canlynol:

*Is-ddeddfwriaeth –*

- *i. a wneir ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020,*
- *ii. a wneir o dan Ddeddfau Senedd Cymru a Mesurau'r Cynulliad (pryd bynnag y cafodd y Ddeddf neu'r Mesur y Cydsyniad Brenhinol neu gymeradwyaeth), a*
- *iii. a wneir gan Weinidogion Cymru neu unrhyw berson arall.*

Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys:

*Is-ddeddfwriaeth –*

- *i. a wneir ar neu ar ôl 1 Ionawr 2020,*
- *ii. a wneir o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig (pryd bynnag y cafodd y Ddeddf honno y Cydsyniad Brenhinol) neu o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir,*
- *iii. a wneir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig arall yn unig (heb fod yn gweithredu gyda mathau eraill o awdurdod), a*
- *iv. sy'n gymwys o ran Cymru yn unig.*

Gan hynny, mae Rhan 2 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan awdurdodau datganoledig Cymru, fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru.[3] Mae'n bwysig bod yn ymwybodol felly y bydd Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys i unrhyw is-ddeddfau, cynlluniau neu orchmynion a wneir gan gyrff o'r fath, boed y pwerau i'w gwneud wedi eu cynnwys yn Neddfau Senedd Cymru, Mesurau'r Cynulliad neu Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig.

Er hynny, os nad yw'r is-ddeddfwriaeth yn dod o fewn y diffiniad hwn, ni fydd yn cael ei hystyried yn "is-offeryn Cymreig", a bydd yn dod o dan Ddeddf 1978.

Er enghraifft, ni fydd offeryn yn "is-offeryn Cymreig" os yw'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir gan berson neu gorff nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig.

Dyma olygu na fydd "is-offeryn Cymreig" yn cynnwys offerynnau a wneir ar y cyd gan Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol, neu offerynnau "cyfansawdd" lle mae Gweinidogion Cymru yn deddfu ynddynt ar gyfer Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn deddfu ar gyfer Lloegr.

[3] Ceir diffiniad o awdurdod Cymreig datganoledig yn adran 157A o Ddeddf 2006, a nodir rhestr o gyrff o'r fath yn Atodlen 9A i Ddeddf 2006.

# Parhau i gymhwyso Deddf 1978

Nid yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys i'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru. Fe fydd yna ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ac sy'n dod o dan Ddeddf 1978.

Nid yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys i'r canlynol:

a. unrhyw ddeddfwriaeth a ddeddfwyd cyn 1 Ionawr 2020;
b. unrhyw ddeddfwriaeth a wneir gan gorff nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig (hyd yn oed os yw hefyd yn cael ei gwneud yn rhannol gan awdurdod Cymreig datganoledig); neu
c. unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gymwys heblaw o ran Cymru (hyd yn oed os yw hefyd yn gymwys o ran Cymru neu ran o Gymru).

Gan hynny, bydd Deddf 1978 yn dal yn gymwys i ddeddfwriaeth o'r mathau a ganlyn:

a. Deddfau'r Cynulliad[4] a gafodd Gydsyniad Brenhinol cyn 1 Ionawr 2020;
b. holl Fesurau'r Cynulliad;
c. yr holl is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn 1 Ionawr 2020 ac a wnaed o dan un o Ddeddfau neu Fesurau'r Cynulliad, neu a wnaed o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig gan awdurdod Cymreig datganoledig;
d. Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig;
e. is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y Goron ac awdurdodau eraill a gadwyd yn ôl;
f. cyd-offerynnau ac offerynnau cyfansawdd a wneir o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig yn gweithredu gydag awdurdod arall (er enghraifft, un o Weinidogion y Goron).

Ni fydd Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys ychwaith i unrhyw ddeddfwriaeth o eiddo'r UE, hyd yn oed os caiff y ddeddfwriaeth honno ei dargadw yng nghyfraith y Deyrnas Unedig ar ôl ymadael â'r UE.

# Ystyried Deddf 1978 wrth ddrafftio deddfwriaeth Cymru

Fe fydd llawer o achosion lle bydd angen ystyried Deddf 1978 wrth ddrafftio a dehongli deddfwriaeth newydd i Gymru, yn enwedig pan fo'r ddeddfwriaeth Gymreig honno'n is-ddeddfwriaeth.

Hyd y gellir rhag-weld, caiff y mwyafrif o is-offerynnau Cymru eu gwneud o dan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, o dan Fesurau'r Cynulliad, neu o dan Ddeddfau'r Cynulliad a ddeddfwyd cyn 2020. Yn yr achosion hyn:

- Deddf 1978 fydd yn gymwys i'r rhiant-Ddeddf neu'r rhiant-Fesur, ond
- Rhan 2 o Ddeddf 2019 fydd yn gymwys i'r is-offeryn Cymreig.

Gall fod angen hefyd i ddeddfwriaeth Cymru ddiwygio deddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi (megis un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, neu unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig a ddeddfwyd cyn 2020). Yn yr achos hwnnw:

- Rhan 2 o Ddeddf 2019 fydd yn gymwys i ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth ddiwygio, ond
- Deddf 1978 fydd yn gymwys i unrhyw ddeunydd a fewnosodir yn y ddeddfwriaeth arall.

[4] Defnyddir y term "Deddfau'r Cynulliad" yma am fod y cyfeiriad yn gyfeiriad at Ddeddfau a ddeddfwyd cyn y newid yn enw'r ddeddfwrfa, a'r rheiny i gyd yn Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach na Deddfau Senedd Cymru. Yn yr un modd, cafodd holl Fesurau'r Cynulliad eu deddfu ymhell cyn i'r enw newid.

Ar y llaw arall, os yw un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn diwygio unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi (h.y. deddfwriaeth Gymreig a ddeddfir o 1 Ionawr 2020 ymlaen), yna:

- Deddf 1978 fydd yn gymwys i ddarpariaethau'r Ddeddf ddiwygio neu'r offeryn diwygio, ond
- Rhan 2 o Ddeddf 2019 fydd yn gymwys i ddeunydd a fewnosodir yn y ddeddfwriaeth Gymreig.

Er y bydd angen ystyried Deddf 1978 a Deddf 2019 ill dwy yn yr achosion hyn, yr un yw effaith y mwyafrif o ddarpariaethau'r ddwy Ddeddf.

## Pa ddarpariaethau dehongli sy'n gymwys os yw deddfwriaeth Cymru'n diwygio deddfwriaeth arall?

Bydd deddfwriaeth Gymreig y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi weithiau yn diwygio deddfwriaeth arall drwy fewnosod darpariaethau newydd neu amnewid rhai sy'n bodoli eisoes. Fel arfer, dehonglir deunydd a fewnosodir mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes ar y sail ei fod yn ffurfio rhan o'r ddeddfwriaeth bresennol honno, a chadarnheir y safbwynt hwn yn adran 32 o Ddeddf 2019.

Pan fo Deddf neu offeryn y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt yn diwygio Deddf neu offeryn arall y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, ni ddylid cael unrhyw anawsterau gan y bydd Rhan 2 yr un mor gymwys i'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth.

Pan fo Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn diwygio deddfwriaeth nad yw Rhan 2 yn gymwys iddi, megis un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, darn o is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, neu unrhyw ddeddfwriaeth Gymreig sy'n deillio o'r cyfnod cyn 2020, mae'r sefyllfa ychydig yn fwy cymhleth. Ni fydd Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys i'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio. Yn hytrach, bydd y ddeddfwriaeth honno yn dod o dan Ddeddf 1978, ac o dan y rhagdybiaeth a geir yn y gyfraith gyffredin nad yw deddfwriaeth yn rhwymo'r Goron.

Bydd angen i ddeunydd a fewnosodir yn un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu ddarn o is-ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig gael ei ddrafftio drwy gyfeirio at y rheolau sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth honno yn hytrach na Rhan 2 o Ddeddf 2019. Bydd hyn yn wir hefyd pan fydd Deddf neu offeryn y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddynt yn diwygio Deddf Cynulliad a gafodd y Cydsyniad Brenhinol cyn Ionawr 2020, Mesur Cynulliad, neu is-offeryn Cymreig a wnaed cyn Ionawr 2020. Mae deddfwriaeth Gymreig a ddeddfwyd cyn Ionawr 2020 yn dal yn dod o dan y rheolau dehongli a oedd yn gymwys pan gafodd ei deddfu, gan gynnwys Deddf 1978, a dylai deunydd a fewnosodir yn y ddeddfwriaeth honno gael ei ddrafftio drwy gyfeirio at y rheolau hynny.

Felly, wrth ddrafftio diwygiadau i ddeddfwriaeth arall, mae'n bwysig gwirio pa ddarpariaethau dehongli sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio, a drafftio unrhyw destun sydd i'w fewnosod yn unol â'r rheolau hynny. Gallai hynny olygu bod angen i ddarpariaeth a fewnosodir ddefnyddio geiriau gwahanol i'r rhai a fyddai wedi cael eu defnyddio mewn darpariaeth sy'n sefyll ar ei phen ei hun ac sy'n ymddangos yn y Ddeddf neu'r offeryn diwygio. Ond fel arfer ni fydd angen gwneud hyn, gan mai'r un yw effaith y ddwy set o ddarpariaethau dehongli.

Gall y sefyllfa fod yn fwy cymhleth wrth ddrafftio addasiad nad yw'n ymwneud â'r testun i ddeddfiad nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddo, a gall y dull cywir ddibynnu ar y ffordd y mae'r addasiad nad yw'n ymwneud â'r testun yn cael ei ddrafftio. Tebycaf yn y byd y bo'r addasiad i welliant testunol, tebycaf yw hi y dylai gael ei ddrafftio ar y sail ei fod yn ffurfio rhan o'r deddfiad sy'n cael ei addasu. Er enghraifft, os yw'r addasiad yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfiad sy'n bodoli eisoes gael ei ddarllen fel pe bai fersiwn amgen o is-adran (1) yn cael ei osod yn lle'r is-adran (1) bresennol, y bwriad fel arfer yw y dylai'r fersiwn amgen ddarllen fel petai'n ffurfio rhan o'r deddfiad presennol. Gan hynny, dylai gael ei ddrafftio fel arfer drwy gyfeirio at y termau a ddefnyddir yn y deddfiad presennol. Ar y llaw arall, os nad yw'r addasiad yn gofyn mwy na bod is-adran (1) yn cael ei darllen fel pe bai cyfeiriadau at gysyniad presennol yn gyfeiriadau at gysyniad amgen, fe allai fod yn fwy priodol diffinio'r cysyniad amgen hwnnw yn y ddeddfwriaeth sy'n gwneud yr addasiad.

# Effaith darpariaethau Rhan 2

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn cynnwys set o ddarpariaethau diofyn a fydd yn llywodraethu agweddau ar ddehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru yn niffyg unrhyw fwriad i'r gwrthwyneb. Ond nid yw'r darpariaethau diofyn hyn yn cyfyngu'r pwerau y gwneir deddfwriaeth odanynt, ac felly nid ydynt yn atal darnau unigol o ddeddfwriaeth rhag mabwysiadu rheolau gwahanol lle mae hynny o fewn y pwerau perthnasol. Os bwriedir rheol wahanol, bydd honno fel arfer yn disodli darpariaethau Rhan 2.

Mae adran 4 o Ddeddf 2019 yn darparu bod bron pob un o ddarpariaethau Rhan 2 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau bod darpariaeth bendant yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa o dan Ddeddf 1978: mae bron pob adran o'r Ddeddf honno yn darparu ei bod yn gymwys *"unless the contrary intention appears"*. Y cyfan y mae adran 4 o Ddeddf 2019 yn ei wneud yw ymdrin â'r mater mewn un man, ac mae'n nodi'r ddwy ffordd y gellir dod o hyd i fwriad i'r gwrthwyneb (h.y. mewn darpariaeth benodol i'r gwrthwyneb, neu drwy ymhlygiad ar sail y cyd-destun).

Bydd darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb yn ddarpariaeth sy'n nodi sefyllfa wahanol i'r un y darperir ar ei chyfer yn Rhan 2. Er enghraifft, mae adran 15(1) o Ddeddf 2019 yn darparu y gall pwerau statudol gael eu harfer fwy nag unwaith; ond os nad dyna'r polisi ar gyfer pŵer penodol, gall y ddeddfwriaeth sy'n rhoi'r pŵer nodi mai unwaith yn unig y caniateir iddo gael ei arfer. (Mae hyn yn debygol o fod yn gliriach ac yn fwy o gymorth na datgan nad yw adran 15(1) o Ddeddf 2019 yn gymwys i'r pŵer).

Gall fod yn briodol dibynnu ar y cyd-destun lle mae bwriad i'r gwrthwyneb yn gwbl glir. Er enghraifft, os yw natur pŵer yn golygu nad oes modd i'r pŵer gael ei arfer fwy nag unwaith, efallai y bydd yn briodol dibynnu ar y cyd-destun i ddisodli adran 15(1) o Ddeddf 2019.

Er hynny, nid yw adran 4(2) yn caniatáu i ddeddfwriaeth Cymru ddisodli'r rheol yn adran 5 o Ddeddf 2019 sy'n sefydlu statws cyfartal y ddau destun iaith mewn deddfwriaeth ddwyieithog.

Ar ben hynny, mae adran 4(3) yn darparu na all cyd-destun ddatgymhwyso effaith y darpariaethau canlynol yn Rhan 2 (fel mai dim ond darpariaeth bendant i'r gwrthwyneb sy'n ddigonol):

a) adran 10 (mae cyfeiriadau at amser yn gyfeiriadau at GMT neu BST);

b) adran 28 (mae deddfwriaeth Cymru'n rhwymo'r Goron);

c) adran 33 (nid yw diddymiadau a dirymiadau yn adfywio cyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd o'r blaen).

# Diffinio termau a ddefnyddir yn neddfwriaeth Cymru

Bydd Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn effeithio ar y ffordd y caiff diffiniadau eu defnyddio yn neddfwriaeth Cymru. I gael canllawiau cyffredinol ar ddefnyddio diffiniadau, gweler Pennod 4 o *Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw*. Mae paragraffau 4.10 i 4.12 yn arbennig o berthnasol i'r materion sy'n deillio o Ran 2 o Ddeddf 2019, ac yn cymryd y newidiadau a wnaed gan Ddeddf 2019 i ystyriaeth.

# Diffiniadau cyffredinol termau: Adran 6 ac Atodlen 1

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn cynnwys diffiniadau safonol o dermau sy'n debygol o gael eu defnyddio yn neddfwriaeth Cymru. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn darparu bod i'r geiriau a'r ymadroddion a restrir yn Atodlen 1 yr ystyr a roddir yn yr Atodlen honno pan gânt eu defnyddio mewn Deddfau ac mewn is-ddeddfwriaeth Gymreig y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddynt.

Er bod Atodlen 1 yn rhoi'r ystyron y bwriedir i'r termau a restrir eu mynegi yn neddfwriaeth Cymru fel arfer, mae modd rhoi ystyron gwahanol i'r termau hynny lle bo'n angenrheidiol neu'n briodol. Gall y

diffiniadau yn Atodlen 1 gael eu hepgor neu eu haddasu drwy unrhyw ddarpariaeth bendant a wneir i'r gwrthwyneb, neu os yw'r cyd-destun yn gofyn effaith wahanol. Er hynny, os ydych yn bwriadu rhoi ystyr gwahanol i derm cyffredin yn lle'r ystyr a fyddai iddo fel arfer, fe allai hynny fod yn arwydd y dylech ystyried defnyddio term gwahanol.

Mae llawer o'r diffiniadau yn Atodlen 1 yr un fath â'r diffiniadau cyfatebol yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, gan gynnwys y diffiniadau o "tir", "mis", "person" ac "ysgrifennu" yn ogystal â diffiniadau sy'n ymwneud â sefydliadau'r Deyrnas Unedig. Mae rhai diffiniadau wedi eu geirio'n wahanol i'r diffiniadau yn Neddf 1978 ond bwriedir iddynt gael yr un effaith â'r rhai yn Neddf 1978, gan gynnwys y diffiniadau sy'n ymwneud â throseddau a rhai diffiniadau sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE.

Mae Atodlen 1 yn rhestru rhai geiriau ac ymadroddion nad ydynt yn ymddangos yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ond sy'n debygol o fod yn berthnasol i ddeddfwriaeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys diffiniad safonol o "diwrnod gwaith" yn ogystal ag enwau amryw o gyrff datganoledig, sy'n cael eu diffinio drwy gyfeirio at y ddeddfwriaeth sy'n sefydlu neu'n enwi'r corff.

Mae rhai o'r diffiniadau yn Atodlen 1 yn awdurdodi defnyddio fersiynau llaw-fer o enwau statudol awdurdodau cyhoeddus. Er enghraifft, ceir diffiniadau sy'n golygu y gall deddfwriaeth Cymru gyfeirio at "Cyfoeth Naturiol Cymru" yn hytrach na defnyddio'i enw statudol (Corff Adnoddau Naturiol Cymru), a'r "Comisiwn Elusennau" yn hytrach na Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.

Yn ychwanegol, ceir diffiniadau penodol sy'n ymddangos yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 sy'n wahanol i'r diffiniadau a geir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978:

- Mae'r diffiniadau o lysoedd amrywiol yn Neddf 2019 yn cynnwys y llysoedd sy'n gweithredu o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr yn unig, tra bo'r diffiniadau yn Neddf 1978 hefyd yn cynnwys y llysoedd cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon. Os bydd angen, am unrhyw reswm, i ddeddfwriaeth Cymru gyfeirio at Lys yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen iddi gynnwys geiriad i wneud hynny'n glir (e.e. "yr Uchel Lys yng Ngogledd Iwerddon").
- Diffinnir "blwyddyn ariannol" at bob diben yn Neddf 2019, ond mae'r diffiniad yn gyfyngedig i amgylchiadau sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus yn Neddf 1978.
- Mae diffiniad "Cymru" yn Neddf 2019 yn atgynhyrchu effaith y diffiniad a geir yn adran 158(1) o Ddeddf 2006. Mae'r diffiniad yn ehangach na'r hyn a geir yn Neddf 1978, sy'n cynnwys ardaloedd y cynghorau yng Nghymru yn unig. Erbyn hyn, bydd y diffiniad diofyn o "Cymru" yn cynnwys *"y môr sy'n gyfagos i Gymru o fewn terfynau atfor y môr tiriogaethol"*. Os nad ydych am i'ch diffiniad chi o "Cymru" gynnwys y môr mor bell â therfynau atfor y môr tiriogaethol, efallai y bydd angen mewnosod diffiniad o "Cymru" sy'n gyfyngedig i ffin y tir yn eich Bil neu'ch offeryn. Er hynny, efallai na fydd hyn yn angenrheidiol os bydd darpariaethau eraill y ddeddfwriaeth yn egluro ei bod yn gymwys i bethau sy'n digwydd ar y tir neu o fewn pellter penodol i'r lan yn unig.
- Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn cynnwys diffiniad cynhwysfawr o "deddfiad" y bwriedir iddo gynnwys pob un o'r mathau o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru. Mae hyn yn golygu na ddylai fod angen diffinio "deddfiad" mewn deddfwriaeth Gymreig ar y cyfan (er y gall fod angen darpariaeth o hyd pan fwriedir i gyfeiriadau at ddeddfiad gynnwys deddfiadau yn y dyfodol sy'n dod yn gyfraith ar ôl y ddeddfwriaeth Gymreig sy'n cynnwys y cyfeiriad).
- Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2019 yn diffinio "is-ddeddfwriaeth" at ddibenion yr holl ddeddfwriaeth Gymreig, ond mae Deddf 1978 yn rhoi diffiniad sy'n berthnasol i Ddeddf 1978 yn unig. Mae hyn yn golygu na fydd yn angenrheidiol diffinio "is-ddeddfwriaeth" drwy gyfeirio at y diffiniad yn Neddf 1978.

Nid oes rhai diffiniadau yn Neddf 1978 wedi eu hailadrodd yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019, er enghraifft, "British overseas territory" a "London Borough" gan nad yw'r termau hyn yn debygol o gael eu defnyddio mewn cyd-destun Cymreig. Os ydych yn dymuno cynnwys termau o'r fath yn eich deddfwriaeth chi, meddyliwch a oes angen eu diffinio ar wyneb eich deddfwriaeth.

Mae Atodlen 1 i Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn cynnwys nifer o ddiwygiadau i Atodlen 1 i Ddeddf 2019, i adlewyrchu ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru a newidiadau perthynol yn y derminoleg (a ddaeth i rym ar 6 Mai 2020). Mae yna ddiwygiadau pellach i Atodlen 1 sy'n ymwneud â'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn sgil Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) a'r Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020.

Mae adran 6(2)(a)-(c) o Ddeddf 2019 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru fewnosod diffiniadau newydd o eiriau neu ymadroddion, dileu diffiniadau o eiriau neu ymadroddion neu ddiwygio diffiniadau o eiriau neu ymadroddion a gynhwysir yn Atodlen 1.

## Y berthynas rhwng ystyron termau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth

Nid yw Deddf 2019 yn cynnwys dim byd sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf 1978. Mae'r adran honno yn darparu bod i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr un ystyr ag yn y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth odani. Mae'n golygu y gall is-ddeddfwriaeth ddefnyddio termau a ddiffinnir yn y rhiant-ddeddfwriaeth heb fod angen diffinio'r termau hynny na nodi'r diffiniad perthnasol, ond fe all hyn faglu darllenwyr yr is-ddeddfwriaeth nad ydynt yn ymwybodol o adran 11.

Gan nad yw Deddf 2019 yn cynnwys darpariaeth fel adran 11 o Ddeddf 1978, bydd angen i ddrafftwyr is-offerynnau Cymru ystyried y ffordd orau o sicrhau bod i'r geiriau a ddefnyddir yn eu hofferyn nhw yr un ystyr ag yn y ddeddfwriaeth sylfaenol (os dyna'r bwriad).

O ganlyniad, dylai'r drafftwyr ystyried beth fydd yn fwyaf defnyddiol i'r sawl sy'n darllen yr is-ddeddfwriaeth. Os nad oes angen dim mwy na chymhwyso diffiniad yn y rhiant-Ddeddf neu Fesur, y dull mwyaf defnyddiol yn gyffredinol fydd copïo'r diffiniad yn yr is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn golygu nad oes rhaid i'r darllenydd gyfeirio at y Ddeddf neu'r Mesur i ddeall yr offeryn, ac yn achos is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig, bydd hefyd yn golygu y bydd y diffiniad ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg.

Os ydych yn ailadrodd diffiniadau o'r rhiant-Ddeddf, gwiriwch a oes unrhyw un neu ragor o'r diffiniadau hynny angen eu diwygio (er enghraifft, er mwyn perthyn i Gymru'n unig os yw'r rhiant-Ddeddf yn Ddeddf y Deyrnas Unedig) ac a ddefnyddir termau eraill a ddiffiniwyd yn y Ddeddf; os oes, efallai y bydd angen ailadrodd y diffiniadau eraill hynny hefyd. Cofiwch hefyd: os caiff y diffiniadau yn y rhiant-Ddeddf eu diwygio yn y dyfodol, fe all fod angen gwneud diwygiadau cyfatebol i'r diffiniadau yn yr is-ddeddfwriaeth.

Ni fydd ailadrodd diffiniadau o'r rhiant-Ddeddf yn briodol bob amser, er enghraifft os byddai'n arwain at gynnydd anghymesur ym maint yr offeryn neu'n dwyn sylw anghymesur i ddiffiniad technegol a fydd ond yn berthnasol mewn sefyllfaoedd cyfyngedig. Opsiwn arall yw i'r is-ddeddfwriaeth ddarparu bod i derm yr ystyr a roddir yn y rhiant-Ddeddf. Os byddwch yn mabwysiadu'r dull hwn, ceisiwch nodi'r ddarpariaeth yn y rhiant-Ddeddf sy'n diffinio'r term, fel bod y cyfeiriad mor ddefnyddiol â phosibl. Bydd y dull hwn yn golygu y bydd diwygiadau yn y dyfodol i'r diffiniad yn y rhiant-Ddeddf yn gymwys i'r is-ddeddfwriaeth hefyd, oni bai bod darpariaeth i'r gwrthwyneb neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall (gweler adran 25 o Ddeddf 2019).

Pan gaiff offerynnau eu gwneud o dan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, ni fydd y rhiant-ddeddfwriaeth yn cynnwys fersiynau Cymraeg o dermau. Yn yr achos hwn, dylai'r testun Cymraeg ei iaith ddarparu bod i ymadroddion a ddefnyddir yn yr offeryn yr un ystyr â'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y rhiant-ddeddfwriaeth.

Ni fydd bob amser yn ymarferol ailadrodd neu hyd yn oed gyfeirio at ddiffiniadau penodol yn y rhiant-Ddeddf. Yn yr achosion hyn, gall drafftwyr ystyried ychwanegu geiriau at yr offeryn sy'n atgynhyrchu effaith adran 11 o Ddeddf 1978. Gall hyn fod yn briodol hefyd os ydych yn bwriadu nid dim ond cymhwyso diffiniadau yn y rhiant-Ddeddf ond hefyd ddibynnu ar ffyrdd eraill y mae'r termau yn y rhiant-Ddeddf honno wedi magu ystyron, megis trwy'r gyfraith gyffredin.

Mae paragraffau 4.11 a 4.12 o *Drafftio Deddfau i Gymru: canllaw* yn cynnwys enghreifftiau o'r modd y gellir drafftio darpariaethau sy'n mabwysiadu pob un o'r dulliau hyn.

# Cymhwyso diffiniadau at dermau cysylltiedig

Darpariaeth newydd yw adran 9 o Ddeddf 2019. Pan fo Deddf neu offeryn yn diffinio gair neu ymadrodd, mae'n egluro bod rhannau ymadrodd sy'n ymwneud â'r gair neu'r ymadrodd yn cario'r diffiniad hefyd.

Er enghraifft, os caiff y gair "cerdded" ei ddiffinio, mae rhannau ymadrodd sy'n ymwneud â "cerdded", megis "cerddwr", i'w dehongli yng ngoleuni'r diffiniad hwnnw.

Ymhellach, mae adran 9 yn dileu unrhyw amheuaeth bod diffiniad o air neu ymadrodd yn gymwys er gwaethaf unrhyw amrywiad ar y gair neu'r ymadrodd hwnnw sy'n deillio o'r ffordd y mae rheolau gramadeg yn gweithio. O ran testun Cymraeg deddfwriaeth, mae'r adran hon yn ei gwneud yn glir bod diffiniad neu ystyr yn gymwys waeth beth fo unrhyw dreiglad neu amrywiad ar ymadrodd sy'n deillio o drefn geiriau a chystrawen brawddeg.

Mae adran 9 yn golygu nad oes angen cyffredinol i ddeddfwriaeth Gymreig sy'n diffinio gair neu ymadrodd ddarparu bod "ymadroddion cytras i'w darllen yn unol â hynny". Serch hynny, dylech ystyried bob amser a yw adran 9 yn rhoi'r canlyniad cywir, ac a fydd yn rhoi ystyr ddigon clir a chywir ar gyfer term cysylltiedig.

# Cyflwyno dogfennau drwy'r post ac yn electronig

Mae adrannau 13 a 14 o Ddeddf 2019 yn cynnwys darpariaethau sylfaenol ynghylch cyflwyno dogfennau drwy'r post ac yn electronig. Nid ydynt eu hunain yn awdurdodi nac yn gofyn bod unrhyw fath o ddogfen yn cael ei chyflwyno drwy ddefnyddio gwasanaethau post neu gyfathrebu electronig. Dim ond pan fo Deddf neu offeryn yn darparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r dulliau hynny y maent yn gymwys. Mater i Ddeddfau ac offerynnau unigol yw penderfynu a ganiateir y dulliau cyflwyno hynny, neu unrhyw ddulliau eraill, mewn cyd-destunau penodol.

Wrth ichi ddrafftio, gallwch ddewis dweud dim am sut y caiff y dogfennau eu cyflwyno, a mabwysiadu'r darpariaethau yn Neddf 2019. Er hyn, yn aml ni fydd hynny'n ddigon. Os ydych am wyro oddi wrth ddarpariaethau Deddf 2019, neu gynnwys rhagor o fanylion, dylech gynnwys darpariaethau pwrpasol ynghylch cyflwyno dogfennau ar wyneb y Bil neu'r is-offeryn Cymreig.

## Cyflwyno dogfennau drwy'r post

Mae adran 13(1) yn darparu y bernir bod y person wedi cyflwyno'r ddogfen, os yw'r person sydd i'w chyflwyno yn cyfeirio'n briodol lythyr sy'n cynnwys y ddogfen, yn talu ymlaen llaw am ei bostio, ac yn ei bostio at y derbynnydd.

Y bwriad yw bod rhoi cyfeiriad priodol ar y llythyr sy'n cynnwys y ddogfen yn golygu bod cyfeiriad post y derbynnydd arfaethedig yn ymddangos yn gywir ar y llythyr. Os oes angen pennu pa un neu ragor o gyfeiriadau derbynnydd a all gael eu defnyddio, er enghraifft mewn perthynas â chwmni sydd â nifer o swyddfeydd, mater i'r Ddeddf neu'r offeryn perthnasol fydd gwneud darpariaeth ynghylch y mater hwnnw.

Mae adran 14 yn darparu bod dogfen a gyflwynir drwy'r post yn cael ei thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno pan fydd yn cyrraedd "ar y diwrnod y byddai'r llythyr sy'n cynnwys y ddogfen yn cyrraedd yn nhrefn arferol y post". Gan hynny, bydd yr amser y bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno drwy'r post yn dibynnu ar y gwasanaeth post a ddefnyddir, a all gynnwys post dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth, neu ryw ddull arall o ddanfon post yn gynt. Ym mhob achos, pan ddefnyddir y post, caiff yr anfonwr bennu ar ba ddiwrnod y bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno drwy gyfeirio at yr amserau dosbarthu arferol ar gyfer y gwasanaeth a ddewisir. Gall y rhagdybiaeth hon gael ei gwrthbrofi â thystiolaeth i'r gwrthwyneb.

### Cyflwyno dogfennau'n electronig

Mae adran 13(2) yn arddel ymagwedd debyg i is-adran (1), ond o ran cyflwyno dogfennau drwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Rhaid i'r anfonwr gyfeirio'n briodol ac anfon at y derbynnydd gyfathrebiad electronig sy'n ffurfio, neu'n cynnwys y ddogfen, neu y mae'r ddogfen wedi ei hatodi iddo, a'i anfon at y derbynnydd; rhaid danfon y ddogfen ar ffurf electronig y gall y derbynnydd ei chyrchu a'i chadw.

Dim ond pan fo Deddf neu offeryn yn darparu bod rhaid i ddogfen gael ei hanfon neu y caniateir ei hanfon yn electronig y bydd is-adran (2) yn gymwys. Bydd hyn yn cynnwys anfon dogfennau drwy ebost, ffacs neu unrhyw fath arall o gyfathrebu electronig. Nid yw is-adran (2) yn benodol yn caniatáu cyfathrebiad electronig.

Mae rhoi cyfeiriad priodol ar gyfathrebiad electronig yn unol â'r gofyniad yn is-adran (2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r anfonwr sicrhau bod y neges ebost, y ffacs neu'r cyfathrebiad arall yn cael eu hanfon at gyfeiriad ebost, rhif ffacs neu gyfeiriad electronig arall sy'n ddilys ac y mae'n rhesymol disgwyl i'r derbynnydd ei gyrchu; a bod y cyfeiriad wedi ei roi'n gywir. Os oes eisiau gofynion ychwanegol mewn achosion penodol, megis cydsyniad ymlaen llaw i gyflwyno dogfennau drwy gyfathrebiadau electronig, rhaid iddynt gael eu nodi yn y Ddeddf neu'r offeryn perthnasol.

At hynny, ni fwriedir i is-adran (2) ganiatáu i ddogfen gael ei chyflwyno'n electronig drwy anfon dolen at ddogfen ar y rhyngrwyd, y mae'n rhaid i'r derbynnydd gymryd camau pellach wedyn i'w chyrchu.

Mae adran 14 yn ymdrin hefyd â'r dyddiad y bernir bod dogfennau wedi eu cyflwyno drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig. Er mwyn adlewyrchu natur ddi-oed bron cyfathrebu electronig, bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno ar y diwrnod y caiff ei hanfon. Gall y rhagdybiaeth hon gael ei gwrthbrofi â thystiolaeth i'r gwrthwyneb.

## Arfer pwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Cymru cyn iddi ddod i rym

Mae isadrannau (1) a (2) o adran 16 yn darparu y caniateir i bwerau a dyletswyddau o dan ddarpariaethau Deddfau Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig gael eu harfer cyn i'r darpariaethau hynny ddod i rym. Gall fod angen y pŵer hwn pan fydd angen dod â'r ddarpariaeth i rym, neu roi ei heffaith lawn i'r ddarpariaeth, ar neu ar ôl yr amser y deuant i rym.

Yn rhinwedd is-adran (1)(a), mae'r adran yn gymwys i ddarpariaethau mewn Deddfau os daw'r rheiny i rym ar amser a bennir yn y Ddeddf ac sy'n fwy nag un diwrnod ar ôl diwrnod y Cydsyniad Brenhinol (ond nid i ddarpariaethau sy'n dod i rym yn gynt neu a ddygir i rym drwy orchymyn neu reoliadau).

Mae adran 16(3) yn nodi at ba ddibenion y gellir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd cyn i'r ddarpariaeth berthnasol ddod i rym.

Mae adran 16(4) a (5) yn sicrhau bod y pŵer neu'r ddyletswydd yn gweithredu yn yr un modd ag a wnâi pan fyddai'r ddarpariaeth berthnasol mewn grym. Maent yn caniatáu dibynnu ar ddarpariaethau eraill nad ydynt mewn grym ond sy'n gysylltiedig â'r pŵer neu'r ddyletswydd neu'n atodol i'r pŵer neu'r ddyletswydd. Ymhellach, maent yn ei gwneud yn glir y bydd unrhyw gyfyngiadau neu amodau a fyddai'n gymwys i arfer y pŵer neu i gyflawni'r ddyletswydd pe bai'r Ddeddf neu'r offeryn yn llwyr weithredol hefyd yn gymwys pan gaiff y pŵer neu'r ddyletswydd eu harfer drwy ddibynnu ar adran 16.

Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 13 o Ddeddf 1978, ond mae'n gulach o ran ei chymhwyso. Yn benodol, nid yw adran 16 yn gymwys pan fo pŵer neu ddyletswydd i'w dwyn i rym drwy orchymyn neu reoliadau; mae'n egluro pryd yn union y mae'n galluogi'r pŵer neu'r ddyletswydd i gael eu harfer; ac mae'n darparu bod y pŵer neu'r ddyletswydd i'w harfer yn yr un modd â phe bai'r darpariaethau sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd mewn grym.

Bydd adran 13 o Ddeddf 1978 yn dal yn gymwys i bwerau a roddir a dyletswyddau a osodir gan Ddeddfau sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol cyn i Ran 2 o'r Ddeddf hon ddod i rym, a thrwy is-ddeddfwriaeth a wnaed cyn hynny, hyd yn oed os caiff y pwerau hyn eu harfer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ôl i Ran 2 ddod i rym.

Mae angen ystyried yr effaith bosibl y gall adran 16 o Ddeddf 2019 ei chael wrth ddrafftio'r adran mewn Bil neu is-offeryn Cymreig sy'n ymwneud â "dod i rym", ac wrth ystyried arfer pwerau cychwyn a phwerau a dyletswyddau eraill cyn i'r darpariaethau hynny ddod i rym. Mae'r ffaith nad yw adran 16 yn gymwys pan fo darpariaethau mewn Deddf i'w dwyn i rym drwy orchymyn yn gallu effeithio ar benderfyniadau ynghylch pa ddarpariaethau y dylid eu dwyn i rym drwy orchymyn cychwyn, a gall effeithio ar faint o orchmynion cychwyn y mae eu hangen i ddod â phwerau i rym. Er enghraifft, gall Rhan o Ddeddf gynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth y bydd angen ei harfer cyn i'r prif ddarpariaethau y maent yn cyfeirio atynt ddod i rym. Os yw'r Ddeddf yn darparu i'r cyfan o'r Rhan honno ddod gael ei dwyn i rym drwy orchymyn, efallai y bydd angen mwy nag un gorchymyn cychwyn. Os bernir bod hynny'n annymunol, dewis arall fyddai i'r Ddeddf ddarparu bod y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn dod i rym yn fuan ar ôl sicrhau'r Cydsyniad Brenhinol.

# Cyfeirio at ddeddfwriaeth arall a ddiwygiwyd

Mae adran 25 o Ddeddf 2019 yn mynd i'r afael â sefyllfa lle mae Deddf neu is-offeryn yn cyfeirio at ddeddfwriaeth arall, a bod y ddeddfwriaeth arall honno wedi ei diwygio, boed hynny cyn ynteu ar ôl i'r Ddeddf neu'r offeryn gael eu deddfu.

Mae adran 25 yn cyfateb i adran 20(2) o Ddeddf 1978, ond mae'n ceisio egluro i ba raddau y mae ei heffaith yn "newidiadwy" (h.y. i ba raddau y mae'n gymwys i gyfeiriad at ddeddfwriaeth a ddiwygir yn nes ymlaen). Mae'n egluro bod cyfeiriad at ddeddfiad yn cynnwys diwygiadau diweddarach iddo, gan gynnwys diwygiadau a wnaed ar ôl i'r Ddeddf neu'r offeryn sy'n cynnwys y cyfeiriad gael eu deddfu.

Mae adran 25 yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at ddeddfiad. Mae "deddfiad" wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 i gynnwys gwahanol fathau o ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, ac mae hefyd i gynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Mae adran 25 felly yn gymwys i gyfeiriadau at ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn y gyfraith ddomestig ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae hyn yn golygu, o ddiwedd y cyfnod gweithredu ymlaen, y bydd cyfeiriad mewn Deddf neu offeryn at ddarn o ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn y gyfraith ddomestig yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r ddeddfwriaeth honno yn y gyfraith ddomestig, boed hynny cyn ynteu ar ôl deddfu'r Ddeddf neu'r offeryn.

Mae'r adran hon yn ymestyn y diffiniad o "deddfiad" a geir yn Atodlen 1, sy'n golygu y bydd hefyd yn gymwys i gyfeiriadau yn Neddfau Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymru at ddeddfwriaeth yr Alban a Gogledd Iwerddon a'i bod felly yn ymdrin â'r ystod lawn o ddeddfwriaeth sy'n bodoli ar draws y Deyrnas Unedig.

# Cymhwyso deddfwriaeth at y Goron

Mae'r cwestiwn a yw Deddf neu is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron (hynny yw, a yw'r Goron yn dod o dan unrhyw ddyletswydd neu faich a osodir gan Ddeddf) yn gallu peri problemau. Y rheol yn y gyfraith gyffredin yw nad yw Deddfau ac is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron oni bai:

a. bod y Ddeddf yn darparu'n bendant ei bod yn rhwymo'r Goron,

b. bod y Goron wedi ei rhwymo drwy oblygiad angenrheidiol (er nad yw'r hyn sy'n gyfystyr â "goblygiad angenrheidiol" at ddibenion y rheol yn gwbl glir), neu

c. bod eithriadau eraill i'r rheol yn gymwys (er enghraifft, os yw'r Goron yn ymgyfreithiwr mewn achos sifil, mae'n dilyn o Ddeddf Achosion y Goron 1947 y bydd y Goron wedi ei rhwymo gan yr holl statudau perthnasol sy'n ymwneud ag achosion sifil).

Mae hyn yn golygu, yn niffyg darpariaeth bendant sy'n rhwymo'r Goron, fod angen ystyried y cwestiwn a yw Deddf yn rhwymo'r Goron drwy edrych ar y rheol a'i therfynau, ac wedyn penderfynu a yw natur, cyd-destun a chynnwys y Ddeddf o dan sylw yn golygu bod Senedd Cymru neu Senedd y Deyrnas Unedig wedi bwriadu i'r Goron gael ei rhwymo. Rhoddodd y Goruchaf Lys ganllawiau ar weithredu'r rheol yn *R (Black) v Secretary of Sate for Justice* [2017] UKSC 81.

Mae adran 28(1) o Ddeddf 2019 yn disodli rheol y gyfraith gyffredin â rheol statudol. O ran Deddfau y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, mae'n gwrth-droi sefyllfa'r gyfraith gyffredin i olygu mai'r rheol yw bod Deddf yn rhwymo'r Goron.

Yn unol ag adran 4(3) o Ddeddf 2019, mae'r rheol ddiofyn hon yn effeithiol ac eithrio i'r graddau y mae deddfwriaeth yn darparu'n bendant fel arall (er enghraifft, drwy ddatgan nad yw darpariaethau mewn Deddf benodol yn rhwymo'r Goron). Ni fydd cyd-destun Deddf benodol ynddi ei hun ac ohoni ei hun yn ddigon i wrthbrofi'r rhagdybiaeth hon.

Mae'r sefyllfa'n fwy cymhleth o ran is-ddeddfwriaeth. Mae adran 28(2) yn darparu bod is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 yn gymwys iddo yn rhwymo'r Goron os caiff ei wneud o dan ddeddfiad sy'n rhwymo'r Goron neu sy'n rhoi pŵer i rwymo'r Goron. Felly'r rheol o ran is-offerynnau Cymreig yw eu bod yn rhwymo'r Goron lle bynnag y bo modd iddynt wneud hynny. Serch hynny, yn rhinwedd adran 4(3) mae gweithredu'r rheol ddiofyn hon yn dal yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth bendant a wneir i'r gwrthwyneb.

Er mwyn deall effaith adran 28(2), mae angen penderfynu a yw'r ddeddfwriaeth y gwneir is-offeryn Cymreig odani yn rhwymo'r Goron neu'n rhoi pŵer i rwymo'r Goron. Os yw'r rhiant-ddeddfwriaeth yn Ddeddf y mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi, penderfynir ar hyn gan adran 28(1) o Ddeddf 2019 (yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth bendant i'r gwrthwyneb). Pan wneir is-offeryn Cymreig o dan ddeddfwriaeth nad yw Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddo (megis Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig), bydd y penderfyniad ar effaith adran 28(2) yn golygu ystyried sut mae rheol y gyfraith gyffredin yn cael ei chymhwyso at y rhiant-ddeddfwriaeth.

Pan fo deddfwriaeth yn darparu ei bod yn rhwymo'r Goron, mae hefyd fel arfer yn cynnwys darpariaeth yn egluro nad yw'n gwneud y Goron yn atebol yn droseddol, nid yw hyn yn atal personau yng Ngwasanaeth y Goron rhag bod yn atebol yn droseddol. Mae adran 28(3) yn gwneud darpariaeth gyffredinol i'r perwyl hwn mewn perthynas â Deddfau Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig (eto, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth bendant i'r gwrthwyneb). Gall fod angen rhagor o ddarpariaethau ynglŷn â'r Goron mewn rhai achosion. Gall y rhain gynnwys datganiad pendant na fydd y Ddeddf yn effeithio ar y Frenhines yn ei swyddogaeth breifat, neu na chaniateir arfer pŵer mynediad mewn perthynas â thir y Goron.

I gael rhagor o wybodaeth am gymhwyso deddfwriaeth at y Goron, gweler paragraff 10.4 o *Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw*.

## Statws cyfartal y testunau Cymraeg a Saesneg

Mae adran 5 o Ddeddf 2019 yn ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf 2006. Mae'n darparu bod gan y ddau destun iaith statws cyfartal i bob diben, pan fo Deddf gan Senedd Cymru neu is-offeryn yn cael eu deddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hyn yn golygu bod mynegiant llawn y gyfraith yn cael ei gynnwys yn y ddau destun, nid dim ond un.

Os ceir unrhyw amheuaeth ynghylch ystyr deddfwriaeth Gymreig, bydd angen ystyried y ddau fersiwn iaith er mwyn pennu'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei olygu. Dyma rywbeth sy'n effeithio ar bawb sy'n ymwneud â gwneud deddfwriaeth Cymru, ei gweithredu, ei gweinyddu a'i dehongli.

Bydd adran 156(1) o Ddeddf 2006 yn dal yn gymwys i Fesurau'r Cynulliad, Deddfau'r Cynulliad a ddeddfwyd cyn 1 Ionawr 2020, ac is-ddeddfwriaeth Gymreig na fydd Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gymwys iddi.

# Atodiad

## Rhan 2 o'i chymharu â Deddf 1978

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng Rhan 2 o Ddeddf 2019 a Deddf 1978. I gael esboniad a chymhariaeth fanylach, gweler Nodiadau Esboniadol Deddf 2019.

| Deddf 2019 | Sylwebaeth |
|---|---|
| Adran 7<br>Mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb | Yn gyfwerth ag adran 6(c) o Ddeddf 1978. |
| Adran 8<br>Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw | Yn gyfwerth ag adran 6(a) a (b) o Ddeddf 1978, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at y rhyweddau gwrywaidd a benywaidd ac felly mae iddi rychwant ehangach. |
| Adran 9<br>Amrywiadau ar air neu ymadrodd oherwydd gramadeg etc. | Dim byd yn gyfwerth yn Neddf 1978. |
| Adran 10<br>Cyfeiriadau at yr amser o'r diwrnod | Yn gyfwerth ag adran 9 o Ddeddf 1978. |
| Adran 11<br>Cyfeiriadau at y Brenin neu'r Frenhines | Yn gyfwerth ag adran 10 o Ddeddf 1978. |
| Adran 12<br>Mesur pellter | Yn gyfwerth ag adran 8 o Ddeddf 1978. |
| Adran 13<br>Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig | Yn cyfateb i adran 7 o Ddeddf 1978 ond yn ymdrin â chyflwyno dogfennau'n electronig hefyd. |
| Adran 14<br>Y diwrnod y bernir bod y dogfennau wedi eu cyflwyno | Yn cyfateb i adran 7 o Ddeddf 1978 ond yn ymdrin â chyflwyno dogfennau'n electronig hefyd. |
| Adran 15<br>Parhad pwerau a dyletswyddau | Yn gyfwerth ag adran 12 o Ddeddf 1978. |
| Adran 16<br>Arfer pŵer neu ddyletswydd nad yw mewn grym | Yn cyfateb i adran 13 o Ddeddf 1978, ond mae'n cynnwys nifer o wahaniaethau y bwriedir iddynt egluro ei rhychwant (sydd mewn rhai ffyrdd yn gulach) a'i heffaith. |
| Adran 17<br>Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth | Yn gyfwerth ag adran 14A o Ddeddf 1978. |

| Deddf 2019 | Sylwebaeth |
|---|---|
| Adran 18<br>Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth | Yn gyfwerth ag adran 14 o Ddeddf 1978, ond yn gymwys i ystod o is-ddeddfwriaeth sydd ychydig yn ehangach. |
| Adran 19<br>Diwygio is-ddeddfwriaeth gan un o Ddeddfau Senedd Cymru | Dim byd yn gyfwerth yn Neddf 1978. |
| Adran 20<br>Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl | Dim byd yn gyfwerth yn Neddf 1978. |
| Adran 21<br>Cyfeiriadau at ddarnau o ddeddfiadau, offerynnau a dogfennau | Yn gyfwerth ag adran 20(1) o Ddeddf 1978, ond mae'n gymwys i gyfeiriadau at ystod ehangach o offerynnau a dogfennau. |
| Adran 22<br>Yr argraffiad o Ddeddf gan Senedd Cymru neu Fesur Cynulliad y cyfeirir ato | Yn gyfwerth ag adran 19(1) o Ddeddf 1978 (o'i darllen gydag adran 23B o'r Ddeddf honno) ond bod y gwaith drafftio wedi'i ddiweddaru. |
| Adran 23<br>Yr argraffiad o Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir ato | Yn gyfwerth ag adran 19(1) o Ddeddf 1978, ond disgrifir y cyfeiriadau y mae'n gymwys iddynt mewn termau mwy cyffredinol. |
| Adran 25<br>Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau yn gyfeiriadau at ddeddfiadau fel y'u diwygiwyd | Yn gyfwerth ag adran 20(2) o Ddeddf 1978, ond yn egluro bod cyfeiriadau at ddeddfwriaeth arall yn "newidiadwy" (h.y. yn ymdrin â deddfwriaeth a ddiwygir yn nes ymlaen). |
| Adran 26<br>Cyfeiriadau at offerynnau'r UE | Yn gyfwerth ag adran 20A o Ddeddf 1978. |
| Adran 27<br>Troseddau dyblyg | Yn gyfwerth ag adran 18 o Ddeddf 1978, i'r graddau y mae'n ymwneud â dyblygu troseddau mewn darnau gwahanol o ddeddfwriaeth Cymru. |
| Adran 28<br>Cymhwyso deddfwriaeth Cymru at y Goron | Dim byd yn gyfwerth yn Neddf 1978. |
| Adran 29<br>Yr amser y daw deddfwriaeth Cymru i rym | Yn gyfwerth ag adran 4(a) o Ddeddf 1978. |
| Adran 30<br>Y diwrnod y daw Deddf gan Senedd Cymru i rym | Yn cyfateb i adran 4(b) o Ddeddf 1978 ond yn newid i diwrnod diofyn y daw Deddf i rym o'r diwrnod y mae'n cael y Cydsyniad Brenhinol i'r diwrnod *drannoeth* y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. |

| Deddf 2019 | Sylwebaeth |
|---|---|
| Adran 31<br>Gorchmynion a rheoliadau sy’n dwyn Deddf gan Senedd Cymru i rym | Dim byd yn gyfwerth yn Neddf 1978. |
| Adran 32<br>Diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth Gymreig neu ganddi | Dim byd yn gyfwerth yn Neddf 1978. |
| Adran 33<br>Nid yw diddymiadau a dirymiadau yn adfywio’r gyfraith a ddiddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd yn flaenorol | Yn gyfwerth ag adran 15 o Ddeddf 1978, ond wedi ei hymestyn i fod yn gymwys i ddiddymu deddfwriaeth a ddileodd reol yn y gyfraith gyffredin. |
| Adran 34<br>Arbedion cyffredinol mewn cysylltiad â diddymu a dirymu | Yn gyfwerth ag adran 16 o Ddeddf 1978, ond nid yw’n gymwys i ddiddymu deddfiad a ddileodd reol yn y gyfraith gyffredin (yr ymdrinnir ag ef yn adran 33 o Ddeddf 2019). |
| Adran 35<br>Effaith ailddeddfu | Yn gyfwerth ag adran 17(2) o Ddeddf 1978, ond wedi ei hymestyn i fod yn gymwys lle darperir ar gyfer y diddymiad a’r ailddeddfiad mewn Deddfau neu offerynnau gwahanol. |
| Adran 36<br>Cyfeirio at Ddeddf gan Senedd Cymru yn ôl ei henw byr ar ôl ei diddymu | Yn gyfwerth ag adran 19(2) o Ddeddf 1978. |

Yn ychwanegol, sylwch nad yw adran 11 o Ddeddf 1978 (sy’n darparu ar gyfer dehongli is-ddeddfwriaeth) wedi ei hailadrodd yn Neddf 2019. Ymdrinnir â hyn uchod o dan y pennawd *Y berthynas rhwng ystyron termau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth*.

# Rhan 3 – Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth mae Rhan 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei wneud? | 19 |
| Pwy sydd angen deall Rhan 3? | 19 |
| Pryd ddaeth Rhan 3 i rym? | 19 |
| Adran 38 | 20 |
| Adran 39 | 21 |
| Adran 40 | 24 |

# Beth mae Rhan 3 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn ei wneud?

Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau â chyfeiriadau at y dyddiadau gwirioneddol pan fydd y rheiny'n hysbys, ac mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn haws i Weinidogion Cymru gyfuno is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan bwerau gwahanol mewn un offeryn statudol.

# Pwy sydd angen deall Rhan 3?

Mae rhan 3 yn berthnasol yn bennaf i gyfreithwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n drafftio offerynnau statudol i Weinidogion Cymru. Bydd yn berthnasol hefyd i'r rhai sy'n ymwneud â chraffu ar offerynnau statudol Senedd Cymru ac i ddarllenwyr eraill offerynnau statudol Cymru.

I gael canllawiau ar ddrafftio offerynnau statudol Cymru, gweler hefyd ganllawiau drafftio deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, *Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw*.

# Pryd ddaeth Rhan 3 i rym?

Daeth Rhan 3 i rym ar 11 Medi 2019. Gellir dibynnu ar y darpariaethau yn Rhan 3 mewn offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru o'r dyddiad hwnnw ymlaen (neu offerynnau statudol caiff eu gosod gerbron y Senedd ar ffurf drafft ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw, yn achos offerynnau sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol).

# Adran 38: Pŵer i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru

## Beth mae adran 38 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w wneud?

Mae'r pŵer yn adran 38 yn bŵer sy'n sefyll ohono'i hun i wneud rheoliadau sy'n disodli disgrifiad o ddyddiad mewn deddfwriaeth (e.e. "y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Ddeddf hon i rym yn llawn") â chyfeiriad at y dyddiad gwirioneddol pan fydd hwnnw'n hysbys (e.e. "1 Ionawr 2020"). Diben y pŵer yw gwneud deddfwriaeth yn fwy hwylus ac yn haws ei deall. Gellir ei ddefnyddio i ddiwygio Deddfau Senedd Cymru a Mesurau'r Cynulliad, is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan bwerau datganoledig, a darpariaethau y mae deddfwriaeth ddatganoledig wedi eu mewnosod mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall. Does dim ots pryd cafodd y ddeddfwriaeth o dan sylw ei deddfu.

Mae Nodiadau Esboniadol y Ddeddf yn cynnwys disgrifiad manylach o adran 38.

## Pryd dylai'r pŵer yn adran 38 i fewnosod y dyddiadau gwirioneddol gael ei ddefnyddio?

Y sefyllfa fwyaf cyffredin lle mae'r pŵer yn debygol o gael ei ddefnyddio yw wrth wneud gorchymyn cychwyn i ddod â darpariaethau Deddf i rym. Ar yr un pryd ag y bydd y darpariaethau yn dod i rym, gellir diwygio unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio at y dyddiad y daw'r darpariaethau hynny i rym er mwyn cyfeirio at y dyddiad cychwyn gwirioneddol a bennir gan y gorchymyn. (Gellir cynnwys y diwygiadau hyn yn y gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i bwerau i wneud rheoliadau gael eu defnyddio i wneud gorchmynion.)

Wrth ichi ddrafftio gorchymyn cychwyn, ystyriwch a oes unrhyw ddiwygiadau o'r math hwn a allai gael eu cynnwys yn y gorchymyn. Dylai diwygiadau o'r math hwn gael eu gwneud lle bynnag y byddent yn helpu darllenwyr y ddeddfwriaeth drwy ddileu'r angen iddynt chwilio am orchmynion cychwyn er mwyn deall ystyr darpariaethau.

Efallai na fydd yn ddefnyddiol i orchymyn cychwyn gynnwys diwygiadau o dan adran 38 os yw'r drefn ar gyfer dod a dyfodiad darpariaeth i rym yn arbennig o gymhleth (er enghraifft, os daw i rym ar nifer o ddiwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol).

Gellid defnyddio'r pŵer yn adran 38 hefyd mewn unrhyw offeryn statudol arall lle mae'r cyfle'n codi, neu hyd yn oed mewn offeryn annibynnol sy'n gwneud diwygiadau o dan adran 38 yn unig.

## Pa ystyriaethau drafftio a allai godi wrth wneud diwygiadau o dan adran 38?

Os yw gorchymyn cychwyn neu offeryn statudol arall yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall o dan adran 38, bydd angen iddo wneud darpariaeth ynghylch pryd y daw'r diwygiadau hynny i rym.

Gall adran 38 gael ei defnyddio i ddisodli disgrifiad o ddyddiad â'r dyddiad gwirioneddol, ac i ychwanegu esboniad o'r dyddiad hwnnw i'r ddeddfwriaeth ddiwygiedig. Gall hyn ei gwneud yn haws i bobl weld arwyddocâd y dyddiad a grybwyllir.

Er enghraifft, gallai adran 38 gael ei defnyddio i ddisodli cyfeiriad at bethau a wnaed "cyn y dyddiad y daw adran X o Ddeddf Y i rym" â chyfeiriad syml at bethau a wnaed "cyn 1 Ebrill 2019" (neu beth bynnag oedd y dyddiad gwirioneddol). Er hynny, gallai darllenydd y ddeddfwriaeth ddiwygiedig feddwl wedyn beth ddigwyddodd tybed ar 1 Ebrill 2019 neu fe all y bydd angen iddo ganfod beth oedd y sefyllfa gyfreithiol o 1 Ebrill 2019 ymlaen. Gan hynny, dylai drafftwyr ystyried a fyddai'n ddefnyddiol cynnwys esboniad megis "1 Ebrill 2019 (y diwrnod y daeth adran X o Ddeddf Y i rym)".

Os defnyddir adran 38 i wneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd angen i Swyddfa'r Cwnsler Deddfwriaethol glirio'r gwelliannau hynny yn y modd arferol.

### Sut bydd cynnwys diwygiadau o dan adran 38 yn effeithio ar ffurf offeryn statudol neu'r weithdrefn ar gyfer ei wneud?

Os yw offeryn statudol yn cynnwys diwygiadau o dan adran 38, fe fydd angen i'r rhaglith enwi adran 38 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 fel un o'i bwerau galluogi.

Pan fydd diwygiadau o dan adran 38 yn cael eu cynnwys mewn gorchymyn cychwyn, ni ddylai'r rhaglith ddyfynnu'r pŵer yn adran 39 o'r Ddeddf (sy'n caniatáu i bwerau i wneud rheoliadau gael eu defnyddio i wneud gorchmynion). Er hynny, fe ddylai'r troednodyn sy'n cyd-fynd â'r cyfeiriad at adran 38 gynnwys esboniad o effaith adran 39. Awgrymir y geiriad a ganlyn ar gyfer y troednodyn:

> 2019 dccc 4. Gellir arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 38 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i wneud gorchymyn yn rhinwedd adran 39 o'r Ddeddf honno.

Ni fydd cynnwys diwygiadau o dan adran 38 mewn gorchymyn cychwyn neu offeryn statudol arall yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer yr offeryn. Nid yw'r pŵer yn adran 38 yn dod o dan unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd.

## Adran 39: Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol

### Beth mae adran 39 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w wneud?

Mae adran 39 yn gymwys pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth drwy offeryn statudol, a bod y pŵer yn pennu bod yr is-ddeddfwriaeth i'w gwneud ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn. Mae adran 39 yn galluogi'r is-ddeddfwriaeth i gael ei gwneud ar unrhyw un o'r ffurfiau hyn, ni waeth pa un a bennir. Er enghraifft, gellir defnyddio pŵer i wneud gorchymyn i wneud rheoliadau, neu i'r gwrthwyneb. Prif ddiben adran 39 yw hwyluso'r cyfuniad o ddarpariaethau a wneir o dan wahanol bwerau yn yr un offeryn statudol. I gael disgrifiad llawnach, gweler Nodiadau Esboniadol y Ddeddf.

Mae adran 39 yn gymwys i unrhyw bŵer neu ddyletswydd sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau, rheolau neu orchymyn drwy offeryn statudol, ni waeth sut na phryd y crëwyd y pŵer neu'r ddyletswydd. Mae'n gymwys i bwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, ac o dan ddeddfwriaeth a ddeddfwyd cyn ac ar ôl i'r adran ddod i rym – er bod hyn yn amodol ar rai cyfyngiadau a drafodir isod.

### Pryd dylai'r pŵer yn adran 39 i wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau gael ei ddefnyddio?

Gellir defnyddio'r pŵer yn adran 39 wrth wneud offeryn statudol sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth o dan wahanol bwerau, neu wrth wneud set o offerynnau statudol cysylltiedig. Mae'n golygu na fydd penderfyniadau ynghylch sut i drefnu'r deunydd yn cael eu pennu gan y gwahaniaeth, sy'n wahaniaeth mympwyol yn aml, rhwng rheoliadau, rheolau a gorchmynion. Felly, bydd gan ddrafftwyr fwy o ryddid i benderfynu a yw deunydd yn perthyn i'r un offeryn neu a ddylai gael ei roi mewn offerynnau ar wahân.

Dylai'r pŵer yn adran 39 gael ei ddefnyddio ble bynnag y mae'n ymddangos ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae'r cwestiwn a yw'n briodol cyfuno darpariaethau a wneir o dan wahanol bwerau yn yr un offeryn yn gallu dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, megis eu pwnc, eu cynulleidfa neu eu heffaith gyfreithiol. Yn gyffredinol, ein bwriad yw trefnu'r is-ddeddfwriaeth mewn modd sy'n rhesymegol ac yn hygyrch i ddefnyddiwr y ddeddfwriaeth. Dylai adran 39 gael ei hystyried hefyd gydag adran 40, sy'n ymdrin â chyfuno mewn un offeryn statudol ddarpariaethau sy'n dod o dan weithdrefnau gwahanol yn y Senedd.

## Oes unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer yn adran 39?

Gall y pŵer yn adran 39 gael ei ddefnyddio mewn unrhyw offeryn statudol a wneir o dan unrhyw Ddeddf gan Senedd Cymru neu Fesur Cynulliad. Er hynny, mae rhai pwyntiau ychwanegol i'w hystyried wrth wneud is-ddeddfwriaeth o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig (neu yn y dyfodol o dan unrhyw bwerau a fewnosodir i ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).

a. **Cymhwysiad daearyddol.** Nid yw adran 39 ar gael wrth wneud is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys heblaw o ran Cymru. Dim ond o ran Cymru y mae'r rhan fwyaf o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn arferadwy, ond mae ganddynt rai pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o ran "parth Cymru" (sy'n cynnwys y môr y tu hwnt i ffin atfor Cymru) ac "ardaloedd trawsffiniol" (sy'n cynnwys rhannau o Loegr sy'n gyfagos i'r ffin). Nid yw adran 39 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth o'r mathau hyn.

b. **Rhychwant.** Mae adran 39 yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig, ond mae rhai o bwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddfau Seneddol y Deyrnas Unedig yn ymestyn hefyd i'r Alban neu Ogledd Iwerddon (hyd yn oed os yw eu cymhwysiad ymarferol yn gyfyngedig i Gymru). Ni fydd adran 39 yn gymwys i bŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i'r graddau y mae'n ffurfio rhan o gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

   Os oes angen i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bŵer o'r fath ymestyn y tu hwnt i awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ni ddylid dibynnu ar adran 39 wrth wneud yr is-ddeddfwriaeth.

   Mewn rhai achosion, efallai y bydd modd defnyddio pŵer sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr i wneud offeryn sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig. Os felly, gellir cyflawni hynny drwy gynnwys darpariaeth yn yr offeryn sy'n cyfyngu ar ei rychwant, ac wedyn fe ddylai fod modd defnyddio adran 39. Er hynny, hyd yn oed os oes modd cyfyngu ar rychwant yr offeryn, efallai na fydd yn briodol gwneud hynny, er enghraifft os oes angen i bethau a wneir o dan yr offeryn gael eu cydnabod yng nghyfraith pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Bydd angen ystyried a allai effeithiau andwyol godi.

   Er mwyn penderfynu a yw'r materion hyn yn codi ai peidio, bydd angen gwirio'r darpariaethau ynglŷn â'r rhychwant yn Neddf Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth (sydd fel arfer i'w weld yn agos at ddiwedd y Ddeddf) ac ystyried pa rychwant sy'n briodol ar gyfer yr offeryn.

## A all adran 39 gael ei defnyddio mewn offeryn ar y cyd neu mewn offeryn cyfansawdd?

Mae adran 39 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn unig, ond mae gan Weinidogion y Goron bŵer cyfatebol i wneud is-ddeddfwriaeth mewn gwahanol ffurfiau o dan adran 105 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

O ran egwyddor, fe allai adran 39 gael ei defnyddio pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud offeryn statudol ar y cyd ag un o Weinidogion y Goron, neu pan fyddant yn gwneud offeryn "cyfansawdd" sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, a chan un o Weinidogion y Goron mewn perthynas â Lloegr neu mewn perthynas â materion nad ydynt wedi eu datganoli. Ond, yn ymarferol, gall materion sy'n ymwneud â chymhwysiad daearyddol a rhychwant achosi anawsterau.

Nid yw'n debygol y gallai adran 39 gael ei defnyddio mewn offeryn ar y cyd, gan fod offeryn ar y cyd yn debygol o gynnwys darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a chan Weinidogion y Deyrnas Unedig mewn perthynas ag ardal sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru. Gall y materion sy'n ymwneud â'r rhychwant cyfreithiol a drafodir uchod fod yn berthnasol hefyd.

Mewn offeryn cyfansawdd, bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru yn unig, felly mae'n bosibl na fydd problem o ran cymhwysiad daearyddol. Ond fe fydd angen ystyried o hyd a oes unrhyw anawsterau ynglŷn â rhychwant cyfreithiol yr offeryn.

## A ddylai offeryn sy'n dibynnu ar adran 39 gael ei alw'n orchymyn neu reolau neu reoliadau?

Y cyfan y mae adran 39 yn ei ddarparu yw y gall pŵer i wneud rheoliadau, rheolau neu orchymyn gael ei ddefnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth mewn unrhyw un o'r ffurfiau hyn; nid yw'n creu rhagdybiaeth y dylai offeryn cyfun gael ei wneud ar ffurf benodol.

Bydd angen i ddrafftwyr bwyso a mesur ym mhob achos a yw'n fwy priodol i offeryn fod yn orchymyn, yn set o reolau neu'n set o reoliadau. Gall fod yn berthnasol ystyried faint o'r offeryn a gaiff ei wneud o dan bwerau i wneud pob ffurf ar is-ddeddfwriaeth, a theitlau unrhyw offerynnau presennol yn y maes polisi perthnasol.

Ers 2014, mae deddfau'r Deyrnas Unedig a deddfau datganoledig at ei gilydd yn rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau. Os na fydd ystyriaethau eraill yn awgrymu'n glir y dylai offeryn cyfun gael ei wneud ar ffurf benodol, rheoliadau a ddylai gael eu gwneud.

Fel arfer, dylai ffurf a theitl yr is-ddeddfwriaeth gyfateb i un o leiaf o'r pwerau y mae'n cael ei gwneud odanynt. Er enghraifft, os gwneir yr holl ddarpariaethau mewn offeryn o dan bwerau i wneud gorchmynion a rheolau, mae'n debyg na fydd yn syniad da galw'r offeryn yn rheoliadau.

## Sut bydd dibynnu ar adran 39 yn effeithio ar gynnwys offeryn neu'r dogfennau ategol?

Os yw offeryn statudol yn cynnwys darpariaethau a wneir ar ffurf wahanol i'r ffurf a bennir yn y ddeddfwriaeth alluogi (er enghraifft, os yw set o reoliadau yn cynnwys darpariaethau a wnaed o dan bŵer i wneud gorchymyn), ni ddylai rhaglith yr offeryn ddyfynnu'r pŵer yn adran 39. Er hynny, fe ddylai'r troednodyn sy'n cyd-fynd â'r cyfeiriad at y pŵer galluogi perthnasol esbonio bod y pŵer yn cael ei ddefnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf wahanol yn rhinwedd adran 39. Gellir defnyddio'r ffurfeiriad a ganlyn, gydag addasiadau priodol:

> Gellir arfer y pŵer i wneud [gorchymyn] o dan adran [x] o Ddeddf [Y] i wneud [rheoliadau] yn rhinwedd adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

Bydd dibynnu ar adran 39 yn golygu bod offeryn yn cynnwys darpariaethau a fyddai fel arall wedi cael eu gwneud ar ffurf wahanol. Dylai'r adran o'r Memorandwm Esboniadol i'r offeryn sy'n ymdrin â materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad esbonio'n gryno pam y bernir bod hyn yn briodol.

Yn ogystal â nodi'r pwerau i wneud rheolau, rheoliadau neu orchmynion y gwneir yr offeryn odanynt, dylai'r adran ynghylch y cefndir deddfwriaethol yn y Memorandwm Esboniadol grybwyll bod adran 39 yn galluogi'r pwerau hynny i gael eu defnyddio i wneud darpariaeth ar ffurf wahanol.

## A fydd defnyddio adran 39 yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer gwneud offeryn?

Nid yw'r ffaith bod darpariaethau'n cael eu gwneud ar ffurf wahanol o dan adran 39, ynddi ei hun, yn effeithio ar weithdrefn y Senedd ar gyfer gwneud y darpariaethau hynny: gweler adran 39(2) o'r Ddeddf. Er enghraifft, os defnyddir pŵer i wneud gorchymyn er mwyn gwneud rheoliadau, bydd y rheoliadau yn dal i ddod o dan weithdrefn y Senedd sy'n gymwys i'r pŵer i wneud gorchymyn.

Er hynny, gall cyfuno darpariaethau o dan bwerau gwahanol yn yr un offeryn statudol effeithio ar weithdrefn y Senedd ar gyfer rhai o'r darpariaethau hynny yn rhinwedd adran 40 o'r Ddeddf.

# Adran 40: Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad

## Beth mae adran 40 yn ei wneud?

Mae adran 40 yn gymwys pan fo offeryn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a fyddai'n dod o dan fwy nag un math o weithdrefn yn y Senedd. Mae'n sicrhau bod yr offeryn yn dod o dan yr un "lymaf" o'r gweithdrefnau hynny yn unig. Er enghraifft, os yw offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol ac eraill a fyddai'n dod o dan y weithdrefn negyddol, mae'r offeryn cyfan yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol yn unig.

Mae adran 40 yn gymwys hefyd pan fo offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n dod o dan un o weithdrefnau'r Senedd ac eraill na fyddent yn dod o dan yr un weithdrefn. Er enghraifft, os yw offeryn yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n dod o dan yr weithdrefn negyddol ac eraill na fyddent yn dod o dan yr un o weithdrefnau'r Senedd, mae'r offeryn cyfan yn dod o dan y weithdrefn negyddol.

Mae adran 40 yn gymwys i unrhyw offeryn statudol a wneir gan Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys unrhyw ffurf ar is-ddeddfwriaeth, ni waeth sut neu pryd y crëwyd y pŵer neu'r ddyletswydd i wneud yr offeryn. Mae'n gymwys i bwerau a dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, ac o dan ddeddfwriaeth a ddeddfwyd cyn ac ar ôl Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 – er bod hyn yn amodol ar gyfyngiadau a drafodir isod.

Gellir defnyddio adran 40 ar y cyd ag adran 39, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth mewn ffurfiau gwahanol (e.e. drwy ddefnyddio pŵer i wneud gorchymyn i wneud set o reoliadau). Er enghraifft, os oes gan Weinidogion Cymru bŵer i wneud gorchymyn sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, a phŵer i wneud rheoliadau sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol, mae adrannau 39 a 40 yn eu galluogi i gyfuno'r pwerau mewn un offeryn statudol (a all fod yn orchymyn neu'n rheoliadau) a fydd yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

## Oes unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer yn adran 40?

Bydd adran 40 yn gymwys i unrhyw offeryn statudol a wneir o dan un o Ddeddfau Senedd Cymru neu Fesur Cynulliad.

Er hynny, mae yna gyfyngiadau ar gymhwyso adran 40 wrth wneud offeryn o dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig (neu yn y dyfodol o dan unrhyw bwerau a fewnosodir yn neddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir).

a. **Cymhwysiad daearyddol.** Nid yw adran 40 yn gymwys wrth wneud offeryn sy'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys heblaw o ran Cymru. Dim ond o ran Cymru y mae'r rhan fwyaf o swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn arferadwy, ond mae ganddynt rai pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o ran "parth Cymru" (sy'n cynnwys y môr y tu hwnt i ffin atfor Cymru) ac "ardaloedd trawsffiniol" (sy'n cynnwys rhannau o Loegr sy'n gyfagos i'r ffin). Nid yw adran 40 yn gymwys i offeryn sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth o'r mathau hyn.

b. **Rhychwant.** Mae adran 40 yn ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig, ond mae rhai o bwerau Gweinidogion Cymru o dan Ddeddfau Seneddol y Deyrnas Unedig yn ymestyn hefyd i'r Alban neu Ogledd Iwerddon (hyd yn oed os yw eu cymhwysiad ymarferol yn gyfyngedig i Gymru). Ni fydd adran 40 yn gymwys i offeryn statudol i'r graddau y mae'n ffurfio rhan o gyfraith yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

   Os oes angen i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ymestyn y tu hwnt i awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ni ddylid dibynnu ar adran 40 wrth wneud yr is-ddeddfwriaeth.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd modd defnyddio pŵer sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru a Lloegr i wneud offeryn sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr yn unig. Os felly, gellir cyflawni hynny drwy gynnwys darpariaeth yn yr offeryn sy'n cyfyngu ar ei rychwant, ac wedyn fe ddylai fod modd defnyddio adran 40. Er hynny, hyd yn oed os oes modd cyfyngu ar rychwant yr offeryn, bydd yn bwysig sicrhau na fydd hynny'n creu unrhyw effeithiau andwyol.

Er mwyn penderfynu a yw'r materion hyn yn codi ai peidio, bydd angen gwirio'r darpariaethau ynglŷn â'r rhychwant yn Neddf Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth (sydd fel arfer i'w weld yn agos at ddiwedd y Ddeddf) ac ystyried pa rychwant sy'n briodol ar gyfer yr offeryn.

## A all adran 40 gael ei defnyddio mewn offeryn ar y cyd neu offeryn cyfansawdd?

Mae adran 40 yn gymwys i offerynnau sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn unig, ac mae'n effeithio ar y weithdrefn yn Senedd Cymru yn unig. Does dim darpariaeth gyffredinol o'r math hwn sy'n gymwys i offerynnau sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y Goron, er bod yna ddarpariaethau tebyg ynghylch is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y pwerau eang yn Neddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

O ran egwyddor, fe ellid defnyddio adran 40 pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud offeryn ar y cyd neu offeryn cyfansawdd gydag un o Weinidogion y Goron. Ond, yn ymarferol, gall materion sy'n ymwneud â chymhwysiad daearyddol a rhychwant achosi anawsterau.

Nid yw'n debygol y gellid dibynnu ar adran 40 mewn offeryn ar y cyd, am fod offeryn ar y cyd yn debygol o gynnwys darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y Deyrnas Unedig o ran ardal sy'n ymestyn y tu hwnt i Gymru. Gall y materion sy'n ymwneud â'r rhychwant cyfreithiol a drafodir uchod fod yn berthnasol hefyd.

Mewn offeryn cyfansawdd, bydd Gweinidogion Cymru fel arfer yn gwneud darpariaeth o ran Cymru yn unig, felly mae'n bosibl na fydd problem o ran y cymhwysiad daearyddol. Ond fe fydd angen ystyried o hyd a oes unrhyw anawsterau yn ymwneud â rhychwant cyfreithiol yr offeryn.

## Dibynnu ar ddarpariaethau eraill sy'n debyg i adran 40

Mae rhai o Ddeddfau'r Deyrnas Unedig yn cynnwys darpariaethau tebyg i adran 40, sy'n ymdrin ag achosion lle byddai mwy nag un weithdrefn Senedd yn gymwys i offeryn a gâi ei wneud gan Weinidogion Cymru ac sy'n cymhwyso'r un "uchaf" o'r gweithdrefnau. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972[5] a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018[6].

Pan fo'r darpariaethau eraill hyn yn gymwys, efallai y byddai'n well dibynnu arnyn nhw yn hytrach nag adran 40 er mwyn osgoi'r anawsterau sy'n ymwneud â chymhwysiad daearyddol a rhychwant a grybwyllir uchod.

## Sut mae dibynnu ar adran 40 yn effeithio ar gynnwys offeryn neu'r dogfennau ategol?

Bydd angen i'r wybodaeth am y dyddiadau mewn print italig mewn offeryn statudol adlewyrchu'r gofynion gweithdrefnol sy'n gymwys i'r offeryn (e.e. rhaid i offeryn negyddol gynnwys y dyddiad y'i "gosodwyd"). Pan fo adran 40 yn gymwys i offeryn, dylai'r wybodaeth adlewyrchu'r weithdrefn sy'n gymwys yn rhinwedd adran 40.

Mewn offeryn sy'n dod o dan y weithdrefn negyddol, nid yw'r ddarpariaeth yn y rhiant-Ddeddf sy'n cymhwyso'r weithdrefn negyddol yn cael ei chrybwyll yn unman yn yr offeryn fel arfer. Gan hynny, does dim angen dyfynnu adran 40 nac yn rhaglith yr offeryn nac mewn troednodyn.

[5] Gweler paragraff 2A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972, fel y'i cymhwysir at Weinidogion Cymru gan baragraff 35A o Atodlen 11 i ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

[6] Gweler paragraff 38 o Atodlen 7 a pharagraff 4 o Atodlen 8.

Mewn offeryn sy'n dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, bydd y rhaglith yn dweud bod yr offeryn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn unol â'r ddarpariaeth sy'n gosod y weithdrefn honno. Pan fo offeryn cadarnhaol yn cynnwys darpariaethau na fyddai fel arall yn denu'r weithdrefn gadarnhaol, dylai'r cyfeiriad at y ddarpariaeth weithdrefnol yn y rhaglith gynnwys troednodyn yn egluro bod adran 40 yn gymwys[7]. Er enghraifft:

> Gweler hefyd adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) i weld darpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.

Bydd cymhwyso adran 40 yn golygu bod offeryn yn cynnwys darpariaethau a allai fod wedi eu gwneud mewn offeryn sy'n dod o dan weithdrefn Seneddol "lai caeth". (Er enghraifft, bydd offeryn cadarnhaol yn cynnwys darpariaethau a allai fod wedi eu gwneud mewn offeryn negyddol.) Dylai'r adran o'r Memorandwm Esboniadol ynglŷn â'r offeryn sy'n ymdrin â materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad esbonio'n gryno pam y bernir bod hyn yn briodol.

Dylai'r adran ar y cefndir deddfwriaethol yn y Memorandwm Esboniadol, yn ogystal â nodi'r weithdrefn y gwneir yr offeryn odani, nodi ei bod yn cynnwys darpariaethau a fyddai fel arall yn dod o dan weithdrefn wahanol ac esbonio effaith adran 40.

## Ydy adran 40 yn effeithio ar y gofynion ynglŷn ag ymgynghori a gweithdrefnau "manwl" y Senedd?

Mae adran 40 yn ymdrin â gweithdrefnau'r Senedd a fyddai'n gymwys fel arall i ddarpariaethau gwahanol a gynhwysir mewn offeryn statudol yn unig. Nid yw'n effeithio ar unrhyw ofynion i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad neu roi sylw i safbwyntiau neu gyngor cyn gwneud is-ddeddfwriaeth. Ac o ran offerynnau sy'n dod o dan weithdrefn "fanwl" neu "uwchgadarnhaol", nid yw adran 40 yn effeithio ar unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd cyn i fersiwn terfynol yr offeryn gael ei osod gerbron y Senedd.

Os yw offeryn yn cynnwys darpariaethau a wneir o dan nifer o bwerau gwahanol, a rhai yn unig ohonynt yn dod o dan ofynion ynglŷn ag ymgynghori, bydd y gofynion ymgynghori hynny yn dal yn gymwys yn yr un modd ag o'r blaen. Gallai hynny olygu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar rai o'r darpariaethau y maent yn bwriadu eu cynnwys yn yr offeryn, ond nid rhai eraill.

Yn ymarferol, efallai na fydd yn hawdd gwahaniaethu rhwng y darpariaethau yr oedd gofyn ymgynghori yn eu cylch a'r lleill. Gan hynny, efallai mai'r peth callaf fydd ymgynghori ar yr holl ddarpariaethau sydd i'w cynnwys yn yr offeryn. Ac efallai y bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno ymgynghori ar bob un o'r darpariaethau beth bynnag.

[7] Byddai'r un dull yn briodol pe bai unrhyw offeryn (gan gynnwys offeryn negyddol) y mae adran 40 yn gymwys iddo yn cyfeirio at y ddarpariaeth sy'n cymhwyso'r weithdrefn graffu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

## Canllawiau ar oblygiadau Rhan 2 o ran drafftio deddfwriaeth

SWYDDFA'R CWNSLERIAID DEDDFWRIAETHOL
OFFICE OF THE LEGISLATIVE COUNSEL



OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40020 ISBN digidol: 978-1-80038-590-0

# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Crynodeb o'r enwau a newidir gan Ddeddf 2020 1

Sut dylai deddfwriaeth gyfeirio at y ddeddfwrfa ar ôl i'w henw newid? 2

Sut dylai deddfwriaeth gyfeirio at aelodau'r ddeddfwrfa ar ôl y newid enw? 2

Sut dylai deddfwriaeth gyfeirio at Ddeddfau a Mesurau datganoledig ar ôl y newid enw? 3

Sut mae'r newid enw yn effeithio ar gyfeiriadau at y Cynulliad etc yn y ddeddfwriaeth bresennol? 3

Pa enwau a ddylai gael eu defnyddio mewn diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol ac mewn cyfeiriadau ati? 4

A fydd hi byth yn briodol cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru? 4

A ddylai offerynnau statudol gynnwys troednodiadau i esbonio'r newid enw? 5

Ble ca i ragor o gymorth? 5

Atodiad – Crynodeb o'r newidiadau i enwau 6

# Cyflwyniad

Mae Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (Deddf 2020) yn ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfau Cynulliad a gwahanol gyrff a swyddi sy'n ymwneud â'r Cynulliad. Cafodd y newidiadau yma effaith ar 6 Mai 2020. Mae'r nodyn hwn yn cynnwys canllawiau ar oblygiadau'r newidiadau o ran drafftio Biliau ac is-ddeddfwriaeth.

# Crynodeb o'r enwau a newidir gan Ddeddf 2020

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2020 yn gwneud y newidiadau a ganlyn.

- Newidir enw'r ddeddfwrfa o "National Assembly for Wales or Cynulliad Cenedlaethol Cymru" i "Senedd Cymru neu Welsh Parliament".
- Ailenwir "Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" (*"Acts of the National Assembly for Wales"*) yn "Deddfau Senedd Cymru" (*"Acts of Senedd Cymru"*).
- Rhoddir y teitl ffurfiol "Aelodau o'r Senedd" (*"Members of the Senedd"*) i aelodau'r ddeddfwrfa.
- Ailenwir "Clerc y Cynulliad" (*"Clerk of the Assembly"*) yn "Clerc y Senedd" (*"Clerk of the Senedd"*).
- Ailenwir "Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru" (*"National Assembly for Wales Commission"*) yn "Comisiwn y Senedd" (*"Senedd Commission"*).
- Ailenwir "Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" (*"National Assembly for Wales Commissioner for Standards"*) yn "Comisiynydd Safonau y Senedd" (*"Senedd Commissioner for Standards"*).
- Ailenwir "Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" (*"National Assembly for Wales Remuneration Board"*) yn "Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd" (*"Independent Remuneration Board of the Senedd"*).

Gwneir y newidiadau hyn drwy ddiwygio testun y ddeddfwriaeth a greodd y gwahanol gyrff a swyddi, yn enwedig Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Nodir y darpariaethau perthnasol yn yr Atodiad i'r ddogfen hon.

Mae paragraff 5 o Atodlen 1 i Ddeddf 2020 hefyd yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Deddf 2019) i fewnosod diffiniadau, sy'n berthnasol yn gyffredinol, o'r canlynol:

- "Senedd Cymru" (y term a ddefnyddir yn y ddwy fersiwn iaith o'r Atodlen)
- "Deddf gan Senedd Cymru" (*"Act of Senedd Cymru"*)
- "Aelod o'r Senedd" (*"Member of the Senedd"*)
- "Comisiwn y Senedd" (*"Senedd Commission"*)

Mae'r diffiniadau hyn yn gweithredu ochr yn ochr â'r darpariaethau yn adran 150A o Ddeddf 2006, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 2(7) o Atodlen 1 i Ddeddf 2020. Mae adran 150A(2) yn darparu bod cyfeiriadau at Senedd Cymru, Deddfau Senedd Cymru a Chomisiwn y Senedd yn ôl eu hen enwau yn cynnwys yr enwau newydd a roddir gan Ran 2 o Ddeddf 2020[1]. Mae adran 150A(3) yn darparu bod cyfeiriadau atynt wrth eu henwau newydd yn cynnwys yr enwau blaenorol. (Gweler isod i gael trafodaeth ac enghreifftiau.)

[1] Cyfeirir at hyn ym mhennawd yr adran fel "translation" o'r naill derm i'r llall. Rhaid peidio â chymysgu hyn â chyfieithu rhwng ieithoedd.

# Sut dylai deddfwriaeth gyfeirio at y ddeddfwrfa ar ôl i'w henw newid?

Polisi drafftio Llywodraeth Cymru yw defnyddio'r enw "Senedd Cymru" yn nhestunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth, ac **nid** defnyddio'r enw "Welsh Parliament" yn y testun Saesneg. Er enghraifft, bydd darpariaeth i offeryn statudol ddod o dan y weithdrefn negyddol yn nodi yn y testun Saesneg bod yr offeryn yn "subject to annulment in pursuance of a resolution of Senedd Cymru". O ran cymhwyso'r polisi hwn at ddiwygiadau i ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig a deddfwriaeth bresennol Cymru, gweler isod.

Yn y gorffennol, defnyddiodd deddfwriaeth fersiynau byr o enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn gwneud darpariaethau yn haws i'w darllen. Er enghraifft, gallai darpariaeth ddefnyddio'r enw llawn y tro cyntaf y mae'n sôn am y sefydliad, ac yna defnyddio "y Cynulliad" neu "y Cynulliad Cenedlaethol" wrth gyfeirio ato wedyn; neu gallai Deddf neu offeryn ddefnyddio'r term "y Cynulliad" a'i ddiffinio i olygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn aml, nifer fach iawn yn unig o gyfeiriadau ati a geir mewn deddfwriaeth sy'n cyfeirio at y ddeddfwrfa (e.e. gallai Deddf grybwyll y ddeddfwrfa yn yr adran am weithdrefnau ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth yn unig). Yn yr achosion hyn, at ei gilydd fe fydd yn symlach defnyddio'r teitl llawn "Senedd Cymru" ym mhob cyfeiriad. Er hynny, fe allai fod yn briodol cwtogi hyn i "y Senedd" mewn deddfiad sy'n cynnwys mwy o gyfeiriadau at y sefydliad, a bydd defnyddio "y Senedd" yn gyson â'r modd y mae'r ddeddfwrfa yn cyfeirio ati hi ei hun ar y cyfan. Os byddwch yn mabwysiadu'r dull hwn, bydd angen ichi egluro bod "y Senedd" yn golygu Senedd Cymru. Gallwch wneud hynny drwy gynnwys diffiniad (fel yn adran 1 o Ddeddf 2006 ac adran 41 o Ddeddf 2020) neu drwy ddefnyddio'r enw llawn y tro cyntaf y crybwyllir y sefydliad mewn adran neu reoliad (a'r ffurf fyrrach mewn cyfeiriadau yn nes ymlaen yn yr un adran neu reoliad).

Yn ychwanegol, mae deddfwriaeth weithiau wedi defnyddio termau diffiniedig sy'n cynnwys cyfeiriadau llaw-fer at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn hytrach na'i deitl llawn, megis "gweithdrefn y Cynulliad". Gallai'r dull hwn fod yn ddefnyddiol o hyd. Yn dilyn newid yr enw, gallai label o'r math hwn gynnwys cyfeiriad llaw-fer at y Senedd, felly gellid defnyddio'r ymadrodd "gweithdrefn y Senedd".

Senedd Cymru yw'r un sefydliad ag a sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf 2006 ac a elwid gynt yn Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly bydd cyfeiriad at "Senedd Cymru" yn cynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru lle bo hynny'n berthnasol, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall (gweler adran 150A(3) o Ddeddf 2006 a'r diffiniad o "Senedd Cymru" yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019).

# Sut dylai deddfwriaeth gyfeirio at aelodau'r ddeddfwrfa ar ôl y newid enw?

Fel y cafodd ei deddfu'n wreiddiol, gwnaeth Rhan 1 o Ddeddf 2006 ddarpariaeth ynghylch aelodaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gyfeirio at ei aelodau fel "Assembly members", ond ni roddodd deitl statudol i aelodau i'w ddefnyddio mewn deddfwriaeth arall.

Mae adran 4 o Ddeddf 2020 yn mewnosod adran 1(2A) newydd yn Neddf 2006, sy'n darparu y caiff aelodau eu galw'n "Aelodau o'r Senedd neu Members of the Senedd". Gan hynny, o 6 Mai 2020 cafodd aelodau'r ddeddfwrfa y teitlau statudol hyn, a dylid eu defnyddio bob amser wrth gyfeirio atynt.

Sylwch mai'r teitl statudol Cymraeg yw "Aelod o'r Senedd" ac nid "Aelod o Senedd Cymru". Yn yr un modd, y teitl Saesneg yw "Member of the Senedd" ac nid "Member of Senedd Cymru" na "Member of the Welsh Parliament". Yn y teitlau newydd, mae "Aelod" a "Member" bob amser yn dechrau â phriflythyren.

## Sut dylai deddfwriaeth gyfeirio at Ddeddfau a Mesurau datganoledig ar ôl y newid enw?

Yn dilyn y newid enw, dylai cyfeiriad cyffredinol at Ddeddfau datganoledig gyfeirio at "Deddfau Senedd Cymru" yn Gymraeg ac "Acts of Senedd Cymru" yn Saesneg. Yn yr unigol, dylid cyfeirio'n gyffredinol at "Deddf gan Senedd Cymru" neu "ân Act of Senedd Cymru". Bydd y cyfeiriadau hyn yn cynnwys Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a basiwyd cyn newid enw'r ddeddfwrfa, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall (gweler adran 150A o Ddeddf 2006 a'r diffiniad o "Deddf gan Senedd Cymru" yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019).

Er enghraifft, os yw Deddf yn darparu bod rheoliadau yn dod o dan weithdrefn gadarnhaol y Senedd os yw'n diwygio "Deddf gan Senedd Cymru", bydd y ddarpariaeth honno yr un mor gymwys i reoliadau sy'n diwygio Deddf a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn i'w enw gael ei newid.

Yn y gorffennol, cyfeiriai deddfwriaeth weithiau at "Deddfau'r Cynulliad" yn hytrach na defnyddio'r teitl llawn "Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru" (a chafwyd ategiad i ddefnyddio "Deddf Cynulliad" yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019, drwy gynnwys diffiniad cyffredinol o'r ymadrodd hwnnw). Yn dilyn y newid enw, dylai fod llai o angen i ddisgrifio Deddfau gan ddefnyddio fersiwn fyrrach o'u henwau, gan fod "Deddfau Senedd Cymru" eisoes gryn dipyn yn fyrrach na'r enw blaenorol.

Gall Deddf benodol fod naill ai'n Ddeddf gan Senedd Cymru ynteu'n Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unig. (Nid yw Rhan 2 o Ddeddf 2020 yn troi Deddfau unigol a basiwyd gan y Cynulliad yn Ddeddfau Senedd Cymru.) Beth bynnag, bydd cyfeiriad at Ddeddf benodol fel rheol yn defnyddio teitl y Ddeddf, na fydd y newidiadau terminoleg yn Rhan 2 o Ddeddf 2020 yn effeithio arno.

Nid yw Mesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a ddeddfwyd i gyd rhwng 2008 a 2011, yn cael eu hailenwi gan Ran 2 o Ddeddf 2020. Gan hynny, dylai cyfeiriad cyffredinol at Fesurau gyfeirio o hyd at "Mesurau'r Cynulliad" neu " Assembly Measures". Mae'r enw llaw-fer hwnnw wedi ei ddiffinio at ddibenion cyffredinol yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019.

Os oes angen ichi gyfeirio at yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol a basiwyd gan y ddeddfwrfa ddatganoledig (er enghraifft, os ydych yn gosod y weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol), bydd angen ichi gyfeirio at Ddeddfau Senedd Cymru ac at Fesurau'r Cynulliad.

## Sut mae'r newid enw yn effeithio ar gyfeiriadau at y Cynulliad etc yn y ddeddfwriaeth bresennol?

Pan fo deddfwriaeth bresennol (neu unrhyw ddogfen arall) yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Deddfau'r Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad, o 6 Mai 2020 ymlaen fe fydd y cyfeiriadau hyn yn cael eu darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at Senedd Cymru, Deddfau Senedd Cymru a Chomisiwn y Senedd. Dyna effaith adran 150A o Ddeddf 2006, sy'n berthnasol i bob deddfiad, p'un a yw wedi ei wneud gan sefydliadau datganoledig ynteu sefydliadau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Deddf 2006 ei hun.

Er enghraifft, bydd darpariaeth ynghylch gweithdrefn y Cynulliad ynglŷn ag offerynnau statudol yn dod yn ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn gyfatebol yn y Senedd ynglŷn ag offerynnau a wneir ar ôl y newid enw; a bydd cyfeiriad mewn deddfwriaeth at berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys person sy'n arfer swyddogaethau o dan Ddeddf gan Senedd Cymru.

# Pa enwau a ddylai gael eu defnyddio mewn diwygiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol ac mewn cyfeiriadau ati?

Pan fo darn newydd o ddeddfwriaeth yn cyfeirio at ddarpariaethau mewn deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, neu'n disgrifio'r rhain, a bod y darpariaethau hyn hefyd yn berthnasol i Senedd Cymru, at Senedd Cymru y dylai'r cyfeiriad neu'r disgrifiad gyfeirio. Er enghraifft, mae adran 76 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn darparu y caiff y Cynulliad ddirprwyo swyddogaethau penodol sydd ganddo o dan y Ddeddf honno. O 6 Mai 2020 ymlaen, os bydd deddfiad arall yn cael ei wneud i ddiwygio adran 76 gan roi disgrifiad parenthetig o'i bwnc, byddai angen i'r disgrifiad gyfeirio at swyddogaethau Senedd Cymru yn hytrach na swyddogaethau'r Cynulliad.

Er hynny, dylai cyfeiriadau at deitlau deddfiadau presennol, neu ddyfyniadau o destun deddfiadau presennol, ddefnyddio'r geiriau sy'n ymddangos mewn gwirionedd yn y deddfiadau, hyd yn oed os ydynt yn defnyddio'r hen enwau sy'n ymwneud â'r Cynulliad.

Os ydych chi wrthi'n diwygio deddfiad sy'n cynnwys cyfeiriadau sy'n ymwneud â'r Cynulliad, bydd angen i unrhyw ddeunydd newydd y byddwch yn ei fewnosod yn y deddfiad ddefnyddio'r enwau newydd sy'n ymwneud â Senedd Cymru. Er enghraifft, os oes Deddf bresennol yn cynnwys gofynion bod rhaid i ddogfennau gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dylai unrhyw ddarpariaethau newydd ynghylch gosod dogfennau sydd i'w mewnosod yn y Ddeddf ddarparu ar gyfer gosod y dogfennau gerbron Senedd Cymru.

Pan fyddwch yn diwygio deddfiad i fewnosod deunydd newydd sy'n cyfeirio at Senedd Cymru, does dim angen diweddaru cyfeiriadau presennol at y Cynulliad yn y deddfiad hwnnw fel eu bod yn defnyddio'r enwau newydd. Er hynny, fe all fod yn briodol gwneud hynny os yw'n helpu i ddrafftio'r diwygiadau, neu pe bai'r testun diwygiedig yn mynd yn ddryslyd neu'n anodd ei ddarllen fel arall.

Mae'r polisïau hyn yn gymwys p'un a ydych yn diwygio deddfwriaeth Cymru neu ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig (gan gynnwys Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion y Goron).

Wrth ystyried materion o'r math hwn, cofiwch fod cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn darpariaethau a ddeddfwyd neu a ddiwygiwyd cyn mis Mai 2007 yn golygu'r Cynulliad a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (Deddf 1998), a oedd yn endid gwahanol i'r Cynulliad a sefydlwyd gan Ddeddf 2006. Mae'r mwyafrif o'r cyfeiriadau hyn bellach yn golygu Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r ddeddfwrfa ddatganoledig: gweler paragraffau 30-32 o Atodlen 11 i Ddeddf 2006. Gan hynny nid yw Deddf 2020 yn effeithio ar y cyfeiriadau hyn (gan nad yw Deddf 2020 yn diwygio Atodlen 11 i Ddeddf 2006).

# A fydd hi byth yn briodol cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

Yn dilyn ailenwi Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ni ddylai deddfwriaeth gyfeirio ato wrth yr enw hwnnw a dylid ddefnyddio Senedd Cymru yn lle hynny.

Mae'n bosibl y bydd achosion o hyd lle mae angen cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf 1998 (ac a ddiddymwyd gan Ddeddf 2006), ac fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru y dylid cyfeirio at y Cynulliad hwnnw. Er enghraifft, weithiau mae angen cyfeirio'n gyffredinol at is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad hwnnw neu gan Weinidogion Cymru. A gall fod angen i droednodiadau i offerynnau statudol esbonio bod y pwerau y maent yn cael eu gwneud odanynt wedi eu trosglwyddo oddi wrth un o Weinidogion y Goron i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf 1998 ac wedyn i Weinidogion Cymru.

## A ddylai offerynnau statudol gynnwys troednodiadau i esbonio'r newid enw?

Pan fo offeryn statudol yn dod o dan y weithdrefn gadarnhaol, bydd angen i raglith yr offeryn gofnodi bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

Os yw'r offeryn i gael ei wneud o dan Ddeddf neu Fesur a basiwyd cyn y newid enw, bydd y darpariaethau gweithdrefnol yn y Ddeddf neu'r Mesur yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Er hynny, erbyn hyn byddant yn cael effaith fel petaent yn cyfeirio at Senedd Cymru yn rhinwedd y glos yn adran 150A(2) o Ddeddf 2006. Dylai'r cyfeiriad at y darpariaethau gweithdrefnol yn rhaglith yr offeryn gynnwys troednodyn yn esbonio sut mae adran 150A(2) yn effeithio arnynt. O ran offeryn sy'n dod o dan y weithdrefn "gadarnhaol ddrafft" safonol, awgrymir y geiriad a ganlyn:

> Mae'r cyfeiriad yn [adran x] at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael effaith bellach fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Gall hefyd fod yn briodol cynnwys troednodyn o'r math hwn pan fo darpariaeth yng nghorff offeryn statudol yn cyfeirio at Senedd Cymru ac yn crybwyll darpariaeth sy'n cynnwys cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr effeithir arni gan adran 150A(2). Os oes sawl cyfeiriad o'r math hwn, gall un troednodyn ymdrin â'r mater yn gyffredinol y tro cyntaf y sonnir am Senedd Cymru. Er enghraifft:

> Mae cyfeiriadau yn [Neddf X] at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael effaith bellach fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

## Ble ca i ragor o gymorth?

Os byddwch yn dod ar draws achos lle nad yw'r glosau yn adran 150A o Ddeddf 2006 fel pe baent yn gwneud popeth y mae ei angen i adlewyrchu'r newidiadau enw o dan Ddeddf 2020, rhowch wybod i'r Tîm Cyfraith Gyfansoddiadol yn yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

Os ydych yn credu bod Rhan 2 o Ddeddf 2020 yn arwain at fater drafftio nad yw wedi'i drafod yn y ddogfen hon, neu nad yw'r canllawiau yn y ddogfen hon yn briodol ar gyfer y sefyllfa benodol yr ydych yn ymdrin â hi, cysylltwch â Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol.

# Atodiad – Crynodeb o'r newidiadau i enwau

Mae adran 2 o Ddeddf 2020 yn diwygio adran 1 o Ddeddf 2006 fel bod y cyfeiriad at "National Assembly for Wales or Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yn cael ei ddisodli gan "Senedd Cymru neu the Welsh Parliament". Er hynny, polisi Llywodraeth Cymru yw cyfeirio at y ddeddfwrfa fel "Senedd Cymru" (neu, lle bo'n briodol, y "Senedd") a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg. Adlewyrchir hyn yn y diffiniad a fabwysiadwyd yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 5(7) o Atodlen 1 i Ddeddf 2020).

Mae'r newidiadau eraill i enwau fel a ganlyn:

| Cymraeg | | Saesneg | | Y deddfiad a roddodd yr enw | Y ddarpariaeth ddiwygio yn Neddf 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| O | To | O | I | | |
| Deddfau Cynulliad Cendlaethol Cymru | Deddfau Senedd Cymru | Acts of the National Assembly for Wales | Acts of Senedd Cymru | Ffurfiau lluosog yn adran 107 o deddf 2006 | Adran 3 |
| Deddf (gan) Cynulliad Cendlaethol Cymru | Deddf gan Senedd Cymru | Act of the National Assembly for Wales | Act of Senedd Cymru | Ffurfiau unigol yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019 | Atodlen 1 para 5(7) |
| Aelod(au) Cynulliad Cendlaethol Cymru | Aelod(au) o'r Senedd | Member(s) of the National Assembly for Wales | Member(s) of the Senedd | Enwau newydd yn adran 1(2A) o Ddeddf 2006<br>Hefyd Atodlen 1 i Ddeddf 2019<br>Dim teitl statudol yn Neddf 2006 fel y'i deddfwyd | Adran 4<br>Atodlen 1 para 5(7) |
| Clerc y Cynulliad | Clerc y Senedd | Clerk of the Assembly | Clerk of the Senedd | Adran 26(2) o Ddeddf 2006 | Adran 5 |
| Comisiwn Cynulliad Cendlaethol Cymru | Comisiwn y Senedd | National Assembly for Wales Commission | Senedd Commission | Adran 27(1) o Ddeddf 2006<br>Hefyd Atodlen 1 i Ddeddf 2019 | Adran 6<br>Atodlen 1 para 5(7) |
| Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Comisiynydd Safonau y Senedd | National Assembly for Wales Commissioner for Standards | Senedd Commissioner for Standards | Adran 1(1) o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 | Adran 7 |
| Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd | National Assembly for Wales Remuneration Board | Independent Remuneration Board of the Senedd | Adran 1(1) o Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 | Adran 8 |

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Mai 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Ebrill ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd. Fel y gwyddoch, mae'r gwaith o graffu ar y Bil wedi'i oedi ar hyn o bryd ac, o ganlyniad, cytunwyd ar ddyddiad adrodd diwygiedig ar gyfer adroddiad y Pwyllgor. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am fod mor ystyriol o effaith yr amgylchiadau digynsail rydym yn eu hwynebu ac am ganiatáu i mi gyflwyno fy ymatebion ar ffurf gohebiaeth.

Rwyf wedi darparu gwybodaeth ychwanegol fel yr holwyd amdano yn y ddogfen atodedig.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**<u>Ymatebion i gwestiynau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil yr Amgylchedd y DU</u>**

**<u>Cyffredinol</u>**

**1. A ydych chi'n credu bod y Bil, a'r holl ddarpariaethau sydd ynddo, yn angenrheidiol? Os felly, a allech egluro pam.**

Ni allaf roi sylwadau ar y Bil ehangach gan mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn. Fodd bynnag, o ran y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar gyfer Gweinidogion Cymru, gallaf gadarnhau fy mod yn ystyried bod y rhain yn angenrheidiol.

Mae Bil yr Amgylchedd yn cefnogi cydrwymedigaeth y DU i drosi Pecyn Economi Gylchol yr UE (CEP). Yn ogystal â bodloni anghenion y darpariaethau CEP, bydd y Bil yn cefnogi uchelgais Cymru i symud i economi fwy cylchol hefyd. Mae'n darparu'r adnoddau deddfwriaethol i gefnogi'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â throseddau gwastraff, taflu sbwriel, gwella cyfraddau ailgylchu, cymell effeithlonrwydd adnoddau a sicrhau bod cynhyrchwyr yn talu am gostau diwedd oes y cynhyrchion a'r deunyddiau a roddir ar y farchnad.

Yn ogystal, mae'r darpariaethau deddfwriaethol presennol o fewn un darn o ddeddfwriaeth ac er mwyn darparu parhad a hygyrchedd i ddefnyddwyr mae'r Bil yn darparu un ffynhonnell i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol a thrwy hynny leihau nifer y gwelliannau o fewn y ddeddfwriaeth ffynhonnell.

Mewn perthynas ag ansawdd aer mae cymal 70 a Rhan 2 o Atodlen 12 yn diwygio Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993, mewn perthynas â Chymru. Effaith y diwygiad arfaethedig i Ddeddf Aer Glân 1993 yw creu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestri ar gyfer cofnodi tanwyddau awdurdodedig a mathau eithriedig o leoedd tân y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon yn Ardaloedd Rheoli Mwg Cymru ac i symud oddi wrth wneud is-ddeddfwriaeth i gyflawni'r nod hwn. Y sail resymegol dros ddefnyddio Bil Amgylchedd y DU yw sicrhau manteision i weithgynhyrchwyr a defnyddwyr cyn gynted â phosibl. Bydd busnesau/gweithgynhyrchwyr yn elwa wrth i'r oedi rhwng cael argymhelliad gan yr arbenigwyr technegol sy'n argymell cynhyrchion i'w defnyddio a rhoi cynnyrch ar y farchnad gael ei leihau; bydd mabwysiadu rhestri cyhoeddedig yn lleihau'r lwfans ansicrwydd wrth gofnodi a diweddaru'r rhestri o gynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon; a bydd proses symlach, fwy effeithiol yn cynyddu dewis y defnyddiwr wrth i fwy o gynhyrchion ddod i'r farchnad yn gynt. Bydd manteision amgylcheddol hefyd gan y bydd gwella sut y gweithredir y gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru yn ei gwneud yn haws i nodi cynhyrchion y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon mewn ardaloedd rheoli mwg.

Mae'r pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â dŵr yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau yn Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Ein nod yw sicrhau bod systemau carthffosiaeth a draenio yn gydnerth ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gyda digon o gapasiti i reoli'r galw a roddir arnynt heb achosi llygredd na llifogydd o garthffosydd yng nghartrefi pobl. Bydd hyn yn ein galluogi i symud tuag at ddull ataliol, sy'n egwyddor allweddol arall o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae pwerau draenio tir yn angenrheidiol i ganiatáu ar gyfer diwygio a diweddaru'r fethodoleg o gyfrifo'r rhaniad incwm rhwng ardollau arbennig ac ardrethi draenio.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth hefyd i ddarparu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir trethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ystumio'r cyfrifiad dosrannu.

Mae'r pwerau ym Mil yr Amgylchedd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni cyfundrefn Cemegion sy'n gweithio. Roedd rhai newidiadau a fyddai'n helpu Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH) y DU i weithredu'n fwy effeithiol y tu allan i gwmpas y pwerau yn y Ddeddf Ymadael. Rydym yn mynd o system a gynlluniwyd ar gyfer 28 o aelod-wladwriaethau i un wladwriaeth â phedair gwlad. Felly, mae rhai agweddau ar REACH yn anymarferol neu'n orfeichus i fusnesau. Mae hyn yn debygol o olygu newidiadau i'r Rheoliadau REACH presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ar raddfa'r DU yn unig. Yn ogystal, pan fyddwn yn colli pwerau adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau gorfodi REACH.

Heb y pwerau hyn, byddai'n rhaid i UK REACH weithredu yng nghyd-destun Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE. Yn y sefyllfa hon, gallem wynebu nifer o risgiau a materion yn gyflym, yn enwedig o ran y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru ac ailadrodd profion anifeiliaid. Mae'n bosibl y bydd angen y pwerau hefyd i adlewyrchu newidiadau i drefniadau'r UE rydym am eu cynnal. Mae REACH yn ymdrin â materion a gadwyd yn ôl megis iechyd a diogelwch yn y gweithle a safonau cynnyrch, yn ogystal â meysydd datganoledig fel iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Yn hyn o beth, byddai angen yr un offeryn deddfwriaethol ar gyfer mesurau i atal cemegyn rhag peri niwed i iechyd dynol yn ogystal ag achosi niwed i'r amgylchedd. Felly, byddai'n anodd deddfu ar gyfer pwerau o'r fath yn y Cynulliad.

**2. A yw'r Bil yn gyfystyr â Fframwaith Deddfwriaethol Cyffredin? Pa ddarpariaethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r Fframwaith Deddfwriaethol Cyffredin?**

Nid yw'r Bil yn gyfystyr â fframwaith deddfwriaethol cyffredin ac nid yw'n sefydlu unrhyw fframweithiau deddfwriaethol cyffredin.

Mae Bil y DU yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cemegion a chyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr, sef dau faes gyda fframweithiau cyffredin a nodwyd. Er nad yw'r Bil ei hun yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer fframweithiau lle mae gweinyddiaethau yn datblygu polisïau neu ddeddfwriaeth ar y cyd, a all fod yn berthnasol i fwy nag un weinyddiaeth, yna gall fframwaith cyffredin cytunedig ddarparu strwythur priodol i drafod y polisi a'r datblygiad deddfwriaethol a mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau barn.

**3. Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y Bil? Pa mor aml y mae'r trafodaethau hynny wedi bod yn digwydd a beth yw canlyniadau'r trafodaethau?**

Mae'r Cyfarfodydd Grŵp Rhyngweinidogol rheolaidd ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cynnwys eitem ar yr agenda ar ddeddfwriaeth ac rwyf wedi defnyddio'r cyfarfodydd hyn i godi materion ynghylch Bil Amgylchedd y DU.

O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, rydym wedi sicrhau gwelliannau i'r Bil ynghylch cymhwyso egwyddorion amgylcheddol i adlewyrchu natur ddatganoledig yr amgylchedd. Fel y cyfryw, ni fydd yn ofynnol i Weinidogion y Goron sy'n llunio polisïau mewn perthynas â Chymru roi sylw i'r ymagwedd ym Mil y DU ond i'r ymagwedd y byddwn yn ei chyflwyno mewn deddfwriaeth i Gymru yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi sicrhau cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r Bil, os oes angen, i gynnwys eithriad o baragraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â swyddogaethau cydredol plws. Rhagwelwn y bydd Gorchymyn adran 109 yn

cael ei gyflwyno'n fuan ac y bydd yn mynd i'r afael â'r mater o swyddogaethau cydredol yn y Bil hwn. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen diwygio'r Bil.

Mae trafodaethau yn parhau ynghylch effaith cymal 19 (dim atchwelyd safonau diogelu'r amgylchedd) ar gymhwysedd datganoledig a'r ddyletswydd sydd ar Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i ymgynghori â chyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig (cymal 24(4)).

Mae cymal 24(4) yn gosod dyletswydd ar yr OEP i ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig os yw o'r farn y gallai arfer unrhyw swyddogaethau penodol fod yn berthnasol i'r broses o arfer swyddogaeth llywodraethu amgylcheddol ddatganoledig.

Barn Llywodraeth Cymru ers tro yw y bydd angen i'r cyrff llywodraethu amgylcheddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr gydweithio'n agos i nodi a gweithredu ar gwynion a allai fod yn drawsffiniol eu natur neu'n berthnasol i faterion a gedwir yn ôl a rhai datganoledig.

Mae angen hefyd i ddinasyddion yn y ddwy wlad allu cael mynediad rhwydd i broses gwynion, gan roi'r cyfrifoldeb ar y cyrff llywodraethu amgylcheddol i hwyluso yn hytrach na disgwyl i ddinasyddion ymdopi â chymhlethdod materion a gedwir yn ôl/datganoledig.

Nid yw'r ddyletswydd arfaethedig i ymgynghori yn mynd cyn belled â darparu ar gyfer y dull cydweithredol hwn, gan nad yw'n caniatáu ar gyfer nodi'n gynnar ble y gallai fod angen i'r cyrff gydweithio, ac i'r corff Cymreig fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch a yw ymchwiliad yn berthnasol iddo. At hynny, nid yw'n caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal ar gyfer rhannu arferion gorau ac arbenigedd rhwng y cyrff. Yn unol â hynny, rydym yn ceisio gwelliant i'r Bil i alluogi trefniadau cydweithredol.

**4. A wnaethoch chi roi cyfarwyddiadau penodol i Lywodraeth y DU ynghylch pa ddarpariaeth y byddai ei hangen ar Weinidogion Cymru ar gyfer Cymru yn y Bil hwn? A oeddech chi a chwnsleriaid deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn rhan o'r gwaith o ddrafftio'r darpariaethau? Os na, sut aethoch chi ati?**

Bu swyddogion polisi a gwasanaethau cyfreithiol yn ystyried a, lle y bo'n briodol, yn cyfrannu at gyfarwyddiadau polisi a luniwyd gan swyddogion polisi'r DU. Eto yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd Cwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio'r darpariaethau Cymreig yn y Bil.

Mae cymal 70 a Rhan 3 o Atodlen 12 i'r Bil yn ymwneud ag ardaloedd rheoli mwg, sy'n diwygio Deddf Aer Glân 1993. Mae'r ddarpariaeth hon yn eithriad gan ei bod yn gymal ar gyfer Cymru'n unig. Roedd y cymal hwn yn destun cyfarwyddiadau ar wahân a baratowyd gan y gwasanaethau cyfreithiol ac a ddrafftiwyd gan Gwnsleriaid Deddfwriaethol Cymru.

**5. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw welliannau y mae Llywodraeth y DU yn ceisio'u gwneud i'r Bil? Os felly, a ydych chi wedi cael cyfle i ystyried y modd y drafftiwyd y gwelliannau hynny, i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion Cymru? Os gwneir diwygiadau ychwanegol i'r Bil, y mae angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer, a fyddwch yn gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall mewn perthynas â'r Bil?**

Cyn i Fil Amgylchedd y DU gael ei oedi ar 19 Mawrth, roedd Llywodraeth y DU wedi rhoi gwybod i ni am yr holl welliannau roedd wedi'u cynnig i'r Bil. Galluogodd hyn ni i ystyried unrhyw effeithiau posibl ar Gymru. Roedd y diwygiadau hyd at 19 Mawrth i gyd yn dechnegol eu natur; er enghraifft, cafodd nifer o welliannau eu cyflwyno i ddiwygio enw

Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Senedd Cymru. Unwaith yr ailafaelir â gwaith craffu'r Bil trwy'r Senedd, rydym yn disgwyl yr un lefel o gyfranogiad.

Gallaf gadarnhau y byddaf yn gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall mewn perthynas â'r Bil os gwneir diwygiadau ychwanegol sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.

**6. Dywed Llywodraeth y DU fod polisi yn y Bil wedi'i lywio gan naw ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Pa ymgynghoriadau rydych wedi'u cynnal i lywio polisi yn y Bil?**

Yn 2019, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd ar gynigion i ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ei strategaeth economi gylchol, sy'n cynnwys cynigion am gyfrifoldebau cynhyrchwyr. Mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn "cydweithio â llywodraethau eraill yn y DU i ddatblygu deddfwriaeth ar gyfer cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr…"

Mae ymgynghoriad 2019 ar Economi Gylchol[1], Mwy Nag Ailgylchu, yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system olrhain electronig orfodol er mwyn darparu gwybodaeth flynyddol am wastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchir yng Nghymru.

Mae'r gwaith yn parhau ar y cyd â Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddatblygu Cynllun Dychwelyd Ernes. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac mae paratoadau'n cael eu gwneud ar gyfer ail ymgynghoriad ar ddyluniad manwl y cynllun a'r dulliau gweithio a ffefrir.

Yn 2016, bu Llywodraeth Cymru a Defra yn cynnal Cais am Dystiolaeth ar droseddau'n ymwneud â gwastraff (https://llyw.cymru/cynigion-i-ddiwygio-pwerau-syn-bodoli-ar-hyn-o-bryd-i-fynd-ir-afael-throseddau-gwastraff-safleoedd). Yn dilyn y cais am dystiolaeth, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu mesurau i fynd i'r afael â throseddau gwastraff, er mwyn helpu i wella cymhwysedd yn y sector gwastraff, adolygu cyfundrefnau rheoleiddio a oedd yn agored i gael eu cam-drin megis eithriadau caniatáu gwastraff a chreu maes chwarae gwastad ar gyfer diwydiant.

Ers 2016, cyflwynwyd nifer o Offerynnau Statudol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd a chynhaliwyd ymgynghoriad dilynol ym mis Ionawr 2018 (https://llyw.cymru/mynd-ir-afael-throseddau-yn-y-sector-gwastraff-chyflwyno-cosb-benodedig-ar-gyfer-y-ddyletswydd). Cynhyrchodd yr ymgynghoriadau hyn a thrafodaeth gyda'r Rheoleiddiwr Gwastraff nifer o syniadau a chynigion newydd i fynd i'r afael â gweithgarwch gwastraff anghyfreithlon, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar rai ohonynt, er enghraifft gwelliannau i gymhwysedd gweithredwyr a gofyniad i gael darpariaeth ariannol ar gyfer safleoedd nad ydynt yn safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, gyda rhai agweddau ar droseddau gwastraff, nodwyd y byddai pwerau cryfach yn helpu i wneud y gorau o'r buddiannau posibl ac mae'r rhain bellach yn cael eu cynnig ym Mil y DU. Ymgynghorwyd hefyd ar rai o'r cynigion hyn ar wahân, er enghraifft yn ein hymgynghoriad yn 2019 ar Economi Gylchol, Mwy Nag Ailgylchu, cynhwyswyd y bwriad i ystyried system olrhain electronig orfodol, ac yn yr ymgynghoriad ar Fil yr Amgylchedd, Iechyd a Lles Anifeiliaid, cynhwyswyd cynigion i ddiwygio'r Pwerau Mynediad yn adran 108 Deddf yr Amgylchedd 1995, y mae'r ddau ohonynt bellach yn cael eu cynnig ym Mil y DU.

Cafodd y darpariaethau yn y Bil ar gyfer plastigau untro eu llunio gan bryderon ehangach am effeithiau plastig yn yr amgylchedd. Ysgogwyd hyn gan ymgynghoriadau a thystiolaeth a gasglwyd ar lefel yr UE. Bydd ein hymgynghoriad ni, *Mwy Nag Ailgylchu: Strategaeth i greu economi gylchol yng Nghymru*, yn helpu i lywio'r ffordd y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r heriau hyn.

---

O ran treth deunydd pacio plastig y DU gyfan, daw'r rownd ymgynghori ddiweddaraf i ben ym mis Awst ac rydym yn annog safbwyntiau a thystiolaeth gan randdeiliaid allweddol yn y diwydiant plastigau yng Nghymru. O ran y cynigion ar sbwriel a phlastigau untro, cynhelir ymgynghoriad cyn cyflwyno'r Rheoliadau.

Mae cymal 70 a Rhan 3 o Atodlen 12 i'r Bil yn ymwneud ag ardaloedd rheoli mwg ac yn diwygio Deddf Aer Glân 1993. Rydym yn bwriadu symud o ddefnyddio is-ddeddfwriaeth i greu dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi rhestri ar gyfer cofnodi tanwyddau awdurdodedig a mathau eithriedig o leoedd tân. Bydd hyn yn galluogi ffordd haws, fwy effeithiol o nodi pa danwyddau a dosbarthiadau o leoedd tân y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon yn Ardaloedd Rheoli Mwg Cymru. Rydym hefyd yn sicrhau bod gweithgynhyrchwyr yn gallu gwerthu eu cynnyrch heb rwystr. Ni wnaethom ymgynghori â rhanddeiliaid na'r cyhoedd ehangach ynghylch y ddarpariaeth hon gan nad yw'n newid polisi (yn hytrach mae'n gwella gweithrediad y gyfundrefn rheoli mwg bresennol yng Nghymru). Bydd symud i ffwrdd o is-ddeddfwriaeth i restri cyhoeddedig yn sicrhau bod sefyllfa Cymru yn cyd-fynd â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban. Yn y Cynllun Aer Glân, lle y gwnaethom amlinellu a cheisio barn ar y gwaith rydym yn bwriadu ei wneud mewn perthynas â llosgi domestig (megis y camau rheoleiddiol a'r rhai nad ydynt yn rhai rheoleiddiol a restrwyd yn yr ymgynghoriad), cyfeiriasom at waith a oedd yn cael ei wneud eisoes trwy Fil Amgylchedd y DU i enghreifftio'r camau a gymerwyd hyd yma.

Mae Rhan 5 yn cyflwyno amrywiaeth o fesurau i gryfhau cydnerthedd gwasanaethau dŵr a gwastraff dŵr drwy wella trefn gynllunio hirdymor y diwydiant dŵr a moderneiddio'r ffordd y mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn cael eu rheoleiddio i'w gwneud yn fwy hyblyg a thryloyw.

Sefydlwyd Rhaglen Ddraenio'r 21ain Ganrif gan Water UK (corff Prydeinig sy'n cynnwys ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth ledled y DU ac Iwerddon) i ystyried sut i sicrhau y gellir gwella a diweddaru gwaith cynllunio, buddsoddi, cyflenwi a pholisi rheoleiddio cwmnïau dŵr sy'n ymwneud â chynllunio seilwaith carthffosiaeth y DU i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Aeth ati i ymchwilio a datblygu dulliau i ddeall problemau presennol a hirdymor sy'n wynebu'r sector draenio'n well. Nod y rhaglen oedd deall gofynion presennol a hirdymor ein rhwydweithiau draenio a datblygu fframwaith cynllunio tryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i sicrhau bod gwasanaethau draenio cryf a fforddiadwy'n cael eu darparu. Mabwysiadodd ddulliau seiliedig ar bartneriaeth, gan weithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, a chyrff anllywodraethol. Mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn aelodau o Grŵp Llywio'r Rhaglen.

Roedd y rhaglen yn argymell rhoi sail statudol i waith cynllunio ar gyfer gwasanaethau draenio a dŵr gwastraff, gan ddilyn dull tebyg i'r un sydd eisoes ar waith ar gyfer cynllunio adnoddau dŵr. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd gan y prosiect, a'r cynigion yn cyd-fynd yn helaeth ag ymrwymiadau yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y canlynol;

- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr ac awdurdodau lleol i gyflwyno cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Mae cynllunio cydweithredol hirdymor ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â pherygl llifogydd trefol a chyflawni canlyniadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol.

- Ein nod yw sicrhau bod systemau carthffosiaeth a draenio yn gydnerth ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, gyda digon o gapasiti i reoli'r galw a roddir arnynt heb achosi llygredd na llifogydd o garthffosydd yng nghartrefi pobl. Bydd hyn yn ein galluogi i symud tuag at ddull ataliol, sy'n egwyddor allweddol arall o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

- Dylai fframwaith cynllunio a rheoleiddio cwmnïau dŵr ar gyfer dŵr a charthffosiaeth gynnwys:

  - Ymwreiddio ac alinio gwaith cynllunio cwmnïau dŵr â'n polisi adnoddau naturiol cenedlaethol a phrosesau cynllunio adnoddau naturiol perthnasol sy'n seiliedig ar ardal i sicrhau bod cynllunio ar gyfer gwasanaethau dŵr yn llywio ac yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.
  - Cynlluniau rheoli dalgylchoedd a buddsoddi cydweithredol.
  - Mesurau cydnerthedd, megis amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd, twf y boblogaeth a datblygiadau newydd.
  - Rhagdybiaeth o blaid atebion cynaliadwy, a thystiolaeth o'u defnyddio yn hytrach nag ehangu neu adnewyddu capasiti seilwaith presennol.
  - Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.
  - Tystiolaeth yr ystyriwyd atebion dŵr a thrin gwastraff cynaliadwy, cyfiawnhad cryf lle nad ydynt yn cael eu defnyddio.
  - Tystiolaeth gadarn, gyfredol a chredadwy i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau domestig ac Ewropeaidd gorfodol.

Ymgynghorwyd yn helaeth ar y Strategaeth Ddŵr ac fe'i gosodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Gall rhoi Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs) ar sail statudol sicrhau bod prosesau cynllunio eraill yn ystyried y Cynllun, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhanddeiliaid perthnasol ymgysylltu â'r ymgymerwyr a rhannu gwybodaeth â hwy at ddibenion paratoi Cynlluniau, a bod Ofwat yn eu hystyried fel rhan o'r broses adolygu prisiau a datblygiad fframwaith rheoleiddio'r diwydiant. Gall sicrhau bod ymgymerwyr yn cadw at eu hymrwymiad i baratoi ac ymgynghori ar Gynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff, galluogi Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a darparu proses ac amserlen glir a thryloyw ar gyfer y cynlluniau. Gall roi rôl glir i Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd o ran cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau, darparu canllawiau technegol i'r ymgymerwyr a chynghori Llywodraeth Cymru ar ansawdd a chadernid y cynlluniau. Heb eu rhoi ar sail statudol mae perygl na fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dyrannu nac yn derbyn yr adnoddau i roi lefel debyg o ymgysylltiad i'r Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff o'u cymharu â'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r cynnwys a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn wrth baratoi a chyhoeddi'r Cynlluniau. Cyn defnyddio'r pwerau, byddai Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y rheoliadau arfaethedig.

O ran draenio tir, mae Cymal 87 yn cyflwyno darpariaeth ymgynghori sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartïon priodol i sicrhau bod y dull prisio yn gywir wrth werthuso ardollau ac ardrethi draenio.

**7. Sut mae'r Bil yn effeithio ar rwymedigaethau rhyngwladol cyfredol?**

Ni allaf roi sylwadau ar y Bil ehangach gan mai mater i Lywodraeth y DU yw hwn. Fodd bynnag, o ran y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar gyfer Gweinidogion Cymru, bydd nifer ohonynt yn cyfrannu at ein rhwymedigaethau rhyngwladol cyffredinol mewn perthynas, er enghraifft, â Chytundeb Paris ar newid yn yr hinsawdd trwy'r effaith a gaiff symud i economi fwy cylchol ar ddatgarboneiddio. Bydd hefyd yn cyfrannu at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, yn enwedig nod 12, Defnyddio a Chynhyrchu'n Gyfrifol.

Mae gwella effeithlonrwydd adnoddau yn ein helpu i gyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol fel o dan y Confensiwn am Amrywiaeth Biolegol.

Bydd codi tâl am blastigau untro yn cyfrannu at rwymedigaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â lleihau sbwriel môr, gyda phlastig y deunydd mwyaf cyffredin. Y lefelau uchel o blastig yn yr amgylchedd morol, a'r effeithiau amgylcheddol posibl y mae hyn yn eu cael, sy'n ysgogi gweithredu ar blastig ar lefel ryngwladol. Mae Strategaeth Forol y DU yn fframwaith trosfwaol sy'n cwmpasu sawl cydran forol gan gynnwys sbwriel môr. Mae dyletswydd ar y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i osod mesurau a phennu targedau er mwyn cyflawni 'Statws Amgylcheddol Da'. Mae'r rhaglen o fesurau i fod i gael ei hadolygu yn 2021 a bydd yn rhoi cyfle i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig roi mesurau angenrheidiol ar waith a lleihau sbwriel môr yn ein moroedd.

**<u>Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad</u>**

**8. Nid yw Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU yn ystyried y bydd angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymalau 19 a 43 o'r Bil. Ar y llaw arall, rydych yn nodi yn eich Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymal 19 a chymal 43 (i'r graddau y mae'n ymwneud â chymal 19). A allech chi ymhelaethu ar y rhesymeg yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch pam yr ydych o'r farn bod angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y cymalau hyn? Yn benodol, sut y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu i osod gofyniad ar Weinidog y Goron i wneud datganiadau penodol yn ystod trafodion Senedd y DU?**

Mae fy nyfarniad ynghylch y gofyniad am gydsyniad mewn perthynas â chymal 19 (a thrwy hynny, gymal 43) yn seiliedig ar ein hasesiad o ddiben y cymal hwn. Yn fy marn i, diben y cymal hwn yw diogelu'r amgylchedd, pwnc datganoledig. Proses seneddol yw'r modd i sicrhau amddiffyniad rhag diffyg atchweliad, nid y diben ynddo'i hun.

Mae'n amheus a allai'r Senedd efelychu darpariaeth o'r fath sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron gyflawni rhai camau Seneddol. Fodd bynnag, gellid dadlau y dylai'r Senedd ddeddfu er mwyn i Gymru ddarparu'r 'un effaith i raddau helaeth' â chymal 19. Er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron osod datganiad tebyg gerbron y Senedd wrth gynnig deddfu mewn perthynas â Chymru.

Yn wahanol i weddill y Bil, mae 'cyfraith amgylcheddol' at ddibenion y cymal hwn yn cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol ddatganoledig. Effaith hyn yw bod y gofynion uchod yr un mor berthnasol i Filiau'r DU sy'n ymwneud â 'chyfraith amgylcheddol' sy'n gymwys yng Nghymru, yn yr un modd â Lloegr.

**9. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau sy'n digwydd gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 19 a 43? Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru os na ellir dod i gytundeb ar y cymalau hyn?**

Mae trafodaethau wedi parhau ar y cymalau hyn, ond maent wedi arafu yn ystod oedi'r Bil. Rydym wedi parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i gydnabod yr angen i ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn i ddatganiad o'r fath gael ei wneud.

Credaf y gallwn ddod i ryw fath o gytundeb mewn perthynas â'r darpariaethau hyn. Os na ellir dod i gytundeb, bydd angen i ni ystyried hyn, ymysg ffactorau eraill, pan fyddwn yn ystyried a yw Bil y DU yn y dyfodol yn gyfrwng priodol ar gyfer cyflawni polisi Cymru.

**10. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 24(4) y Bil? A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gynnydd y trafodaethau hynny? A fydd Llywodraeth y DU yn ceisio diwygio cymal 24(4) i gryfhau dyletswyddau cydweithredu Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd gyda chorff llywodraethu Cymru yn y dyfodol?**

Mae cymal 24(4) yn gosod dyletswydd ar yr OEP i ymgynghori â chorff llywodraethu amgylcheddol datganoledig os yw o'r farn y gallai arfer unrhyw swyddogaethau penodol fod yn berthnasol i'r broses o arfer swyddogaeth llywodraethu amgylcheddol ddatganoledig.

Barn Llywodraeth Cymru ers tro yw y bydd angen i'r cyrff llywodraethu amgylcheddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr gydweithio'n agos i nodi a gweithredu ar gwynion a allai fod yn drawsffiniol eu natur neu'n berthnasol i faterion a gedwir yn ôl a rhai datganoledig.

Mae angen hefyd i ddinasyddion yn y ddwy wlad allu cael mynediad rhwydd i broses gwynion, gan roi'r cyfrifoldeb ar y cyrff llywodraethu amgylcheddol i hwyluso yn hytrach na disgwyl i ddinasyddion ymdopi â chymhlethdod materion a gedwir yn ôl/datganoledig.

Nid yw'r ddyletswydd arfaethedig i ymgynghori yn mynd cyn belled â darparu ar gyfer y dull cydweithredol hwn, gan nad yw'n caniatáu ar gyfer nodi'n gynnar ble y gallai fod angen i'r cyrff gydweithio, ac i'r corff Cymreig fod yn rhan o'r penderfyniad ynghylch a yw ymchwiliad yn berthnasol iddo. At hynny, nid yw'n caniatáu i ymchwiliadau gael eu cynnal ar gyfer rhannu arferion gorau ac arbenigedd rhwng y cyrff. Yn unol â hynny, rydym yn ceisio gwelliant i'r Bil i alluogi trefniadau cydweithredol.

Mae trafodaethau wedi parhau gyda DEFRA ar sut y gall y cyrff gydweithredu i ystyried cwynion gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth a, lle y bo'n briodol, cynnal ymchwiliadau ar y cyd.

**11. Nid yw Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU yn ystyried y bydd y darpariaethau cyffredinol yn Rhan 8 o'r Bil yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad. Mewn cyferbyniad, yn eich Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, rydych yn nodi y bydd darpariaethau cyffredinol y Bil yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad. A allech chi nodi pa ddarpariaethau cyffredinol yr ystyriwch y bydd angen cydsyniad y Cynulliad ar eu cyfer? A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau rydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn ac a yw Llywodraeth y DU yn cytuno'n awr y bydd angen cydsyniad y Cynulliad ar gyfer y cymalau hyn? Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru os na ellir dod i gytundeb?**

Rydym o'r farn y bydd angen cydsyniad ar ddarpariaethau cyffredinol y Bil i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad arnynt fel a ganlyn:

*Cymal 21 mewn perthynas ag Atodlen 1 — Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd*
*Cymal 45 mewn perthynas ag Atodlen 2 — Gwella'r amgylchedd naturiol: Gogledd Iwerddon*
*Cymal 46 mewn perthynas ag Atodlen 3 — Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd: Gogledd Iwerddon*

*Cymal 47 mewn perthynas ag Atodlen 4 — Rhwymedigaethau o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr*
*Cymal 48 mewn perthynas ag Atodlen 5 — Cyfrifoldeb cynhyrchwyr dros gostau gwaredu*
*Cymal 49 mewn perthynas ag Atodlen 6 — Gwybodaeth am effeithlonrwydd o ran adnoddau*
*Cymal 50 mewn perthynas ag Atodlen 7 — Gofynion sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd o ran adnoddau*
*Cymal 51 mewn perthynas ag Atodlen 8 — Cynlluniau ernes*
*Cymal 52 mewn perthynas ag Atodlen 9 — Taliadau am eitemau plastig untro*
*Cymal 63 mewn perthynas ag Atodlen 10 — Pwerau gorfodi mewn perthynas â hyn*
*Cymal 69 mewn perthynas ag Atodlen 11 — Fframwaith rheoli ansawdd aer lleol*
*Cymal 70 mewn perthynas ag Atodlen 12 — Rheoli mwg yng Nghymru a Lloegr*
*Cymal 78 mewn perthynas ag Atodlen 13 — Addasu penodiadau ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth: y weithdrefn ar gyfer apelau*
*Cymal 90 mewn perthynas ag Atodlen 14 — Enillion bioamrywiaeth fel amod o ganiatâd cynllunio*
*Cymal 100 mewn perthynas ag Atodlen 15 — Rheoli cwympo coed yn Lloegr*
*Cymal 115 mewn perthynas ag Atodlen 16 — Cyflawni neu addasu rhwymedigaethau ynghlwm wrth gadwraeth*
*Cymal 122 mewn perthynas ag Atodlen 17 — Cymhwyso Rhan 7 i dir y Goron*
*Cymal 124 mewn perthynas ag Atodlen 18 — Diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 7*
*Cymal 125 mewn perthynas ag Atodlen 19 — Diwygio deddfwriaeth REACH*

Dim ond darpariaethau perthnasol yw'r cymalau hyn (ac felly'n gofyn am Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol) i'r graddau y mae'r Atodlenni sy'n berthnasol iddynt yn gwneud darpariaethau perthnasol, gallai'r darpariaethau cyffredinol hynny gael eu gwneud gan y Senedd.

**<u>Pwerau dirprwyedig</u>**

**12. Mae'r Bil yn darparu nifer o bwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru. A allwch chi amlinellu pam y mae'r holl bwerau hyn yn angenrheidiol? A wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn am y pwerau hyn?**

Mae angen y pwerau yn bennaf i sicrhau y bydd polisïau yn parhau i weithredu yn yr hirdymor, trwy ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer newidiadau mewn tystiolaeth, dulliau gweithredu, llunio polisïau, diwydiannau neu dechnolegau yn y dyfodol nad ydynt o reidrwydd yn rhagweladwy ar hyn o bryd.

Yn achos cymal 66, diwygio'r cosbau presennol ar gyfer yr Hysbysiadau Cosb Benodedig sy'n ymwneud â thipio anghyfreithlon a dyletswydd gofal deiliaid tai, a chymal 125 ar gyfer REACH, mae angen y pwerau i ddisodli'r rhai a gollir o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, sy'n ein galluogi i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth.

Gallaf gadarnhau, ym mhob achos, fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am y pwerau hyn.

**Cymal 47 Atodlen 4 Rhwymedigaethau o ran cyfrifoldeb cynhyrchwyr** – yn rhoi'r hyblygrwydd i ddatgan, mewn rheoliadau, ar ba gynhyrchydd neu fusnes i osod rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr ac ar ba gynhyrchion neu ddeunyddiau a pha gamau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hynny.

**Cymal 48 Atodlen 6 Cyfrifoldeb cynhyrchwyr dros gostau gwaredu** – yn hwyluso gwneud darpariaeth ar wahân ynghylch gorfodi i Gymru. Bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i

wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â mathau penodol o gynhyrchion, er enghraifft trwy bennu gwahanol gyrff fel awdurdodau gorfodi mewn achosion gwahanol.

**Cymal 49 a 50 Atodlenni 6 a 7 Gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd o ran adnoddau** – yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion polisi ar gyfer pob math o gynnyrch sy'n cael ei reoleiddio, a gwneud rheoliadau ar wahân ar gyfer pob un.

Bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â mathau penodol o gynhyrchion, er enghraifft trwy bennu gwahanol gyrff fel awdurdodau gorfodi mewn achosion gwahanol.

Gall gofynion gwybodaeth sy'n benodol i gynnyrch fod yn fanwl ac yn dechnegol ac felly'n fwy addas i'w cynnwys mewn rheoliadau nag mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**Cymal 51 Atodlen 8 Cynlluniau ernes** – sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion polisi ar gyfer, a gwneud, rheoliadau ar wahân ar gyfer pob grŵp cynnyrch a reoleiddir.

**Cymal 52 Atodlen 9 Taliadau am eitemau plastig untro** – er ein bod yn gweithio ar y cyd â gweinyddiaethau eraill, mae gwastraff ac ailgylchu yn fater datganoledig. Mae'r pŵer datganoledig hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio eitemau sy'n destun unrhyw dâl, y swm a godir a'r gofynion a phenodi unrhyw weinyddwr i oruchwylio'r tâl sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru.

**Cymal 55 Olrhain gwastraff yn electronig** – cysoni deddfwriaeth olrhain gwastraff â deddfwriaeth ar gyfer rheoli gwastraff, sydd ar hyn o bryd yn cael ei reoli trwy is-ddeddfwriaeth.

Bydd y rheoliadau olrhain gwastraff yn darparu data hanfodol i helpu i ddatblygu economi gylchol a pholisi gwastraff yn y dyfodol. Bydd casglu data ar wastraff a'r rhai sy'n ei reoli yn ei gwneud yn haws i benderfynu pwy sydd (neu a oedd) yn gyfrifol am y gwastraff ar unrhyw adeg benodol. Bydd hyn yn cynorthwyo i reoleiddio gwastraff ac yn helpu i nodi'r rhai sy'n gyfrifol am unrhyw wastraff anghyfreithlon.

**Cymal 57 Gwastraff peryglus: Cymru a Lloegr** – yn cyd-fynd â'r system reoleiddiol bresennol ar gyfer gwastraff peryglus, a reolir ar hyn o bryd trwy is-ddeddfwriaeth.
Gweler hefyd yr ateb i C13 isod.

**Atodlen 10 (yn gysylltiedig â phwerau gorfodi cymal 63)** – mae bwlch yn y pwerau sydd gan Weinidogion Cymru ar hyn o bryd mewn perthynas â gorfodi gwastraff. Ceir amgylchiadau lle y mae gweithredwyr twyllodrus yn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon gyda chanlyniadau difrifol posibl i gymunedau lleol a'r amgylchedd. Gall fod sefyllfaoedd hefyd lle mae contract casglu gwastraff yn methu, neu pan fydd cwmni neu awdurdod yn mynd i ddwylo'r derbynwyr ac ni all gyflawni neu dalu am rwymedigaethau casglu a symud gwastraff y mae wedi'i gontractio i'w cyflawni a all hefyd osod costau amgylcheddol ac effeithio'n negyddol ar gymunedau.

Ar hyn o bryd, gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw berson sy'n cadw gwastraff ar dir i fynd â'r gwastraff i le penodol ac i gyfarwyddo gweithredwyr gwastraff i gymryd a thrin y gwastraff. Fodd bynnag, ni allant gyfarwyddo cludwr gwastraff i gasglu gwastraff o le penodol a mynd ag ef i safle gwastraff penodedig. Mae hyn yn golygu, o dan amgylchiadau lle mae gwastraff wedi cael ei waredu'n anghyfreithlon ac nad oes modd olrhain y tirfeddiannwr a/neu'r troseddwr neu os na all y tirfeddiannwr ariannu'r gwaredu, ac yn achos

digwyddiadau mawr, neu lle mae contract casglu gwastraff yn methu, nid oes gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo cludwr gwastraff i waredu'r gwastraff.

Byddai'r ddarpariaeth hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cludwyr gwastraff awdurdodedig i gasglu gwastraff o fan penodedig a mynd ag ef i safle rheoli gwastraff penodedig mewn amgylchiadau lle mae iechyd y cyhoedd, cymunedau neu'r amgylchedd mewn perygl. Fel gyda'r pwerau cyfarwyddo cyfredol, byddai gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i gyfarwyddo ceidwad y gwastraff i dalu costau rhesymol y cludwr gwastraff. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y pŵer gan Weinidogion Cymru hefyd i ad-dalu'r cludwr gwastraff yn uniongyrchol.

**Cymal 65 Gorfodi yng nghyswllt gollwng sbwriel** – bydd angen hyblygrwydd ar Weinidogion Cymru i allu newid neu ddiweddaru'r amodau rhagnodedig y mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig awdurdod sbwriel eu bodloni i adlewyrchu anghenion a datblygiadau newidiol o fewn y sector, sy'n golygu na fyddai deddfwriaeth sylfaenol yn gyfrwng priodol ar gyfer y pŵer hwn.

Er bod y rheoliadau presennol i ddelio â sbwriel yn gweithredu ar sail Cymru gyfan a bod ein canllawiau yn fras yr un peth, mae rhai gwahaniaethau yn y ffordd rydym yn gweithredu ein polisïau sy'n gwarantu bod gan Weinidogion Cymru bwerau dirprwyedig. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector i helpu i ddatblygu a gweithredu'r agweddau ar newid addysgol ac ymddygiadol sy'n ymwneud â mynd i'r afael â sbwriel. Felly, mae'n bosibl y byddwn yn dymuno cael yr hyblygrwydd i ymgorffori'r math hwn o ddull o weithredu mewn unrhyw ganllawiau gorfodi newydd a gaiff eu datblygu gennym.

Mae'r pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y gwahanol awdurdodau sbwriel yn cyflawni swyddogaethau gorfodi sbwriel mewn ffordd gyson a chymesur.

**Cymal 66 Hysbysiadau Cosb Benodedig** – cymryd pŵer i ddiwygio cosbau mewn is-ddeddfwriaeth a chaniatáu iddynt gael eu hadolygu'n barhaus, gweld a ydynt yn gweithio'n effeithiol a'u diwygio os oes angen.

Gweler hefyd yr ateb i C13 isod.

**Cymal 67 Rheoleiddio gweithgareddau sy'n achosi llygredd** – caniatáu i'r amodau manwl ar gyfer unrhyw esemptiad (o'r gwaharddiad ar gynnal gweithgaredd heb drwydded) gael eu pennu a'u diwygio gan y rheoleiddiwr.

Gweler hefyd yr ateb i C13 isod.

**Cymal 75 Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr, cynlluniau sychder a chynigion ar y cyd** – yn caniatáu hyblygrwydd i ystyried pa ymgymerwyr y dylid eu cyfarwyddo i baratoi cynigion ar y cyd a phryd.

**Cymal 76 Cynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth** – yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd i sicrhau bod cynlluniau rheoli draeniau a charthffosiaeth yn mynd i'r afael â heriau newydd a allai godi ac felly'n parhau'n effeithiol

**Cymal 82 Pŵer i ddiwygio deddfwriaeth i wneud diweddariadau technegol ym maes ansawdd dŵr** – gofynnol er mwyn sicrhau nad yw sylweddau a safonau mewn perthynas â'r sylweddau hynny neu mewn perthynas â statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear yn parhau'n sefydlog ar ôl i'r DU adael yr UE. Byddai'r pŵer yn galluogi cymryd camau

deddfwriaethol i fynd i'r afael â'r sylweddau blaenoriaeth newydd hynny sy'n cynrychioli niwed i'r amgylchedd dŵr yn y modd mwyaf cywir.

**Cymal 87 Prisio tir arall mewn ardal ddraenio: Cymru** – mae angen diwygio a diweddaru'r fethodoleg o gyfrifo'r rhaniad incwm rhwng ardollau arbennig ac ardrethi draenio. Byddai'r darpariaethau yn y Bil yn caniatáu i werth tir arall gael ei gyfrifo trwy fethodoleg amgen (gan y bydd Byrddau Draenio Mewnol yn gallu defnyddio data amgen ar gyfer y cyfrifiadau hyn), a gaiff eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Mae nodi'r cyfrifiad prisio mewn rheoliadau yn briodol ac yn gymesur, oherwydd mae'r darpariaethau hyn yn ymdrin â manylion am fater atodol a thechnegol.

**Cymal 88 Prisio tir amaethyddol mewn ardal ddraenio: Cymru a Lloegr** – Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ganiatáu i'r is-ddeddfwriaeth ddarparu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir trethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) er mwyn osgoi ymyrraeth posibl i'r cyfrifiad dosrannu.

Mae nodi'r cyfrifiad prisio mewn rheoliadau yn briodol ac yn gymesur, oherwydd mae'r darpariaethau hyn yn ymdrin â manylion am fater atodol a thechnegol.

**Cymal 89 Datgelu gwybodaeth am Gyllid a Thollau** – mae angen y pŵer i ychwanegu at y rhestr o bersonau cymhwysol a nodir o dan adran newydd 37A(3)(h) er mwyn sicrhau bod personau eraill y mae'n ofynnol iddynt gael gafael ar wybodaeth gan CThEM at ddiben cymwys, sy'n cael eu hadnabod yn ddiweddarach, gael eu hychwanegu at y rhestr mewn is-ddeddfwriaeth, o dan amgylchiadau lle mae'r fframwaith o gyrff rheoleiddio sy'n gweithredu yn y maes hwn yn newid.

**Cymal 125 Diwygio deddfwriaeth REACH** – Mae Adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae hyn yn golygu, ar ôl y diwrnod ymadael, mai'r unig ffordd o ddiwygio Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 a Rheoliadau Ymadael yr UE REACH fyddai trwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Mae angen y pŵer hwn i sicrhau y gellir diweddaru Rheoliadau Gorfodi REACH 2008 a Rheoliadau Ymadael yr UE REACH.

**13. A allech chi amlinellu'r polisi y byddwch yn ceisio'i lunio mewn rheoliadau, gan ddefnyddio'r pwerau a geir yn y Bil? Pryd ydych chi'n rhagweld y byddai rheoliadau o'r fath yn cael eu gosod?**

Byddai angen is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau i roi'r Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith ar gyfer pecynnu. Mae'r rhain yn feysydd gwaith allweddol sy'n cael eu datblygu fel rhaglen waith ar y cyd. Nid yw'r union amserlen ar gyfer gosod y rheoliadau hyn wedi'i phennu'n derfynol gan fod y gwaith ar hyn o bryd wedi canolbwyntio ar ddatblygu ail gylch o ymgynghori ar y ddau gynllun. Maes o law, byddwn yn ystyried ffrydiau gwastraff eraill ar gyfer deddfwriaeth newydd ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, ac ymgynghorwyd ar hyn yn ein hymgynghoriad diweddar ar strategaeth economi gylchol newydd i Gymru. Maes o law, byddwn yn trafod deddfwriaeth newydd ar gyfer labelu cynnyrch amgylcheddol a safonau gyda gweinyddiaethau eraill y DU.

**Cymal 55 – Olrhain gwastraff yn electronig:** Daw'r ddarpariaeth hon i rym ddau fis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Nid yw'r amserlen ar gyfer gosod y Rheoliadau wedi'i chwblhau, gan fod swyddogion Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol yn gweithio gyda'u cymheiriaid yng ngwledydd eraill y DU ar sut y gallwn ddigideiddio prosesau olrhain gwastraff. Yn benodol,

sut rydym yn cofnodi'r hyn sy'n digwydd i wastraff wrth iddo symud o gynhyrchu i adfer neu waredu.

**Cymal 57 – Gwastraff peryglus:** Mae disgresiwn gan Weinidogion Cymru i benderfynu pryd y daw'r ddarpariaeth i rym. Mae llawer o'r gyfraith ar wastraff peryglus yn deillio o gyfraith yr UE. Byddai'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i allu diwygio neu ddisodli Rheoliadau sy'n rheoli sut mae gwastraff peryglus yn cael ei reoli, ar ôl i'r DU adael yr UE.

**Cymal 61 – Pwerau codi tâl**: Nid yw'r union amserlen ar gyfer dod â'r pwerau hyn i rym wedi'i chwblhau eto. Mae'r pwerau yn:

- ychwanegu pwerau codi tâl newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â dyletswyddau newydd neu ddiwygiedig a roddir iddynt yn y dyfodol. Bydd y pwerau newydd yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru adennill eu costau rhesymol o ymchwilio, ymyrryd a gorfodi cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr cyfredol yn briodol ac, wrth iddynt gael eu sefydlu, cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr newydd;

- caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru roi taliadau cynlluniau trwyddedu amgylcheddol presennol ar waith er mwyn eithrio gweithrediadau gwastraff, gan gynnwys taliadau cofrestru a chynhaliaeth lle y bo'n briodol, er mwyn ariannu'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth y gweithrediadau hyn; ac

- galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i greu cynlluniau codi tâl ar gyfer ei swyddogaethau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon a safleoedd gwastraff a ganiateir. Byddai hyn yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru adennill ei gostau rhesymol o ymchwilio, ymyrryd a gorfodi priodol ynghlwm wrth y safleoedd gwastraff anghyfreithlon o'r safleoedd gwastraff anghyfreithlon hynny. Ar hyn o bryd, gall Cyfoeth Naturiol Cymru godi tâl am wirio gweithrediad a chydymffurfiaeth y gyfundrefn trwyddedu amgylcheddol. Fodd bynnag, ni allant godi tâl am orfodi'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion trwyddedu neu sy'n gweithredu'n anghyfreithlon y tu allan i'r gyfundrefn drwyddedu.

**Cymal 66 – Hysbysiadau Cosb Benodedig**: Ni fyddwn yn llunio rheoliadau ar hyn o bryd. Mae disgresiwn gan Weinidogion Cymru i benderfynu pryd y daw'r ddarpariaeth i rym. Mae diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd yn dileu'r pŵer presennol i newid lefelau'r cosbau hyn trwy is-ddeddfwriaeth, ac felly mae angen pŵer newydd i alluogi lefel y cosbau hyn trwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn gallu diwygio lefel y dirwyon naill ai i fyny neu i lawr.

**Cymal 67 – Esemptiadau**: Daw'r ddarpariaeth hon i rym ddau fis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Mae'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau pa amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau eithriedig (h.y. y rheini nad oes angen Trwydded Amgylcheddol ar eu cyfer) y gall Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu arnynt, yn hytrach na bod yr amodau hynny'n gorfod cael eu nodi mewn rheoliadau. Ar hyn o bryd, mae pennu amodau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau newydd bob tro y newidir amod. Bydd caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru osod yr amodau yn helpu i sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith wrth i'r farchnad wastraff symud. Nid yw'r amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y Cymal hwn wedi'i chwblhau.

**Cymal 52 - Plastig Untro:** Bydd y pwerau hyn yn helpu i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau'r defnydd o eitemau plastig untro diangen, ac i helpu i gyrraedd ein nod hirdymor o fod yn ddiwastraff erbyn 2050. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ceisio gwahardd neu gyfyngu ar werthiant nifer o eitemau plastig untro gwastraff, gan gynnwys ffyn cotwm plastig, gwellt a phlatiau.

Fodd bynnag, mae eitemau plastig untro nad ydynt wedi'u cynnwys yn y mesur uchod ac sydd ag allanolion negyddol parhaus sy'n deillio o'u cynhyrchu, eu defnyddio a'u gwaredu'n amhriodol, er enghraifft cwpanau coffi a chynwysyddion bwyd tafladwy. Gan fod llawer o'r eitemau plastig hyn yn cael eu darparu i'r defnyddiwr yn ôl pob golwg yn "rhad ac am ddim" ac yn ategol i brynu cynhyrchion eraill, nid yw defnyddwyr ar hyn o bryd yn cael eu cymell neu eu hannog yn weithredol i gyfyngu ar eu defnydd i lefelau cynaliadwy. Rydym yn credu, heb ymyrraeth bellach, y gallai lefelau defnydd aros yr un fath neu hyd yn oed gynyddu dros amser. Mae hyn yn cyfrannu at wastraff sy'n cyrraedd safleoedd tirlenwi a llosgi ar ôl eu defnyddio, neu fel sbwriel sy'n achosi llygredd a niwed i'r amgylchedd naturiol.

Credwn y gellid, o bosibl, ymdrin ag eitemau o'r fath trwy ddarparu trefn codi tâl sy'n debyg i'r un sydd ar waith ar gyfer bagiau siopa untro. Gwelwyd bod codi tâl am eitemau plastig untro wedi arwain at newid cadarnhaol yn ymddygiad defnyddwyr. Heb y pwerau i fynnu ardollau ar eitemau plastig untro eraill lle y bydd hynny yn lleihau treuliant i bob pwrpas, ni ellir lliniaru'r allanoldebau negyddol a amlinellir uchod trwy ddefnyddio deddfwriaeth. Fodd bynnag, dim ond os yw'r dystiolaeth yn dangos mai codi tâl yw'r dull polisi mwyaf effeithiol o weithredu i leihau'r defnydd o blaid dulliau amgen sydd ar gael yn hawdd ac yn fwy cynaliadwy, y bydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno ar gyfer eitemau o'r fath

**Cymal 65 – Gorfodi yng nghyswllt gollwng sbwriel**: Rydym yn bwriadu creu pŵer penodol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar ddefnyddio'r pwerau gorfodi yn Rhan IV o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, y mae'n rhaid i'r rheini sy'n arfer y pwerau roi sylw iddynt. Bwriad hyn yw mynd i'r afael â'r canfyddiad y gall awdurdodau lleol neu gwmnïau preifat ddefnyddio camau gorfodi i godi refeniw ar draul dinasyddion 'nad ydynt yn wyliadwrus ' neu fod camau gorfodi yn anghyfreithlon, yn annheg neu'n anghymesur fel arall, trwy ddarparu canllawiau clir i awdurdodau lleol ar ddefnydd priodol o'u pwerau gorfodi, y mae'n rhaid iddynt eu hystyried. Bwriad hyn yw hyrwyddo mwy o gysondeb a gwella hyder y cyhoedd o ran cyfreithlondeb camau gorfodi.

Rydym hefyd yn bwriadu ymestyn pŵer Gweinidogion Cymru i ragnodi amodau i'w bodloni cyn y caniateir i berson gael ei awdurdodi i gyflwyno cosbau penodedig am daflu sbwriel. Bwriedir i hyn fod yn ddull diogelu pellach rhag gweithgarwch gorfodi amhriodol trwy sicrhau bod yn rhaid i unigolion awdurdodedig fod wedi bodloni amodau penodol sy'n ymwneud â sgiliau, ansawdd a phroffesiynoldeb eu gweithgareddau cyn y gallant gyflwyno cosbau penodedig.

Byddwn yn ymgynghori ymhellach â'r diwydiant, darparwyr hyfforddiant, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill cyn arfer y pŵer estynedig hwn i lunio rheoliadau. Gallai hyn o bosibl arwain at ragnodi amodau megis ennill cymhwyster penodol, achrediad neu nod siarter.

**Cymal 87/88** – yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i wneud darpariaeth ar gyfer pennu gwerth tir arall mewn ardal ddraenio fewnol yng Nghymru. Fel y saif y gyfraith, mae Byrddau Draenio Mewnol yn cyfrifo gwerth ardrethi draenio ar gyfer tir nad yw'n dir amaethyddol gan ddefnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar restrau prisio sy'n hen ac yn anghyflawn. Byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Ar hyn o bryd nid oes amserlen ar gyfer sefydlu rheoliadau newydd.

**Cymal 125** – Mae'r pwerau mewn perthynas â REACH yn angenrheidiol er mwyn gweithredu trefn cemegion gweithredol. Roedd rhai newidiadau a fyddai'n helpu swyddogaeth REACH y DU yn fwy effeithiol y tu allan i gwmpas y pwerau oddi mewn i'r Ddeddf Ymadael. Rydym yn symud o system a gynlluniwyd ar gyfer 28 o aelod-wladwriaethau i un wladwriaeth â phedair gwlad. Felly, mae rhai agweddau ar REACH yn

anymarferol neu'n orfeichus i fusnesau. Mae hyn yn debygol o olygu newidiadau i'r rheoliadau REACH presennol er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w defnyddio ar raddfa'r DU yn unig. Yn ogystal, pan fyddwn yn colli pwerau adran 2 (2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau gorfodi REACH.

Heb y pwerau hyn, byddai'n rhaid i REACH y DU weithredu yng nghyd-destun yr offerynnau statudol ymadael â'r UE. Yn y sefyllfa hon, gallem wynebu nifer o risgiau a phroblemau yn fuan iawn, yn enwedig o ran y dyddiadau cau ar gyfer cofrestru ac ailadrodd profion anifeiliaid. Mae'n bosibl y bydd angen y pwerau hefyd i adlewyrchu newidiadau i drefn yr UE rydym am eu cadw. Mae REACH yn ymdrin â materion a gadwyd yn ôl megis iechyd a diogelwch yn y gweithle a safonau cynnyrch, yn ogystal â meysydd datganoledig fel iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Yn hyn o beth, byddai angen yr un offeryn deddfwriaethol ar gyfer mesurau i gyfyngu ar gemegyn sy'n achosi niwed i iechyd dynol ac sy'n achosi niwed i'r amgylchedd. O ganlyniad, byddai'n anodd deddfu ar gyfer pwerau o'r fath yn y Cynulliad.

**14. Mae rhai o'r pwerau dirprwyedig yn bwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol. Mae dau o'r pwerau hyn (cymalau 66 a 76) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. A ydych chi'n credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol yn yr achosion hyn? Pam nad ydych wedi gofyn am i reoliadau a wneir o dan y pwerau hyn ddilyn y weithdrefn gadarnhaol?**

**Cymal 66 Pwerau i amrywio Hysbysiadau Cosb Benodedig** – Ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol gan fod y cynllun Hysbysiad Cosb Benodedig eisoes ar waith ac mae'r pŵer hwn yn caniatáu diwygio swm y gosb sydd i'w chodi yn unig. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu'n unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus ac, yn unol â hynny, bydd angen i unrhyw gynnydd yn swm y gosb fod yn rhesymol ac yn deg. Mae'r dull yn gyson â phwerau tebyg yn adran 34A(10), 46B(5), 47ZB(6) ac adran 97A(3) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n ddarostyngedig i'r un weithdrefn.

**Cymal 76 Cynlluniau rheoli draeniad a charthffosiaeth** – Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol gan y byddai'r rheoliadau'n gwneud mân newidiadau technegol i'r ffordd y caiff cynlluniau eu cyhoeddi ac mae'n bosibl y bydd angen gwneud hyn yn aml. Ni fyddai'r rheoliadau'n gwneud diwygiadau i gynnwys y cynlluniau eu hunain.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi'r cynlluniau ar sail statudol ac yn gosod fframwaith rheoleiddio. Mae'r pwerau rheoleiddio yn ymwneud ag agweddau gweithdrefnol manwl ar waith paratoi, ymgynghori, amseru a chyhoeddi'r cynllun.

**15. Mae cymal 75 yn diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i hepgor gofynion gweithdrefnol penodol mewn perthynas â pharatoi ac adolygu cynlluniau rheoli adnoddau dŵr o'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Yn lle hynny, bydd gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu'r gofynion mewn rheoliadau. Pam ei bod yn briodol i'r gofyniad hwn gael ei symud o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth?**

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi'r cynlluniau ar sail statudol ac yn gosod fframwaith rheoleiddio. Mae pwerau rheoleiddio yr adrannau hyn yn ymwneud ag agweddau gweithdrefnol manwl ar baratoi'r cynllun, ymgynghori arno, ei amseru a'i gyhoeddi. Bydd hyn yn cysoni'r gweithdrefnau cynllunio adnoddau dŵr yn agosach â'r weithdrefn ar gyfer paratoi cynlluniau draenio a dŵr gwastraff.

**16. Mae cymal 75(3) yn hepgor adrannau 37B a 37C o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. A allwch chi egluro pam mae'r darpariaethau hyn yn cael eu dileu? A fydd Gweinidogion Cymru yn disodli'r darpariaethau hyn trwy is-ddeddfwriaeth?**

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi'r cynlluniau ar sail statudol ac yn gosod fframwaith rheoleiddio. Mae pwerau rheoleiddio yr adrannau hyn yn ymwneud ag agweddau gweithdrefnol manwl ar baratoi, ymgynghori, amseru a chyhoeddi'r cynllun sy'n fwy priodol i'w rhagnodi gan ddeddfwriaeth sylfaenol, Byddwn yn ymgynghori ynghylch hyn ymlaen llaw.

**17. Mae cymal 76 yn mewnosod adrannau 94B a 94D i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae adrannau 94B a 94D yn darparu, pan fo'r Cynulliad yn penderfynu y caiff offeryn sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru ei ddirymu, "Caiff Ei Mawrhydi, trwy Orchymyn yn y Cyngor, ddirymu'r offeryn". Pam mae hyn yn wahanol i'r dull ar gyfer rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru a nodir yn Neddf Offerynnau Statudol 1946?**

Mae adran 11A(5)(b) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn darparu mewn achos o offeryn statudol a wnaed gan Weinidogion Cymru yn unig, bod pŵer Ei Mawrhydi i ddirymu, trwy Orchymyn yn y Cyngor, offeryn statudol a osodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn bŵer gan Weinidogion Cymru i'w ddirymu trwy orchymyn.

Mae'r adrannau 94B a 94D sydd newydd eu mewnosod yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn cynnwys pwerau i wneud Rheoliadau (adran 94D newydd) a Gorchmynion (adran 94B) a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, oherwydd natur drawsffiniol yr offerynnau hynny.

Felly, ni fydd adran 1A(5)(b) yn gymwys i'r offerynnau hyn. Nid yw Deddf 1946 yn gwneud darpariaeth bendant ar gyfer senario lle caiff offeryn ei wneud gan Weinidogion Cymru a chan yr Ysgrifennydd Gwladol. Felly, teimlwyd ei bod yn fwyaf ymarferol i'w Mawrhydi ddarparu ar gyfer dirymu'r ddau offeryn.

**18. Mae cymal 76 hefyd yn mewnosod adran 94C yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, trwy reoliadau, ynghylch y weithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi cynllun rheoli draenio a charthffosiaeth. Gall y rheoliadau hynny roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau trwy gyfarwyddiadau. A ydych chi'n credu bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 94C?**

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol yn rhoi'r cynlluniau ar sail statudol ac yn gosod fframwaith rheoleiddio. Mae'r pwerau rheoleiddio yn ymwneud ag agweddau gweithdrefnol manwl ar y gwaith paratoi, ymgynghori, amseru a chyhoeddi'r cynllun. Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.

**19. Mewn perthynas â phwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 81 (ansawdd dŵr), a allwch chi egluro pam mae pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol yn fwy cyfyngedig yn yr Alban nag yng Nghymru? Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y mater hwn?**

Ni fu unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn,

**<u>Pwerau cydredol plws</u>**

**20. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o bwerau cydredol plws (gan gynnwys yng nghymalau 47 i 51, 81, a 125, ac Atodlenni 4 i 8) sy'n lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y gwahanol feysydd. A allwch chi egluro pam rydych yn ystyried bod y pwerau cydredol plws yn briodol? Beth yw'r ymrwymiad Gweinidogol y cyfeirir ato yn eich Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol?**

Bwriad polisi Cymalau 47-51 yw datblygu dull rheoleiddio ar y cyd ledled y DU i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, sy'n caniatáu cynllun cyson i weithredu ar draws y DU ar gyfer pecynnu, a chynhyrchion eraill o bosibl. Mae'r gallu i gael y dewis i ddatblygu cynllun cyson yn bwysig am resymau marchnad. Mae hyn yn cynnwys natur fandyllog y ffin helaeth â Lloegr a'r ffordd y mae llawer o fanwerthwyr yn gweithredu eu systemau dosbarthu. Gallai gweithredu systemau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gwahanol rhwng Cymru a Lloegr gymell twyll, a byddai'n ddryslyd i fanwerthwyr ac i'r cyhoedd.

Er mwyn sicrhau'r cysondeb hwn, rydym yn gofyn am ddull cydredol plws, gydag effaith hynny'n golygu y byddai Gweinidogion Cymru yn cyflawni swyddogaethau yng Nghymru, oni bai y rhoddir caniatâd. Lle y barnwyd ei bod yn briodol, gallai Gweinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau mewn perthynas â Chymru. Mae sicrhau'r pwerau i Weinidogion Cymru yn eu galluogi i gael hyblygrwydd yn y dyfodol, a byddai hefyd yn caniatáu iddynt gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer cynhyrchion eraill yng Nghymru (er enghraifft cewynnau untro).

Mae cynnwys y pwerau hyn yn y Bil yn cyd-fynd â meini prawf y Prif Weinidog ar y defnydd o Filiau'r DU gan fod natur gydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu ei bod yn fwyaf effeithiol a phriodol i'r ddarpariaeth ar gyfer y ddau gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Ceisir pwerau cydredol hefyd mewn perthynas â chymal 81, sy'n ymwneud â diweddariadau technegol ym maes ansawdd dŵr. Mae'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau neu ddiwygio deddfwriaeth at ddibenion:

- gwneud darpariaeth ynghylch y sylweddau sydd i'w hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear;

- pennu safonau mewn perthynas â'r sylweddau hynny neu mewn perthynas â statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear

Bydd pwerau o'r fath yn cael eu cymhwyso mewn perthynas ag ardaloedd basn afon. Er bod gennym un ardal basn afon sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, mae dwy o'n hardaloedd basn afon yn drawsffiniol (afonydd Dyfrdwy a Hafren). Ar hyn o bryd, mae'r pwerau Gweinidogol mewn perthynas â'r ardaloedd hynny yn cael eu harfer ar y cyd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol. O ystyried bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn cael ei harfer yn y fath fodd, mae'n ddymunol i gyd-fynd yn agos â Defra ar y materion hyn er mwyn sicrhau dull cyffredin o weithredu mewn perthynas â'r ardaloedd basn afon trawsffiniol.

Mae cymal 125 a'i atodlenni cysylltiedig yn darparu ar gyfer diwygio rheoliadau REACH a rheoliadau gorfodi REACH. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chysylltu ag Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE ac mae'n darparu pŵer galluogi i wneud diwygiadau yn y dyfodol i gyfraith yr UE a gedwir. Dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau, lle maent yn ymwneud â materion o fewn cymhwysedd datganoledig. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymagwedd a gymerwyd gyda phwerau DU gyfan yn yr offerynnau cywiro Ymadael â'r UE ar gyfer REACH, sy'n ofynnol er mwyn galluogi cyfundrefn ar gyfer y DU gyfan.

Mae angen pwerau cydredol plws hefyd mewn perthynas â rheoliadau gorfodi REACH. Ar hyn o bryd, mae pŵer gan Weinidogion Cymru i ddiwygio rheoliadau gorfodi REACH yng Nghymru o dan Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2007 ([http://www. legislation. gov. uk/uksi/2007/1349/made](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2007/1349/made)), fel sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gofynnwyd am y pŵer cydredol plws i gynnal y status quo a chadw'r pwerau sy'n arferadwy ar hyn o bryd gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol o dan gyfraith yr UE.

Rydym wedi sicrhau cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r Bil, pe bai angen hyn. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnwys eithriad o baragraff 11, Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru, sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaethau Gweinidog y Goron heb ganiatâd gan y Gweinidog Llywodraeth y DU perthnasol. Cymhwysir y swyddogaeth pan fo swyddogaeth ddatganoledig gymwysedig yn cynnwys swyddogaeth sydd i unrhyw raddau yn arferadwy ar yr un pryd.

**21. A fydd Gorchymyn adran 109 yn cael ei gyflwyno i ymdrin â'r eithriad mewn perthynas â pharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru? Rydym yn ymwybodol bod Gorchymyn adran 109 yn cael ei ddrafftio ac y dylid ei gyflwyno yn y dyfodol agos; a gaiff y materion a godir yn y Bil hwn eu trafod yn y Gorchymyn adran 109 arfaethedig? Os na, pam hynny a pha bryd y bydd y materion hyn yn cael sylw?**

Rhagwelwn y bydd Gorchymyn adran 109 yn cael ei gyflwyno'n fuan ac y bydd yn mynd i'r afael â'r mater o swyddogaethau cydredol yn y Bil hwn. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen diwygio'r Bil.

**22. A oes unrhyw feysydd lle mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU lunio is-ddeddfwriaeth ar ran Llywodraeth Cymru? A fydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad yn ffurfiol pan fydd caniatâd wedi'i roi, yn ôl proses Rheol Sefydlog 30C?**

Effaith gweithredu cydredol plws yw bod Gweinidogion Cymru, oni bai bod caniatâd yn cael ei roi, yn cyflawni swyddogaethau yng Nghymru. Lle y barnwyd ei bod yn briodol, gallai Gweinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer y pwerau mewn perthynas â Chymru.

Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r Cynulliad yn ffurfiol pan fydd caniatâd wedi'i roi, yn ôl proses Rheol Sefydlog 30C.

**<u>Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru ym Mil yr Amgylchedd</u>**

**23. A yw'n fwriad i'r pwerau yn y Bil fod yn rhai dros dro o ran eu natur (h.y. a fyddant yn cael eu disodli gan bwerau mewn Bil Amgylchedd Cymru yn y dyfodol)? Os na, pam ddim? Os felly, pam nad oes cymal machlud wedi'i gynnwys yn y Mesur?**

Bydd y pwerau galluogi yn y Bil yn ein helpu i gyflawni polisi Cymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Rydym wedi defnyddio Bil Amgylchedd y DU gan nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd ar gyfer Bil Amgylchedd Cymru.

**24. Fel un o'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Amgylchedd, nodwch nad oes amser ar hyn o bryd o fewn amserlen y Cynulliad i gyflwyno Bil Amgylchedd y gellid ei ddefnyddio i ddatblygu'r darpariaethau hyn. Mater i Lywodraeth Cymru yn unig yw penderfynu ar ei rhaglen ddeddfwriaethol. Pam na allai Llywodraeth Cymru gynnwys Bil yr Amgylchedd yn ei rhaglen ddeddfwriaethol?**

Mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau cyfyngedig ar gyfer datblygu ei rhaglen ddeddfwriaethol, yn enwedig o ran yr arbenigwyr hynny sy'n drafftio ac yn cyfieithu deddfwriaeth. Mae'n gwneud penderfyniadau ar gynnwys y rhaglen ar sail yr adnoddau sydd ar gael a'r capasiti i gyflawni, sydd, fel rhan o'm portffolio i, wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan y gwaith sydd ei angen i ymateb i ymadael â'r UE. Mae datblygu deddfwriaeth yn cymryd amser er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'r diben. Yn ogystal, mae'n rhaid i Fil gael ei gyflwyno erbyn pwynt penodol yn nhymor y Senedd er mwyn sicrhau bod gan y Senedd ddigon o amser i graffu arno a'i gymeradwyo cyn etholiadau nesaf y Senedd, neu fel arall bydd y Bil yn methu. Mae'r heriau hyn, ynghyd â'r gwaith angenrheidiol a pharhaus ar ddeddfwriaeth i ymateb i'r broses o adael yr UE a phontio, wedi golygu na fu Bil Amgylchedd Cymru yn bosibl. Mae Bil y DU wedi rhoi cyfle amgen i ni roi deddfwriaeth ar waith mewn rhai meysydd allweddol.

**25. Tra bod y darpariaethau llywodraethu amgylcheddol yn y Bil yn ymwneud yn uniongyrchol ag ymadawiad y DU o'r UE, ymddengys nad yw holl ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â Brexit. Faint o'r darpariaethau eraill yn y Bil y mae angen eu rhoi ar waith cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu? A oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil yn "hanfodol o ran amser", ac os felly, pam?**

Ni allaf roi sylwadau ar y Bil ehangach gan mai Llywodraeth y DU sy'n penderfynu sut i gyflawni ei hamcanion polisi.

Yn sgil colli adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, sy'n ein galluogi i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth lle bo'n briodol, rydym wedi cymryd pwerau galluogi i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth mewn rhai meysydd megis gwastraff peryglus, pwerau ansawdd dŵr (sylweddau blaenoriaeth) a REACH.

O dan y cytundeb pontio, mae'n orfodol i'r DU drosi diwygiadau Erthygl 8A i Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE fel rhan o Becyn Economi Gylchol yr UE. Mae darpariaethau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn y Bil ar gael i'n galluogi ni, ynghyd â chenhedloedd eraill y DU, i fodloni'r gofynion sylfaenol cyffredinol mewn perthynas â chyfrifoldeb cynhyrchwyr yn y Pecyn Economi Gylchol.

Bydd angen rhoi pwerau mewn perthynas â REACH ar waith yn fuan ar ôl y cyfnod pontio. Pan fyddwn yn colli pwerau o dan adran 2(2), ni fyddwn yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i reoliadau gorfodi REACH er mwyn cadw'n gyfredol â newidiadau technegol. Trwy gymryd pwerau yn y Bil hwn, bydd y Llywodraeth yn gallu ymateb yn ddi-oed i unrhyw faterion gweithredu sy'n codi a hwyluso rhoi darn mawr a chymhleth o ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r UE ar waith.

Y rheswm y mae hyn yn sensitif o ran amser yw oherwydd y ffaith bod terfynau amser a gweithgareddau/penderfyniadau i'w gwneud o dan REACH a ysgogir gan ddiwedd y cyfnod gweithredu. Mae colli pwerau adran 2(2) yn llai pwysig o'i gymharu â'r angen i ddiwygio terfynau amser o bosibl neu i symleiddio'r broses REACH pan ddaw'n weithredol. Mae pwerau adran 2(2) yn ymwneud â diwygio rheoliadau gorfodi REACH. Cafodd gweddill y rheoliadau REACH eu diwygio gan gyfraith yr UE ac roeddent yn gymwys i'r DU heb yr angen am ddeddfwriaeth ddomestig. Heb y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau cychwynnol gyda REACH (er enghraifft, anhapusrwydd busnesau gyda'r terfyn amser cofrestru o ddwy flynedd).

Yn fwy cyffredinol, hoffem gyflwyno'r holl newidiadau cyn gynted â phosibl, o ystyried y buddiannau a ddisgrifir yn yr ateb i gwestiwn 1.

**26. Sut a phryd y byddwch yn adolygu effeithiolrwydd y Bil ar gyfer llunio polisi amgylcheddol yng Nghymru?**

Bydd yr adolygiad o effeithiolrwydd y Bil mewn perthynas â pholisi amgylcheddol yn ffurfio rhan o'r adolygiad polisi a thystiolaeth parhaus sy'n digwydd o fewn y Llywodraeth. Caiff hyn ei lywio dros amser gan amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth a mecanweithiau adborth megis yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a metrigau a thargedau amgylcheddol eraill sydd ar waith, er enghraifft cyfraddau ailgylchu, cofnodi tipio anghyfreithlon.

Caiff y rhestrau cyhoeddedig ar gyfer tanwyddau awdurdodedig a dosbarthiadau lleoedd tân esempt eu diweddaru, eu monitro a'u hadolygu'n flynyddol.

Bydd effeithiolrwydd yr ardrethi draenio tir a darpariaethau yn cael eu hasesu trwy gyflwyno dull mwy cyson o adolygu.

**<u>Hygyrchedd</u>**

**27. Sut y byddwch yn sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil, a'r is-ddeddfwriaeth a wneir fel rhan ohono, yn hygyrch i randdeiliaid ac i'r cyhoedd yn gyffredinol?**

Wrth i reoliadau gael eu datblygu i ddeddfu'r pwerau yn y Bil, byddwn yn dilyn ein prosesau cais am dystiolaeth, ymgysylltu ac ymgynghori arferol.

**28. A ydych chi'n pryderu y bydd cael y darpariaethau hyn yn neddfwriaeth y DU yn cael effaith negyddol ar hygyrchedd y gyfraith, ar adeg pan mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch?**

Rydym wedi ystyried bod hygyrchedd y gyfraith yn ystyriaeth allweddol wrth gymryd pwerau yn y Bil hwn. Gan fod llawer o'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn gweithredu ar sail Cymru a Lloegr, o leiaf, mae defnyddio Bil y DU i wneud y diwygiadau hyn yn sicrhau na cheir nifer o ddiwygiadau tebyg i un ddarpariaeth, gan ei gwneud yn fwy hygyrch i'r defnyddiwr.

Yng ngoleuni rhaglen y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer codeiddio, byddwn wrth gwrs yn ystyried ar ryw adeg yn y dyfodol sut y gallwn wneud cyfraith amgylcheddol yng Nghymru yn fwy cydlynol a hygyrch.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon